# Rhaglen Gyflawn

Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR GWE**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MERCHER, 27AIN TACHWEDD, 2019**

Lleoliad

**Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Ffordd Abergele, Bae Colwyn, LL29 8BF**

Pwynt Cyswllt


**Annes Sion**

**01286 679490**

**AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru**


(Dosbarthwyd 21/11/19)

# CYD-BWYLLGOR GWE

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cynghorydd Meirion Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cynghorydd Ian Roberts | Cyngor Sir y Fflint |
| Cynghorydd Phil Wynn | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cynghorydd Cemlyn Rees Williams | Cyngor Gwynedd |

## Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Rosalind Williams | Eglwys yng Nghymru |
| Haf Williams | Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd |
| Claire Armistead | Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd |
| Jonathan Morgan | Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig |
| Alison Fisher | Cynrychiolydd Llywodraethwr |

## Swyddogion Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Rhys Howard Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Dr Lowri Brown | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Karen Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Claire Homard | Cyngor Sir y Fflint |
| Ian Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Garem Jackson | Cyngor Gwynedd |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Arwyn Thomas | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| Dafydd L. Edwards | Awdurdod Lletyol |
| Sion Huws | Awdurdod Lletyol |
| Susan Owen Jones | Rheolwr Busnes GwE |
| Annwen Morgan | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Alwyn Jones | Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE |
| Gareth Williams | Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE |

## Sylwebydd

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** 5 - 8

(copi wedi ei atodi)

**5. ADRODDIAD AR DDEILLIANNAU 2019** 9 - 33

Alwyn Jones i gyflwyno adroddiad ar berfformiad ar draws Gogledd Cymru gan gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**6. ADNODDAU A SGÔP GWE** 34 - 48

Adroddiad Arwyn Thomas sydd yn amlinellu adnoddau a chwmpas presennol y gwasanaeth rhanbarthol

**7. CYLLIDEB GWE 2019-20 - ADOLYGIAD CHWARTER 2** 49 - 53

Arwyn Thomas a Dafydd Edwards i ddiweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2019/20.

**8. CYNLLUN BUSNES 2019-20 - MONITRO CHWARTER 2** 54 - 82

Arwyn Thomas i gyflwyno Adroddiad Monitro Chwarter 2 - Cynllun Busnes Lefel 1 i'r Cyd-bwyllgor

**9. STRATEGAETH RHANBARTHOL Y GYMRAEG** 83 - 102

Alwyn Jones i gyflwyno strategaeth '*Datblygu'r Gymraeg mewn Addysg yn rhanbarth Gogledd'* i'r Cyd-bwyllgor i'w gymeradwyo.

**10. GDD / PMG - DIWEDDARIAD** 103 - 112

Arwyn Thomas i gyflwyno diweddariad i'r Cyd-bwyllgor ar y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer dysgwyr sy'n derbyn gofal a dysgwyr a arferai dderbyn gofal.

**11. ADOLYGIAD O GYNNYDD GWE - ADRODDIAD STEVE MUNBY** 113 - 120

Arwyn Thomas i gyflwyno adroddiad 'Adolygiad o gynnydd GwE' gan Steve Munby i'r Cyd-bwyllgor

*Bydd cyflwyniad byr ar ddiwedd y cyfarfod ar 'Cyfarfod Adolygiad a Her: GwE' a gynhelir ar 28 Tachwedd 2019, er gwybodaeth.*

# CYD-BWYLLGOR GWE
# DYDD MERCHER, 11 MEDI 2019

**Yn bresennol:**

**Y Cynghorwyr:** Phil Wynn (Cadeirydd - Cyngor Bwrdeistrefol Siriol Wrecsam), Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn) a Cemlyn Williams (Cyngor Gwynedd).

**Swyddogion heb bleidlais:** Rhys Howard Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Garem Jackson (Cyngor Gwynedd)

**Swyddogion yn bresennol:** Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Dafydd Edwards (Swyddog Cyllid Statudol Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Sion Huws (ar ran Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Susan Owen (Rheolwr Busnes GwE), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Annes Sion (Swyddog Pwyllgor Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Hywyn Jones (Uwch Gyfrifydd Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol) a Bethan Roberts (Rheolwr Rheoli Perfformiad, GwE)

**Ymhen cyswllt fideo:** Clare Skivens, Uwch Reolwr, Archwilwyr Deloitte

**1. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd Cyng. Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn) yn Is-gadeirydd ar gyfer 2019/20.

**2. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Cyng. Huw Hilditch-Roberts (Cyngor Sir Ddinbych), Cyng. Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Dr Lowri Brown (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint), Ian Roberts (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) Dr Gwynne Jones (Cyngor Sir Ynys Môn) a Gareth Williams (Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE).

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys.

**5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 8 Gorffennaf fel rhai cywir.

**6. DATGANIAD O'R CYFRIFON 2018/19**

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd, nodwyd a chymeradwywyd y dogfennau a gyflwynwyd, sef:

- Adroddiad 'ISA260' ar ran Archwiliwr Cyffredinol Cymru, a
- Datganiad o Gyfrifon GwE am 2018/19 (yn dilyn archwiliad)

Derbyniwyd yr argymhelliad yn ogystal fod cyfarfod Bwrdd Rheoli GwE am gynnwys eitem ar yr agenda i gytuno'n benodol ar ddosbarthiad y Grant Gwella Addysg flynyddol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn cwmpasu'r cyfrifon a gyflwynwyd i'r Cydbwyllgor ym mis Gorffennaf. Mynegwyd nad oedd unrhyw newid sylweddol i'r cyfrifon yn dilyn y cyfarfod hwnnw. Nodwyd camgymeriad yn y fersiwn Saesneg o'r adroddiad blaen i'r cydbwyllgor. Eglurwyd fod y ffigyrau ariannol yn y Datganiad o Gyfrifon GwE yn parhau'r un fath, ond fod ychydig o addasiadau i'r iaith.

Nododd Uwch Reolwr Archwilwyr Deloitte fod y cyfrifon o safon uchel ac nad oedd unrhyw gywiriadau o sylwedd angen ei wneud. Diolchwyd i staff y Cyngor am eu gwaith. Tynnwyd sylw at argymhellion cwmni Deloitte, sef fod y Bwrdd Rheoli GwE yn cynnwys eitem ar yr agenda i gytuno'n benodol ar ddosbarthiad y Grant Gwella Addysg yn flynyddol.

Diolchwyd i Deloitte am eu gwaith.

**7. TARGED ARBEDION EFFEITHLONRWYDD**

PENDERFYNIAD

Cadarnhawyd y newidiadau yn y strwythur staffio parhaol, ac o ganlyniad fod modd cynhaeafu arbedion i fodloni'r targed o £206,485.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod arbedion blynyddoedd blaenorol i'w canfod, yn ogystal â'r targed arbedion sefydlwyd ar osod y gyllideb ar gyfer 2019/20. Nodwyd fod GwE wedi dod o hyd i'r arbedion effeithlonrwydd drwy newid y strwythur staffio parhaol. Mynegwyd fod un o'r Cyfarwyddwyr Cynorthwyol GwE wedi cael rôl newydd mewn awdurdod lleol, a gadawodd ei swydd diwedd mis Awst 2019. Mynegodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE ei fod yn awyddus i beidio penodi i swydd Cyfarwyddwyr Cynorthwyol ac i ddyrannu'r gwaith rhwng gweddill uwch reolaeth GwE.

Nodwyd y bydd cyfarfod o Brif Weithredwr rhanbarth gogledd Cymru yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd, a fydd yn rhoi syniad am gyfraniadau ariannol yr awdurdodau lleol a chyllideb GwE am 2020/21.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Diolchwyd i GwE am edrych ar y targed arbedion hanesyddol a sicrhau ei fod yn cael ei setlo cyn wynebu her ariannol GwE erbyn 2020/21. Mynegwyd fod yr amrediad posibiliadau o ran setliad 2020/21 yr awdurdodau lleol yn eang iawn. Nodwyd gobaith bydd sefyllfa 2020/21 GwE yn fwy clir erbyn y Nadolig.

**8. CYLLIDEB GWE 2019/20 – ADOLYGIAD CHWARTER 1AF.**

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y gyllideb yn adlewyrchu'r sefyllfa cyn addasiadau yn sgil yr adroddiad blaenorol oedd yn bodloni'r targed arbedion. Cadarnhawyd, yn dilyn yr addasiadau hynny, bydd y gwariant yn adlewyrchu'r gyllideb yn gytbwys ac yn adlewyrchu sefyllfa ariannol boddhaol yn 2019/20 .

**9. CYNLLUN BUSNES 2019-20 - ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 1**

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 1.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 1. Nodwyd fod y Cynllun Busnes eisoes wedi ei gymeradwyo gan y Cydbwyllgor. Mynegwyd fod y Cynllun yn gosod allan y blaenoriaethau ar draws y rhanbarth. Nodwyd fod gwariant GwE ar drac.

**10. PAPUR TRAFOD - ADRODD AR BERFFORMIAD O FEDI 2019 YMLAEN**

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd yr egwyddorion sydd wedi eu nodi yn yr adroddiad ac i lunio set o gwestiynau i Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac Estyn yn gofyn am eglurder ar sut orau i ddefnyddio data perfformiad a gwybodaeth i wella perfformiad dysgwyr ac ysgolion.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod adroddiad perfformiad yn y gorffennol yn dueddol o edrych ar berfformiad cyfnod allweddol, ond bellach ei fod ar dirwedd newydd. Tynnwyd sylw at gyhoeddiad ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac Estyn a oedd yn nodi eu bod yn disgwyl i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gefnogi ysgolion i wneud penderfyniadau priodol am eu cwricwlwm er mwyn osgoi cyfyngu ar y dewis i ddysgwyr. Mynegwyd yn ogystal fod y cyhoeddiad yn nodi y bydd gwerthuso perfformiad ysgolion unigol yn hytrach na chynhyrchu data agregedig ar lefel awdurdod lleol yn fwy defnyddiol er mwyn cefnogi a herio ysgolion unigol gyda'u gwelliannau. Holwyd beth fyddai goblygiadau gwneud hyn.

Mynegwyd fod mesurau interim newydd ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 eleni. Ychwanegwyd er bod data 2019 ar gael ar hyn o bryd ynghylch mesurau perfformiad hanesyddol, mae cymharu â blynyddoedd blaenorol yn annilys oherwydd yr arfer o gyfrif yr ymgais gyntaf yn hytrach nac y canlyniad gorau. Nodwyd felly yn lleol nid oes modd o edrych yn ôl a gweld tueddiadau, sy'n codi'r cwestiwn beth ddylid ei gyflwyno i bwyllgorau craffu. Esboniwyd fod angen i bob awdurdod fod â data ond mae'n codi llawer o gwestiynau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Mynegwyd yr angen i drafod hyn ymhellach – a fyddai Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnal gweithdai er mwyn sicrhau dealltwriaeth a chysondeb cenedlaethol.
- Nodwyd o ran craffu, a fyddai'n syniad cael cyfarfod rhanbarthol gyda chadeiryddion Craffu, penaethiaid addysg yr awdurdodau lleol a GwE i sicrhau dealltwriaeth a chysondeb rhanbarthol.  Esboniwyd fod rhai cyfarfodydd craffu yr awdurdodau wedi cael eu rhaglennu i gyfarfod yn fuan - efallai bydd angen dal yn ôl o ran adrodd ar berfformiad.
- Nodwyd yr angen i lunio set o gwestiynau i Lywodraeth Cymru, CLILC ac Estyn yn gofyn am eglurder ar sut orau i ddefnyddio data perfformiad a gwybodaeth i wella perfformiad dysgwyr ac ysgolion, cyn cynhadledd CLILC wythnos nesaf fel bod modd cael atebion yn y gynhadledd.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30y.b a daeth i ben am 02:15 pm

**CADEIRYDD**

Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**27 Tachwedd 2019**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Alwyn Ll Jones – Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE |
| **Pwnc:** | Adroddiad ar ddeilliannau 2019 |

**1.0 Pwrpas yr adroddiad**

1.1 Cyflwyno adroddiad ar berfformiad ar draws Gogledd Cymru gan gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**2.0 Cefndir**

2.1 Mae'r Cyd-bwyllgor eisoes wedi cymeradwyo'r egwyddorion o ran sut byddwn yn adrodd ar berfformiad ar draws Gogledd Cymru o Fedi 2019 ymlaen.

2.2 Mae'r adroddiad ynghlwm yn amlinellu'r cefndir a'r cyd-destun mewn perthynas â'r newidiadau cenedlaethol yn y modd yr adroddir ar asesiadau athrawon, a'r mesurau interim newydd ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 yn 2019 fel rhan o'r rhaglen o newidiadau sylweddol i addysg yng Nghymru. Mae hefyd yn egluro'r materion a godwyd yn y datganiad ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Estyn a sut dylid dadansoddi'r data ar y lefel leol ac fel man cychwyn i gwestiynu blaenoriaethau lleol.

**3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Yng nghyd-destun yr uchod, mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o sefyllfa bresennol y rhanbarth mewn perthynas â phroffil arolygiadau ysgolion, categoreiddio cenedlaethol a gwella ysgolion.

Nodir hefyd gwestiynau sy'n dod i'r amlwg i gynorthwyo'r Cyd-bwyllgor, swyddogion ALl a Phwyllgorau Craffu i arfarnu cynnydd, safonau a pherfformiad disgyblion.

3.2 Yn ogystal â'r uchod, byddwn yn darparu adroddiad naratif ar gyfer pob ALl yn unigol, sy'n cynnwys y canlynol:

- Arfarnu perfformiad a chwestiynau sy'n codi:
  - Y Cyfnod Sylfaen
  - Cyfnod Allweddol 2
  - Cyfnod Allweddol 3
  - Cyfnod Allweddol 4
  - Cyfnod Allweddol 5
- Proffil Estyn yr ALl
- Proffil Categoreiddio yr ALl
- Trefniadau monitro yr ALl ar gyfer craffu ar berfformiad ysgolion unigol
- Prif feysydd ar gyfer gwelliant yr ALl i'w cynnwys mewn Cynlluniau Busnes Lefel 2

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor dderbyn yr adroddiad fel model ar gyfer adrodd i bwyllgorau craffu o ran y cyd-destun rhanbarthol a pherfformiad lleol.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori â Wnaed**

8.1 Datblygwyd y trefniadau gwerthuso a gwella newydd hyn ar y cyd â chydweithwyr mewn ysgolion, Estyn, llywodraeth leol a chonsortia rhanbarthol, gan ystyried gwaith ymchwil rhyngwladol.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 – Adroddiad ar ddeilliannau 2019.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Dim i'w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

# ADRODDIAD AR DDEILLIANNAU 2019

## CYNNWYS

1. **Cefndir a chyd-destun**

2. **Safonau**
    - **Trosolwg o berfformiad ym mhob Awdurdod Lleol (AauLl unigol i'w cynnwys yn Atodiad 1)**
    - **Proffil Arolygiadau Ysgolion Estyn**
    - **Categoreiddio Cenedlaethol**

3. **Cwestiynau sy'n dod i'r amlwg i helpu'r Cyd-bwyllgor, swyddogion ALl a Phwyllgorau Craffu i arfarnu cynnydd, safonau a pherfformiad disgyblion.**

4. **Blaenoriaethau Cynllun Busnes 2019-20**

5. **Atodiad 1 - Adroddiad ar Safonau i bob ALl unigol**

## 1. CEFNDIR A CHYD-DESTUN

Mae Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr ag amryw o bartneriaid ac arbenigwyr, wedi mynd ati i adolygu'r system atebolrwydd i ysgolion yng Nghymru.

Amlygodd y canfyddiadau bod gan y system bresennol, a'i defnydd o fesurau perfformiad, amryw o ganlyniadau anfwriadol negyddol, megis:

- culhau'r dewis yn y cwricwlwm;
- ffocws anghymesur ar grwpiau penodol o ddysgwyr;
- sut y defnyddir meincnodi, sy'n gyrru cystadleuaeth rhwng ysgolion yn hytrach nag annog cydweithredu;
- llwyth gwaith cynyddol a diangen i athrawon ac eraill yn y system, heb yr effaith na'r budd angenrheidiol i ddysgwyr; a
- cyfuno data at ddibenion *atebolrwydd,* pan y'i lluniwyd at ddibenion gwella.

O ganlyniad, mae ysgolion wedi clywed negeseuon anghyson gan y gwahanol rannau o'r system ynghylch yr hyn sy'n bwysig. Yn aml, mae hyn wedi gwyro ymdrechion oddi wrth y dysgu a'r addysgu a'n symud tuag at ddiwylliant o gydymffurfio a biwrocratiaeth.

Roedd gohebiaeth ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Estyn i Gadeiryddion Craffu, Aelodau Cabinet, Cyfarwyddwyr Addysg, Prif Swyddogion Gweithredol, a Rheolwyr Gyfarwyddwyr Consortia Addysg Rhanbarthol, a gyhoeddwyd ar **16 Gorffennaf 2019** yn datgan:

> "*Mae'n wrthgynhyrchiol rhoi pwysau anghymesur ar ysgolion ar sail mesurau unigol. Nid yw'n llesol i welliant ysgol, a gallai danseilio y newid parhaus mewn diwylliant yr ydym ni'n gweithio gyda'n gilydd i'w gyflawni. Disgwyliwn i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gefnogi ysgolion i wneud penderfyniadau priodol am eu cwricwlwm i osgoi culhau'r dewis i ddysgwyr.*
>
> *Ar y cyd, rydym wedi cytuno mai dyma'r ffordd gywir i weithredu, ac fe'ch cynghorwn yn gryf i ddefnyddio ystod eang o wybodaeth a data heb ei gyfuno, fel bod modd i chi gyflawni eich dyletswyddau wrth adrodd ar berfformiad ysgolion. Bydd arfarnu perfformiad ysgolion unigol yn hytrach na chynhyrchu data wedi'i gyfuno ar lefel awdurdod lleol yn fwy buddiol ar gyfer cefnogi a herio ysgolion unigol i wella.*"

Bydd yr adroddiad hwn ar berfformiad yng Ngogledd Cymru yn cadw at y canllawiau hyn.

**Adrodd ar Asesiad Athro (Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 3)**

Cyflwynwyd newidiadau cenedlaethol o ran adrodd ar asesiad athro yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Ategir amcanion allweddol dogfen Llywodraeth Cymru: 'Cenhadaeth ein cenedl' wrth ddarparu trefniadau asesu, arfarnu ac atebolrwydd cadarn i gefnogi system sy'n hunan wella.

Er mwyn i bob dysgwr gyflawni ei botensial yn llawn, awgryma tystiolaeth ryngwladol bod angen system asesu ac atebolrwydd gydlynol. Prif ddiben asesu yw darparu gwybodaeth sy'n llywio penderfyniadau am y ffordd orau o symud dysgu disgyblion yn ei flaen.

Bellach, mae mwy o ffocws ar i ysgolion ddefnyddio data wrth hunan arfarnu. Yn y system ddiwygiedig, mae ysgolion yn cael eu harfarnu yn unol â'r gwahaniaeth a wnânt i gynnydd pob disgybl.

Mae'r data a'r wybodaeth sydd ar gael i ysgolion er mwyn mesur y cynnydd hwn yn cynnwys: data diwedd cyfnod allweddol, data mynediad gwaelodlin, data cynnydd disgyblion dros amser, data gwerth ychwanegol rhwng y gwaelodlin a chyfnodau allweddol, data profion diagnostig ar ddarllen a rhifedd, ymchwil weithredol a data profion penodol yn ogystal â deilliannau arolygiad ESTYN.

Mae data a gyfunwyd ar i fyny yn hanesyddol, at ddibenion cymharu, wedi'i ddileu. Nid yw meincnodi, cymharu â sefydliadau eraill, data profion darllen a rhifedd, gosod ysgolion ac Awdurdodau Lleol yn ôl trefn, bellach yn dderbyniol nac yn bosibl. Ers y llynedd, yr unig ddata cymharol sydd ar gael i Awdurdodau Lleol yn y cyfnodau allweddol hyn yw cyfartaleddau Cenedlaethol diwedd y cyfnodau allweddol hyn.

Yn ychwanegol, cyhoeddodd Y Gweinidog Addysg ddatganiad ar dargedau perfformiad ysgolion ym mis Mehefin 2019. Meddai:
' ……, *Rwyf am ei gwneud yn gwbl glir mai dim ond fel cyfrwng i ategu gwaith hunanwerthuso ysgolion y dylid defnyddio targedau, ac na ddylid eu hystyried yn fesur perfformiad y bydd ysgolion yn atebol i awdurdodau lleol ar ei sail.'*

Bydd y newidiadau diweddar hyn mewn gofynion adrodd ar asesu yn cryfhau manwl gywirdeb asesu. Bydd yn lleihau lefelau chwyddedig a 'chwarae'r gêm' ac yn sicrhau bod pob ysgol yn ystyried pob dysgwr yn ofalus, nid yn unig y dysgwyr ffiniol sy'n cael dylanwad ar a fydd ysgol yn cyflawni mesur cul ai peidio.

Bydd pwyslais o'r newydd yn y trefniadau cenedlaethol ar Asesu ar gyfer Dysgu fel rhan hanfodol ac annatod o ddysgu ac addysgu; mae'n gam arwyddocaol oddi wrth casglu gwybodaeth am berfformiad pobl ifanc fesul ysgol at ddibenion atebolrwydd.

Ni fydd data asesiad athro na data Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar lefel ysgol, awdurdod lleol na chonsortia yn cael ei gyhoeddi mwyach. Mae hyn yn berthnasol i'r Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 ym mhob ysgol gynradd ac ysgol uwchradd a gynhelir.

Trefniadau fydd yn parhau:

- Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ac Asesiad Athro ar gyfer dysgwyr unigol, fodd bynnag ni chyhoeddir unrhyw wybodaeth feincnodol lefel ysgol genedlaethol.
- Gofynnir i Benaethiaid adrodd ar berfformiad ysgol i rieni ac oedolion sy'n ddysgwyr pob blwyddyn academaidd.
- Gofynnir i Gyrff Llywodraethu lunio adroddiad blynyddol i rieni, prosbectws ysgol, cynllun datblygu ysgol a gosod targedau perfformiad ac absenoldeb. Mae gan ysgolion, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol fynediad i'w data eu hunain o hyd (ynghyd â data ar lefel genedlaethol), at ddibenion hunan arfarnu.
- Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gasglu data ar lefel dysgwr unigol er sicrhau tryloywder ar lefel perfformiad cenedlaethol, ac i lywio'r gwaith o lunio polisïau.

Trefniadau a fydd yn newid:

- Ni chyhoeddir gwybodaeth gymharol am asesiadau athro a phrofion mewn perthynas ag ysgolion eraill mewn awdurdod lleol, na 'theulu o ysgolion'.
- Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu, nac yn cyhoeddi, Adroddiadau Cymharol Ysgolion na Setiau Data Craidd Cymru Gyfan mwyach i ysgolion ac awdurdodau lleol, o safbwynt data asesiadau athrawon.
- Ar wefan *My Local School*, ni cheir mwyach ddata asesiadau athrawon sy'n is na'r lefel genedlaethol (o 2018).

**Newidiadau yn y Meysydd Dysgu yn y Cyfnod Sylfaen**

Ym mis Hydref 2014, adolygwyd Meysydd Dysgu (MD) y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol i gyd-fynd â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh), yn ogystal â'u gwneud yn fwy heriol. Yn unol â hyn, cafodd ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen eu hail-galibro i gyd-fynd â disgwyliadau cynyddol y Meysydd Dysgu diwygiedig.

Cyflwynwyd y MDaPh diwygiedig ar sail statudol o fis Medi 2015. Golyga hyn mai'r garfan a ddechreuodd yn y dosbarth Derbyn ym mis Medi 2015 oedd y garfan gyntaf o blant i gael eu hasesu'n ffurfiol yn erbyn y deilliannau diwygiedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn Haf 2018. Felly, dylid osgoi cymharu deilliannau'r Cyfnod Sylfaen â blynyddoedd blaenorol ar lefel ysgol, gan nad ydynt yn cael eu mesur ar sail gymaradwy.

**Adrodd ar ganlyniadau CA4**

Cyflwynwyd mesurau CA4 newydd dros dro ar gyfer 2019 yn rhan o'r rhaglen diwygio addysg yng Nghymru.

Cesglir data cenedlaethol i ysgolion unigol yn seiliedig ar ganlyniadau arholiadau cyntaf. Bydd y ddata a ddarperir yn rhanbarthol i ysgolion unigol ac AauLl hefyd yn seiliedig ar ganlyniadau arholiadau cyntaf.
Mae JCQ/CBAC wedi cyhoeddi eu data a'u cyhoeddiad i'r wasg yn seiliedig ar y 'deilliant gorau' a gyflawnwyd gan ddysgwyr 16 oed ar draws cyfres mis Tachwedd a'r Haf. Bydd gwahaniaethau rhwng y data arholiad cyntaf a'r deilliant gorau.

O ganlyniad, ar draws amryw o ddangosyddion, ni fydd modd cymharu ffigyrau 2019 â pherfformiad blaenorol.

Yn y tabl isod, gwelir y mesurau dros dro newydd a'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo. Dengys hefyd y gwahaniaethau allweddol â blynyddoedd blaenorol.

| Mesur Dro Dro | Sut y caiff ei gyfrifo | Gwahaniaethau o'r blynyddoedd blaenorol, a pham na ellir cymharu |
|---|---|---|
| Capio 9 | Mae'r Sgôr Pwyntiau 9 wedi'i gapio yn fesur perfformiad sy'n cyfrifo cyfartaledd y sgoriau am y dyfarniadau gorau i bob disgybl unigol yn y garfan, wedi'i gapio ar gyfer nifer penodol o TGAU neu gymwysterau cyfwerth.<br><br>Mae tri o'r naw slot angen dyfarniadau pynciau a chymwysterau penodol er mwyn cyfrannu unrhyw bwyntiau tuag at y mesur. Mae'r slotiau hyn yn rhai maint TGAU, sy'n nodi gofynion mewn TGAU llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth yn unig.<br><br>Gall y radd orau o unrhyw TGAU llenyddiaeth neu Gymraeg iaith gyntaf neu Saesneg gyfrannu tuag at y slot llythrennedd. | ✓ Dim ond arholiad cyntaf disgybl fydd yn cyfrif<br>✓ TGAU Gwyddoniaeth CBAC yn unig |

| | | |
|---|---|---|
| | Gall y radd orau o naill ai mathemateg neu fathemateg- rhifedd TGAU gyfrannu at y slot rhifedd.<br><br>Gall y radd orau o TGAU gwyddoniaeth gyfrannu at y slot gwyddoniaeth (ar hyn o bryd, mae hyn wedi'i gyfyngu i ddyfarniadau yng nghyfres cymwysterau TGAU gwyddoniaeth sydd ar gael i ddysgwyr ar hyn o bryd: bioleg, cemeg, ffiseg, gwyddoniaeth (dyfarniad dwbl), gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad dwbl) a gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad sengl).<br><br>Bydd y chwe chymhwyster sy'n weddill yn cynnwys perfformiad gorau'r disgybl naill ai mewn TGAU ac/neu gymhwyster galwedigaethol sy'n gyfwerth. | |
| Mesur Llythrennedd | Cyfrifo'r cyfartaledd o'r sgoriau i bob disgybl unigol yn y garfan, cymryd y radd orau o unrhyw TGAU llenyddiaeth neu Gymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a ddyfernir i ddisgybl. | Mesur 2019 newydd, dim ond yr arholiad cyntaf fydd yn cyfrif, efo Llenyddiaeth hefyd yn cael ei derbyn o fewn y mesur hwn. |
| Mesur Rhifedd | Cyfrifo'r cyfartaledd o'r sgoriau i bob disgybl unigol yn y garfan, cymryd y radd orau o unrhyw TGAU mathemateg neu fathemateg - rhifedd a ddyfernir i ddisgybl. | Mesur 2019 newydd, dim ond yr arholiad cyntaf fydd yn cyfrif |
| Mesur gwyddoniaeth | Cyfrifo cyfartaledd y sgorau i bob disgybl unigol yn y garfan, cymryd y radd orau o TGAU gwyddoniaeth a ddyfernir i ddysgwr (ar hyn o bryd, mae hyn wedi'i gyfyngu i ddyfarniadau yng nghyfres cymwysterau TGAU gwyddoniaeth sydd ar gael i ddysgwyr: bioleg, cemeg, ffiseg, gwyddoniaeth (dyfarniad dwbl), gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad dwbl) a gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad sengl) - adnabyddir bod y rhain yn gallu cyfrannu tuag at fesurau gwyddoniaeth. | Mesur 2019 newydd, dim ond yr arholiad cyntaf fydd yn cyfrif |
| Mesur Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru | Cyfrifo cyfartaledd y sgorau i Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru i bob dysgwr unigol yn y garfan, boed yn ddyfarniad Sylfaen (Lefel 1) neu Genedlaethol (Lefel 2). | Adroddir ar wahân fel prif ddangosydd am y tro cyntaf yn 2019 |

Yn y cyd-destun hwn, dylid dadansoddi'r data ar lefel leol ac fel man cychwyn i gwestiynu blaenoriaethau lleol.

Er bod data 2019 ar gael ar hyn o bryd ar fesurau perfformiad hanesyddol (L1, L2, L2+ a 5A*-A), nid yw'n ddilys cymharu â blynyddoedd blaenorol oherwydd bod yr arholiad cyntaf yn cyfrif yn hytrach na'r deilliant gorau.

## Craffu ar Berfformiad Ysgolion Unigol

Cynhelir cyfarfodydd Bwrdd Ansawdd Lleol pob pythefnos rhwng Arweinyddion Craidd GwE a phob ALI. Trafodir unrhyw ysgolion sy'n achosi pryder, a nodir unrhyw gryfderau a meysydd

i'w gwella. Mae hyn yn cysylltu â'r cyfarfodydd rheolaidd a gynhelir gan yr arweinydd craidd efo Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant i drafod cynnydd ysgolion. Mae'r gohebu rheolaidd rhwng yr ALl a swyddogion GwE yn sicrhau y rhennir gwybodaeth am allu ysgolion i wella. Ble gwelir bod pryderon, bydd pawb yn gweithio mewn partneriaeth i adolygu'r safonau a'r ddarpariaeth yn yr ysgol a gosod a monitro targedau pendant ar gyfer gwella.

Mae gan bob ALl ei brosesau monitro ei hun i graffu ar berfformiad ysgolion unigol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio 'Byrddau Gwelliant Carlam' i ysgolion sy'n achosi pryder.

Disgrifir trefniadau monitro pob ALl yn eu hadroddiad safonau unigol.

## Ysgolion sy'n achosi pryder

Mae pob ysgol ar daith tuag at welliant, ac felly mae arnynt angen cymorth a her sy'n briodol a gwahaniaethol i amrywiol raddau. Bydd angen targedu ymyrraeth ddwysach o safbwynt rhai ysgolion.

Mae'r label 'ysgolion sy'n achosi pryder' yn un eang iawn, ac nid yw'r canllawiau cenedlaethol yn diffinio'r term ehangach yn glir. I'n dibenion ni yn GwE, rydym wedi llunio'r diffiniadau hyn:

- Ysgolion y mae arnynt angen cymorth i gynnal neu wella safonau [h.y. symud o 'dda' i 'ragorol' neu 'ysgolion sy'n perfformio'n gyfforddus'];
- Ysgolion sy'n gwella ond y mae arnynt angen rhagor o gymorth i wella'u cofnod llwyddiant ac/neu leihau amrywiad o fewn yr ysgol ymhellach;
- Ysgolion ble mae angen targedu cynhaliaeth ac ymyrraeth fwy penodol i'w hatal rhag achosi pryder sylweddol;
- Ysgolion y gwelir sy'n achosi pryder sylweddol ac/neu sydd mewn categori statudol.

Mae gan GwE, a'r awdurdodau lleol, hanes gyffredinol dda o ran cefnogi ysgolion yn effeithiol, ac yn benodol yr ysgolion hynny sy'n achosi pryder. Mae gan bob ysgol uwchradd 'Gynllun Cefnogaeth' unigryw sy'n sicrhau bod cefnogaeth GwE yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau eu CDY. Fel hyn, gellir defnyddio adnoddau, arbenigedd ac arferion gorau y rhanbarth yn fwy effeithiol.

Caiff her a chefnogaeth eu targedu yn amserol ac yn effeithiol, sy'n arwain, yn y rhan fwyaf o achosion, at gyflymu'r daith wella yn yr ysgolion sydd wedi'u hadnabod a, ble'n berthnasol, cânt eu tynnu o gategori dilyniant Estyn.

Cynhelir cyfarfodydd Bwrdd Safonau Ansawdd Lleol yn gyson, rhwng yr ALl ac uwch swyddog GwE, a defnyddir y cyfarfodydd hyn i rannu gwybodaeth am berfformiad a chynnydd ysgol, a chytuno ar unrhyw addasiadau sydd angen eu gwneud i'r cynlluniau cymorth. Mae Byrddau Gwella Carlam Dros Dro yn rhoi her ac ymyrraeth i'r ysgolion hyn sydd mewn catgoriau pryder difrifol. Ble erys pryderon, gweithredir ar lefel uwch allai gynnwys defnyddio pwerau ymyrraeth, fel y diffinnir gan ganllawiau cenedlaethol.

### Sefyllfa bresennol y rhanbarth

Bu proffil arolygiadau ysgolion cynradd ac arbennig yn gyson gryf, ac yn cymharu'n ffafriol gyda phroffil Estyn ar gyfer ysgolion ar draws Cymru. O safbwynt yr ysgolion cynradd a roddwyd mewn categori dros y tair blynedd diwethaf, fe'u tynnwyd oddi yno yn sydyn o ganlyniad i'r her a'r gefnogaeth lefel uchel a dargedwyd.

Erys safonau yn y sector uwchradd yn destun pryder. Dros y flwyddyn a hanner ddiwethaf, mae GwE wedi:

- ail greu proffil y gwasanaeth i sicrhau bod adnoddau ychwanegol yn cael eu targedu tuag at y sector uwchradd;
- cryfhau'r tîm o YCG cyswllt uwchradd i sicrhau profiad ac arbenigedd perthnasol;
- sicrhau bod gan bob ysgol uwchradd raglen gymorth generig ac unigryw;
- hwyluso mynediad at y rhwydweithiau cwricwlwm, MAT, ôl-16 a phynciol i rannu arferion da;
- mabwysiadu dull targedu cynhaliaeth ar ffurf 'ton' i sicrhau gwelliannau parhaus mewn pynciau craidd;
- cyfoethogi cynnig GwE o gyfleoedd datblygiad proffesiynol [ac yn arbennig felly i arweinwyr profiadol, newydd a darpar arweinwyr y dyfodol];
- arwain *y fenter Asesu ar gyfer Dysgu* ranbarthol i wella dysgu ac addysgu efo Shirley Clarke;
- sicrhau rhagor o gymorth i benaethiaid drwy gyfarfodydd fforymau strategol, ac i'r ysgolion sy'n cymryd rhan drwy'r fforwm *Rhagoriaeth ac Arloesi* ;
- cefnogi 12 ysgol yn y rhanbarth i ymchwilio i amrywiad mewn ysgol, a rhoi sylw iddo, drwy wella prosesau tracio data ac ymyrraeth. Bydd modd trosglwyddo'r gwersi a ddysgwyd o'r peilot i bob ysgol ar draws yr ALI;
- darparu cymorth ariannol er mwyn gweithredu mewn ffordd fwy diagnostig i sicrhau gwelliannau mewn Saesneg a Mathemateg yn CA4 drwy PIXL;
- darparu hyfforddiant penodol ar gais ysgolion i arweinwyr canol cwricwlwm ac arweinwyr bugeiliol;
- cefnogi hyfforddiant unigryw i ysgolion ac adrannau targed i wella agweddau ar ddysgu ac addysgu, e.e. efo Tom Sherrington, Olevi ITP ac OTP.

Ar ben y gefnogaeth unigryw a ddarparwyd i ysgolion uwchradd yn y pynciau craidd, rhoddwyd arweiniad rhanbarthol a lleol drwy'r rhwydweithiau a'r fforymau pynciol. Dyma rai o'r meysydd allweddol gafodd sylw:


- Saesneg: Cefnogaeth astudio Safon Uwch, Hyfforddiant Darllen Carlam, datblygu llythrennedd ar draws y cwricwlwm, gwella llafaredd i gefnogi ysgrifennu, gwella tracio ac ymyrraeth yn CA4, gwella safonau ysgrifennu yn CA4, arweiniad ar ddarpariaeth MAT mewn Saesneg, datblygu adnoddau e.e. *Adnodd 'Fix-it' i gefnogi'r gwaith atgyweirio sydd ei angen i roi sylw i sgiliau gwan, Pecynnau Meistroli i CA4, Cynllun Gwaith Gothic efo pwyslais ar ramadeg i Flwyddyn 7*
- Mathemateg: arweiniad ar arweinyddiaeth a diweddariadau ar y cwricwlwm newydd, rhannu'r arferion gorau o *Whiterose Maths Academies* ar ddatblygu addysgeg yn eu clwstwr o ysgolion, datblygu addysgeg adrannol drwy 'ddyfnhau'r meddwl', datblygu addysgeg Safon Uwch, cefnogi gwaith cydweithio rhwng cydlynwyr rhifedd i adnabod yr arferion gorau o ran datblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm, datblygu arweinyddiaeth cydlynwyr rhifedd sydd yn eu dwy flynedd gyntaf yn y swydd, datblygu dealltwriaeth o'r newidiadau yn y profion Rhifedd Gweithdrefnol.
- Gwyddoniaeth: rhagori mewn Gwyddoniaeth TGAU - rhannu'r arferion gorau, rhannu strategaethau ymyrraeth llwyddiannus yn CA4, datblygu llythrennedd gwyddonol - ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth gan Brifysgol Bangor, datblygu strategaethau i ennyn diddordeb dysgwyr mewn Gwyddoniaeth, gweithio gydag ysgolion i ddatblygu gwybodaeth wyddonol a chefnogi disgyblion wrth iddynt ddysgu am gysyniadau gwyddonol, datblygu sgiliau darllen mewn Gwyddoniaeth, rhannu 'strategaethau sut i ddysgu' ac arferion galw i gof, datblygu sgiliau darllen a deall geiriau gorchymyn a dwy haen, datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r manylebau TGAU.

**Symud Ymlaen**

Rydym yn cydnabod bod pob ysgol ar gontinwwm gwella. Mae rhai yn eu dyddiau cynnar ac yn datblygu, mae eraill yn datblygu ac yn cryfhau tra bod ein hysgolion cryfaf yn fwy annibynnol a grymus.

Yn aml, gofynnir i'r Gwasanaeth blethu llu o fetrigau gwella ysgol mewn un diffiniad. Er hynny, mae hi'r un mor bwysig darlunio'r daith nid yn unig y 'ciplun' o ble mae'r ysgol arni ar y daith honno.

Bwriad y diagram canlynol, gan DfE yn Lloegr, yw diffinio'r camau ar hyd taith ysgol, ac mae'n dechrau diffinio taith wella ysgol:




Teimlwn fod y math hwn o ddiagram yn adnodd mwy defnyddiol wrth i ni fod yn trafod lefel a natur ofynnol y gefnogaeth efo ysgolion. O'i weithredu, gall fod yn strategaeth effeithiol hefyd i weld lle mae ysgolion arni ar ddechrau unrhyw duedd 'at i lawr', felly ni fyddai angen iddynt gael eu hadnabod fel ''*ysgolion sy'n achosi pryder.'*

Credwn hefyd y dylai gwaith cefnogi ac ymgysylltu â chymheiriaid fod wrth wraidd gwella ysgol. Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru am system werthuso, gwella ac atebolrwydd yn un sy'n deg, yn gydlynol, yn gymesur, yn dryloyw ac yn seiliedig ar werthoedd cyffredin ar gyfer addysg yng Nghymru. Mae Cenhadaeth ein Cenedl yn ein hymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid allweddol eraill, i sefydlu trefniadau newydd ar gyfer arfarnu a gwella, a hynny ar bob lefel. Bydd angen i'r trefniadau hyn fod yn ddigon cadarn a chryf i sicrhau'r gwelliannau a fynnir mewn ysgolion, ac yn arbennig felly yn y sector uwchradd. O fewn y trefniadau hyn, mae disgwyliad clir i ysgolion ddatblygu nid yn unig y capasiti a'r sgiliau i herio eu hunain yn effeithiol, ond hefyd y gallu i weithio ar y cyd ac yn systematig mewn model gwella ysgolion yn seiliedig ar ymgysylltiad cymheiriaid proffesiynol.

Mae GwE a'r chwe awdurdod lleol rhanbarthol wedi cynnal proses ymgynghori â Phenaethiaid ar yr amrywiol agweddau ar *y Daith Ddiwygio Genedlaethol* . O ran datblygu fframwaith rhanbarthol ar gyfer cefnogi ac ymgysylltu â chymheiriaid, awgrymodd y penaethiaid yr egwyddorion hyn:

- dylid mabwysiadu dull gweithredu adolygu gan gymheiriaid yn rhanbarthol er mwyn gyrru cynnydd ymhellach tuag at system hunan wella;
- ni ddylid datblygu'r model adolygu gan gymheiriaid hwn i gyflwyno *system o 'ffug arolygiadau'* ;
- dylai rhanddeiliaid weithio gyda'i gilydd yn effeithiol er sicrhau ein bod yn creu'r amodau priodol ar gyfer adolygu gan gymheiriaid sy'n effeithiol;
- dylem gytuno ar set ranbarthol o egwyddorion ac iaith dechnegol ar gyfer ein model, a'u harfer;
- dylem gytuno ar ffiniau'r fframwaith, fydd yn rhoi hyblygrwydd i ysgolion weithredu ystod o fodelau;
- dylai ysgolion gael rhyddid a hyblygrwydd i ddethol eu cymheiriaid;
- dylai'r model gynnwys ymgysylltu â chymheiriaid ar bob lefel mewn ysgol;
- dylai'r model hybu ymddiriedaeth, gonestrwydd, tryloywder a ffydd broffesiynol;
- dylai ymgysylltu fod yn broses gefnogol a chynaliadwy, yn hytrach nag un digwyddiad beichus, un-tro;
- dylai'r model gefnogi symud diwylliannol tuag at berchenogaeth ar y cyd

Mae Steve Munby a Michael Fullen (2016) yn eu papur '*Inside-out and downside-up*' yn amlinellau y 'ffactorau llwyddiant hanfodol ar gyfer cydweithrediad effeithiol ysgolion ar draws y system gyfan:

- mae'n rhaid mai pwrpas y cydweithredu yw gwella deilliannau;
- mae'n rhaid i'r bartneriaeth fod yn seiliedig ar bwrpas moesol eglur a rennir;
- mae tryloywder, ymddiriedaeth a gonestrwydd yn hanfodol;
- mae ymrwymiad i, a chapasiti ar gyfer, adolygu effeithiol gan gymheiriaid yn creu'r peiriant sy'n llywio gwelliant;
- mae angen cynnal adolygiadau gan gymheiriaid fel rhan o berthynas hirdymor ac ymrwymiad i wella arferion a systemau yn gyson drwy gylchoedd ymholi ar y cyd;
- mae'n rhaid bod gan y bartneriaeth gynllun i ddatblygu o gydweithrediad i gyfrifoldeb ar y cyd i rannu atebolrwydd proffesiynol;
- dylai'r bartneriaeth fynd y tu hwnt i arweinwyr ysgolion ac ymgysylltu â disgyblion, athrawon, teuluoedd a chymunedau;
- mae partneriaethau'n croesawu gwaith craffu a chefnogaeth gan bartneriaethau eraill fel eu cyfraniad at system leol, ranbarthol a chenedlaethol gysylltiedig.

Credwn yn gryf y dylai gwaith ymgysylltu â chymheiriaid fod yn sail i gylch trylwyr o welliant parhaus, a chynnwys:

- ***Hunan-adolygiad***: dylai adolygu effeithiol gan gymheiriaid ddechrau efo pa mor dda mae'r ysgol yn adnabod ei hun, a chael ei harwain gan yr ysgol sy'n cael ei hadolygu. Dylai'r adnodd hunan arfarnu cenedlaethol a ddatblygwyd gan Estyn/OECD a'r proffesiwn chwarae rhan allweddol yn yr agwedd hon. Dylai hunan arfarnu ganolbwyntio ar y dysgwr, eu cyflawniadau, eu cynnydd a'u profiadau yn yr ysgol, a chanolbwyntio ar ddysgu ac addysgu, arweinyddiaeth, datblygu diwylliant o ddysgu, lles disgyblion a staff, cydraddoldeb a chynhwysiant. Wrth symud ymlaen, dylai hunan arfarnu hefyd ganolbwyntio ar bedwar diben y cwricwlwm newydd ac arfarnu cynnydd yr ysgol tuag at gyflawni'r cwricwlwm newydd. Dylai prosesau hunan arfarnu'r ysgol adael i'r ysgol adnabod cryfderau a blaenoriaethau gwella. Dylai hefyd nodi agweddau ar eu taith wella ble mae angen cymorth gan gymheiriaid i gefnogi gwelliant.

- ***Adolygiad gan gymheiriaid***: mae ffocws cyffredin i'r adolygiadau cymheiriaid mwyaf effeithiol. Rhaid mai pwrpas y cydweithio yw gwella deilliannau a dylai unrhyw ffocws cyffredin fod yn seiliedig ar dystiolaeth gref o'r hyn sydd angen i wella, a pha ddeilliannau fyddai'n elwa'r ysgol fwyaf. Mae adolygwyr cymheiriaid sy'n gweithio fel tîm, neu driawd, yn gweithio orau ble gallant driongli tystiolaeth a dadansoddi eu canfyddiadau ar y cyd. Nid ydynt yno i farnu, ond yn hytrach chwilio am dystiolaeth a chytuno ar ganfyddiadau i'w rhannu efo'r ysgol. Mae'n hanfodol nad yw'r broses adolygu gan gymheiriaid yn dod yn *system o 'ffug arolygiadau'* [11]. Mae'n rhaid i'r bartneriaeth fod yn seiliedig ar bwrpas moesol eglur a rennir, ble mae tryloywder, ymddiriedaeth a gonestrwydd yn allweddol ac yn greiddiol i'r broses. Dylai'r adolygu gan gymheiriaid hefyd roi cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol, a chynnwys arweinwyr ar bob lefel.

- ***Cymorth Ysgol i Ysgol*** : os yw'r adolygu gan gymheiriaid am fod yn gyfrwng ar gyfer gwelliant parhaus mewn systemau ysgolion, yna rhaid iddo fynd ymhellach na'r adolygiad eu hun, a chynnwys cymorth ysgol i ysgol neu gymorth clwstwr. Ble mai'r staff sy'n berchen ar y deilliannau, bydd yr effaith hirdymor a'r effaith gynaliadwy, yn fwy. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu cynhwysedd a gwella gwydnwch o fewn system sy'n hunan wella. Dylai'r bartneriaeth fynd y tu hwnt i arweinwyr ysgolion ac ymgysylltu â disgyblion, athrawon, teuluoedd a chymunedau.

Mae GwE a'r chwe awdurdod lleol rhanbarthol wrthi'n gweithio gydag ysgolion i sefydlu model rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu â chymheiriaid, sy'n llawn adlewyrchu'r egwyddorion a'r gwerthoedd a nodwyd gan Benaethiaid, ac sydd hefyd yn dysgu o arferion da yn genedlaethol a thu hwnt. Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn ganolog wrth i ni hwyluso a datblygu'r model hwn.

Mae hyn yn cyfleu ein dull gweithredu o fewn agwedd 'atebolrwydd' y daith ddiwygio. Mae'n manylu ar sut y gellir defnyddio gwaith ymgysylltu â chymheiriaid i fod yn sylfaen i gylch trylwyr o ddatblygiad a gwelliant parhaus. Credwn y dylai ymgysylltu â chymheiriaid fod yn rhan ganolog o wella ysgol wrth symud tuag at system hunan wella, tra hefyd yn cynnal yr ysgolion hynny sy'n achosi pryder.

## 2. SAFONAU

### TROSOLWG O BERFFORMIAD YM MHOB AWDURDOD LLEOL

Adroddiad naratif ar gyfer pob ALl i'w fewnosod, sy'n cynnwys y canlynol:

Arfarnu perfformiad a chwestiynau sy'n codi:

- Y Cyfnod Sylfaen
- Cyfnod Allweddol 2
- Cyfnod Allweddol 3
- Cyfnod Allweddol 4
- Cyfnod Allweddol 5

Proffil Estyn yr ALl

Proffil Categoreiddio yr ALl

Trefniadau monitro yr ALl ar gyfer craffu ar berfformiad ysgolion unigol

Prif feysydd ar gyfer gwelliant yr ALl i'w cynnwys mewn Cynlluniau Busnes Lefel 2

Gweler Atodiad 1 am adroddiad ALl unigol

## PROFFIL AROLYGIADAU YSGOLION ESTYN

Mae'r proffil arolygiadau ar draws y rhanbarth yn gryf, ar y cyfan.

Cyfuno arolygiadau ysgolion    Medi 2017 - Gorffennaf 2019

| Blwyddyn | Rhanbarth | Nifer a arolygwyd | Dim dilyniant | | Adolygu gan Estyn | | Gwelliant Sylweddol | | Mesurau Arbennig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | % | # | % | # | % | # | % | # |
| 17/18 | GwE | 69 | 82.6 | 57 | 14.5 | 10 | 1.4 | 1 | 1.4 | 1 |
| 17/18 | Cymru | 237 | 75.1 | 178 | 17.3 | 41 | 4.6 | 11 | 3.0 | 7 |
| 18/19 | GwE | 64 | 79.7 | 51 | 17.2 | 11 | 1.6 | 1 | 1.6 | 1 |
| 18/19 | Cymru | 227 | 75.8 | 172 | 19.8 | 45 | 1.8 | 4 | 2.6 | 6 |

Y farn yn yr holl ysgolion 2018-19

| | Safonau | | Llesiant | | Addysgu | | Cymorth | | Arweinyddiaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | GwE | Cymru | GwE | Cymru | GwE | Cymru | GwE | Cymru | GwE | Cymru |
| Rhagorol | 18.8 | 11.5 | 25.0 | 19.8 | 17.2 | 11.9 | 23.4 | 18.9 | 28.1 | 17.2 |
| Da | 62.5 | 65.2 | 67.2 | 67.4 | 62.5 | 62.1 | 71.9 | 70.9 | 51.6 | 58.6 |
| Digonol | 15.6 | 21.1 | 7.8 | 12.3 | 20.3 | 24.2 | 4.7 | 8.4 | 18.8 | 20.7 |
| Anfoddhaol | 3.1 | 2.2 | 0.0 | 0.4 | 0.0 | 1.8 | 0.0 | 1.8 | 1.6 | 3.6 |

Arolygiadau Ysgolion Cynradd   Medi 2017 - Gorffennaf 2019

| Blwyddyn | Rhanbarth | Nifer a arolygwyd | Dim dilyniant | | Adolygu gan Estyn | | Gwelliant Sylweddol | | Mesurau Arbennig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | % | # | % | # | % | # | % | # |
| 17/18 | GwE | 59 | 86.4 | 51 | 11.9 | 7 | 1.7 | 1 | 0.0 | 0 |
| 17/18 | Cymru | 200 | 80.5 | 161 | 14.5 | 29 | 3.5 | 7 | 1.5 | 3 |
| 18/19 | GwE | 54 | 88.9 | 48 | 11.1 | 6 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 |
| 18/19 | Cymru | 188 | 80.9 | 152 | 16.5 | 31 | 0.5 | 1 | 2.1 | 4 |

Arolygiadau Ysgolion Uwchradd/Pob Oedran Medi 2017 - Gorffennaf 2019

| Blwyddyn | Rhanbarth | Nifer a arolygwyd | Dim dilyniant | | Adolygu gan Estyn | | Gwelliant Sylweddol | | Mesurau Arbennig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | % | # | % | # | % | # | % | # |
| 17/18 | GwE | 7 | 57.1 | 4 | 28.6 | 2 | 0.0 | 0 | 14.3 | 1 |
| 17/18 | Cymru | 30 | 50.0 | 15 | 33.3 | 10 | 10.0 | 3 | 6.7 | 2 |
| 18/19 | GwE | 8 | 12.5 | 1 | 62.5 | 5 | 12.5 | 1 | 12.5 | 1 |
| 18/19 | Cymru | 32 | 43.8 | 14 | 40.6 | 13 | 9.4 | 3 | 6.3 | 2 |

Arolygiadau Ysgolion Arbennig/UCD   Medi 2017 - Gorffennaf 2019

| Blwyddyn | Rhanbarth | Nifer a arolygwyd | Dim dilyniant | | Adolygu gan Estyn | | Gwelliant Sylweddol | | Mesurau Arbennig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | % | # | % | # | % | # | % | # |
| 17/18 | GwE | 3 | 66.7 | 2 | 33.3 | 1 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 |
| 17/18 | Cymru | 7 | 28.6 | 2 | 28.6 | 2 | 14.3 | 1 | 28.6 | 2 |
| 18/19 | GwE | 2 | 100.0 | 2 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 |
| 18/19 | Cymru | 7 | 85.7 | 6 | 14.3 | 1 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 |

Y farn mewn ysgolion Cynradd 2018-19

| | Safonau | | Llesiant | | Addysgu | | Cymorth | | Arweinyddiaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | GwE | Cymru | GwE | Cymru | GwE | Cymru | GwE | Cymru | GwE | Cymru |
| Rhagorol | 20.4 | 10.1 | 27.8 | 19.1 | 18.5 | 11.2 | 25.9 | 17.6 | 31.5 | 17.6 |
| Da | 70.4 | 71.3 | 68.5 | 72.3 | 72.2 | 66.5 | 72.2 | 76.1 | 57.4 | 63.3 |
| Digonol | 9.3 | 18.1 | 3.7 | 8.5 | 9.3 | 21.3 | 1.9 | 4.8 | 11.1 | 16.5 |
| Anfoddhaol | 0.0 | 0.5 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 1.1 | 0.0 | 1.6 | 0.0 | 2.7 |

**Cynradd** - O'r 54 o ysgolion cynradd a arolygwyd yn 2018/19, barnwyd nad oedd angen dilyniant ar 48 (88.9%) o gymharu â 86.4% yn 2017/18 sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 80.9%. Roedd ar 6 ysgol (11.1%) angen gweithgarwch dilynol o gymharu â 13.6% yn 2017-18. Dyfarnwyd y categori dilyniant lleiaf dwys i bob un, sef Adolygu gan Estyn. Ar hyn o bryd, mae 8 ysgol mewn categori dilyniant a dim ond 1 ysgol sydd mewn Categori Statudol (gwelliant sylweddol) ar hyn o bryd. Cynyddodd canran yr ysgolion yn cael barn ragorol yn sylweddol, o 13.2% yn 2017/18 i 24.8% yn 2018/19.

**Uwchradd** - o'r 8 ysgol a arolygwyd, nid oedd angen unrhyw ddilyniant mewn un, barnwyd bod 5 yn y categori dilyniant lleiaf dwys [adolygu gan Estyn] tra gosodwyd dwy mewn mesurau arbennig [un GS a'r llall MA]. Roedd y ddwy ysgol hyn eisoes wedi'u hadnabod fel 'risg uchel' yn ein proffil. Barnwyd bod 5 ysgol yn Dda ym maes arolygu 2 [lles ac agweddau at ddysgu] tra barnwyd bod 6 ysgol yn Dda ym maes arolygu 4 [gofal, cymorth ac arweiniad]. Barnwyd bod un ysgol yn 'anfoddhaol' ym maes arolygu 5 [arweinyddiaeth]. Ni ddyfarnwyd 'rhagorol' i'r un ysgol yn unrhyw un o'r meysydd arolygu.

Yn ôl proffil presennol y rhanbarth, gwelir bod 6 ysgol uwchradd mewn categori statudol. Mae gan bob ysgol CGOA cyfansawdd ac mae Estyn wedi cadarnhau cynllun cymorth yr ALl. Ar hyn o bryd, gwelir bod pob ysgol yn gwneud cynnydd cyson tuag at y rhan fwyaf o'u hargymhellion. Mae pob ysgol hefyd yn cael ymweliadau monitro yn rheolaidd, a rhoddir gwybod i swyddogion yr awdurdod lleol perthnasol o'r cynnydd a wneir, ac fe dynnir eu sylw at unrhyw bryderon sy'n codi. Mae 7 arall mewn categori dilyniant Adolygu gan Estyn efo disgwyliad clir y tynnir 3 o'r ysgolion o'r categori erbyn diwedd mis Tachwedd.


**Arbennig - Proffil cryf ar draws y meysydd arolygu, gydag un ysgol a arolygwyd yn 2018/19 yn 'dda' ym mhob maes arolygu ac ni chafodd ei gosod mewn categori dilyniant.** Erys un ysgol mewn categori dilyniant Adolygu gan Estyn.


## CATEGOREIDDIO CENEDLAETHOL

**Pob ysgol**

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd C a D yng Ngham 2 wedi parhau i ostwng, o 14.6% yn 16/17, 11.6% yn 17/18 i 8.0% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel D wedi gostwng, o 2.4% yn 17/18 i 1.5% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd A wedi codi, o 27.5% yn 16/17, 34.0% yn 17/18 i 41.7% yn 18/19.


Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 eto wedi gostwng, o 18.8% yn 16/17, 14.9% yn 17/18 i 9.2% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn goch wedi gostwng, o 3.1% yn 17/18 i 1.9% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn wyrdd wedi parhau i godi, o 19.7% yn 16/17 i 36.4% yn 18/19.




**Cynradd**
Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd C a D yng Ngham 2 wedi parhau i ostwng, o 11.0% yn 16/17, 8.0% yn 17/18 i 5.4% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel D wedi gostwng, o 1.4% yn 16/17 i 0% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd A wedi codi'n sylweddol, o 28.2% yn 16/17, 35.5% yn 17/18 i 44.1% yn 18/19.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 eto wedi gostwng, o 15.2% yn 16/17, 11.6% yn 17/18 i 6.6% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn goch wedi gostwng, o 1.7% yn 17/18 i 0.0% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn wyrdd wedi codi'n sylweddol, o 20.2% yn 16/17, 30.7% yn 17/18 i 38.1% yn 18/19.








**Uwchradd**

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd C a D yng Ngham 2 wedi gostwng, o 36.4% yn 16/17, 35.2% yn 17/18 i 24.1% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel D wedi aros yn eithaf cyson, 9.1% yn 16/17 (5 ysgol), 11.1% (6 ysgol) yn 17/18 a 11.1% (6 ysgol) yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd A wedi codi, o 21.8% yn 16/17 i 24.1% yn 18/19.


Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 wedi gostwng, o 37.0% yn 17/18 i 25.9% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn goch wedi codi fymryn, o 13.0% yn 17/18 (7 ysgol) i 14.8% yn 18/19 (8 ysgol). Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn wyrdd wedi codi'n sylweddol, o 13.0% (7 ysgol) yn 17/18 i 24.1% (13 ysgol) yn 18/19.




**Arbennig**
Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd C a D yng Ngham 2 yr un fath, 11.1% (1 ysgol) ar ôl gostwng o 22.2% (2 ysgol) yn 2016-17. Ni chafodd yr un ysgol arbennig ei chategoreiddio fel Gradd D yn 17/18 nac yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd A wedi parhau i godi, o 33.3% (3 ysgol) yn 16/17 i 44.4% (4 ysgol) yn 17/18 i 55.6% (5 ysgol) yn 18/19.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 yr un fath, ar 11.1%, ar ôl gostwng o 22.2% (2 ysgol) yn 16/17. Ni chafodd yr un ysgol arbennig ei chategoreiddio yn goch yn 17/18 nac yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn wyrdd yr un fath, ar 44.4% (4 ysgol), ar ôl codi o 33.3% (3 ysgol) yn 16/17.



## 3. CWESTIYNAU SY'N DOD I'R AMLWG I HELPU'R CYD-BWYLLGOR, SWYDDOGION ALL A PHWYLLGORAU CRAFFU I ARFARNU CYNNYDD, SAFONAU A PHERFFORMIAD DISGYBLION.

### Asesiadau Athro

- Pam y mae deilliannau'r Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3 yn ymddangos yn is yn y ddwy flynedd ddiwethaf?
- Pam y mae proffil rhanbarthol ESTYN a gweithgarwch casglu gwybodaeth GwE yn gwrth-ddweud deilliannau sy'n gostwng yn y Cyfnod Sylfaen?
- Pa mor effeithiol y dadansoddir ac yr adroddir am gynnydd a data gwerth ychwanegol er mwyn cryfhau perfformiad a gwella safonau?
- I ba raddau mae ysgolion yn olrhain asesu yn rymus, a hynny ar gyfer dysgwyr o bob oedran?
- Sut y mae ysgolion yn defnyddio data asesu gwaelodlin i dargedu a chynllunio ymyrraeth?
- A yw dysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr yn cael eu hadnabod yn gywir a'u cefnogi'n effeithiol?
- A yw ysgolion wedi datblygu trefniadau hunan arfarnu effeithiol sydd yn mynd y tu hwnt i ddata perfformiad diwedd cyfnod allweddol er mwyn adnabod yr hyn maen nhw'n wneud yn dda a'r hyn sydd angen newid?
- Pa gamau gweithredu y mae arweinwyr yn rhoi sylw iddynt gyda dosbarthiadau sy'n tanberfformio yn barhaus?
- Pa mor gadarn yw gweithdrefnau safoni mewnol a chymedroli clwstwr mewn ysgolion?
- Pa brosesau monitro sydd ar waith i sicrhau bod ysgolion yn gosod targedau priodol?
- A yw ysgolion yn sicrhau cwricwlwm eang a chytbwys, ac nid â'u holl fryd ar set gul o bynciau a meysydd dysgu?
  Pa ddata ysgol ellir ei ddefnyddio at ddibenion hunan arfarnu Awdurdod Lleol a sut gellir cyflwyno hwn?

### Cyfnod Allweddol 4

- I ba raddau mae pob ysgol yn croesawu'r newid cenedlaethol mewn cyfeiriad ac ymddygiad er mwyn datblygu i'r eithaf berfformiad disgyblion unigol ar draws yr ystod gallu? A oes gan arweinwyr ysgolion weledigaeth glir o ran beth i'w newid a pham?
- A yw pob ysgol wedi datblygu trefniadau hunan arfarnu effeithiol sydd yn mynd y tu hwnt i ddata perfformiad arholiadau er mwyn adnabod yr hyn maen nhw'n wneud yn dda a'r sydd angen newid?
- Pa mor briodol y gweithredir cwricwlwm ysgolion ar draws y rhanbarth? A yw pob ysgol wedi arfarnu'n rymus effaith a chyfraniad pynciau di-graidd unigol yn y mesur C9 diwygiedig? A gefnogir hyn gan arweinwyr yn defnyddio diweddariadau bwletin Llywodraeth Cymru yn effeithiol ac yn amserol?
- A yw prosesau atebolrwydd a SA mewnol presennol yn ddigon cadarn i sicrhau perfformiad cyson gan ddisgyblion unigol yn eu dewisiadau h.y. a yw arweinwyr yn mynd i'r afael ag Amrywiad mewn Ysgol yn effeithiol?
- Pa gamau gweithredu y mae arweinwyr yn rhoi sylw iddynt gydag adrannau sy'n perfformio'n well na chyfartaled yr ysgol a chyda'r rhai hynny sy'n tanberfformio?
- I ba raddau mae tystiolaeth bod adrannau unigol yn dadansoddi'r data a rennir gan CBAC ar berfformiad pynciol?
- I ba raddau mae staff adrannol, yn yr holl bynciau, yn deall y pwysoliad asesu ar gyfer pob manyleb? Sut y mae hyn yn cael effaith effeithiol ar eu cynllunio a'u darpariaeth ac ar y ddealltwriaeth o raddio, dyfarnu ac adrodd ble bo'n berthnasol?

- I ba raddau mae adrannau yn defnyddio'n effeithiol adroddiad y Prif Arholwr, sy'n nodi cryfderau a gwendidau mewn perfformiad?
- Mae gan lawer o ysgolion athrawon sy'n marcio papurau arholiad CBAC. I ba raddau y defnyddir eu harbenigedd yn llawn mewn ac ar draws ysgolion?
- Pam y mae perfformiad mewn Saesneg wedi gostwng yn sylweddol mewn nifer o adrannau ble bu perfformiad cryf yn hanesyddol?
- Pam y mae amrywiad mewn nifer o ysgolion rhanbarthol rhwng perfformiad mathemateg a mathemateg-rhifedd?
- Pa mor dda y mae'r strategaethau 14-19 lleol presennol yn sicrhau y defnyddir cyllid yn effeithiol i gyflwyno profiadau a chymwysterau priodol i grwpiau o ddisgyblion sydd wedi'u targedu, ac i ba raddau maen nhw'n cyfrannu at y mesurau interim diwygiedig ym mhob awdurdod lleol?
- A ydym ni'n hyderus bod y newid cenedlaethol mewn cyfeiriad wedi cael digon o effaith ar y ddarpariaeth leol ar gyfer disgyblion gaiff addysg heblaw yn yr ysgol? (EOTAS). I ba raddau mae eu perfformiad yn 2019 wedi cael effaith ar ddeilliannau awdurdod lleol?
- A ydym ni'n hyderus bod y newid cenedlaethol mewn cyfeiriad wedi cael digon o effaith ar y ddarpariaeth leol ar gyfer Ysgolion Arbennig (145 o ddisgyblion ym Mlwyddyn 11) ac Unedau? I ba raddau mae eu perfformiad yn 2019 wedi cael effaith ar ddeilliannau awdurdod lleol?
- Mae 247 o ddisgyblion EOTAS Blwyddyn 11 yn y rhanbarth - trwy eu grwpio gyda'i gilydd mae hon yn garfan fwy na'r un sydd gennym mewn unrhyw ysgol. I ba raddau mae arweinwyr a staff mewn UauCD yn cael eu cefnogi a'u sgilio i nodi'n glir sut i ddatblygu i'r eithaf berfformiad disgyblion unigol ar draws y mesurau perfformiad diwygiedig?

## 4. BLAENORIAETHAU CYNLLUN BUSNES 2019-20

Mae'r prif feysydd i'w datblygu, a nodwyd yn yr adroddiad hunanarfarnu yn flaenoriaethau yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2019-2020.

Cymeradwyodd y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor ein hamcanion strategol a'n blaenoriaethau ar gyfer 2019-20. Mae chwe adran i'r Cynllun Busnes, ac mae'n cyd-fynd ag 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl'. Nodir yn glir cyfraniad y gwasanaeth at yr agenda gweddnewid.

Mae'r Cynllun Busnes yn cysylltu â chynlluniau gwasanaeth manylach, efo targedau mesuradwy ar gyfer gwelliant a meini prawf llwyddiant pendant er mwyn gallu mesur cynnydd y rhanbarth yn union. Adroddir ar y cynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes bob chwarter, yn unol â'r Fframwaith Atebolrwydd (Atodiad 3).

Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r Arweinwyr Craidd. Ym mhob cynllun, nodir yn fanwl y materion allweddol o fewn yr awdurdod lleol, ynghyd â chynllun gwella unigryw i roi sylw i'r heriau penodol. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei adolygu'n gyson.

Dyma ein hamcanion strategol ar gyfer 2019-20:

1: **Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel:**

- Sicrhau bod pob athro a staff cymorth wedi'u harfogi â dealltwriaeth glir o beth yw addysgu effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ddibynadwy. Yn ogystal, mae'n hollbwysig cyflwyno ystod o ddulliau, sy'n cyfateb anghenion dysgwyr â'r cyd-destun yn effeithiol, er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar ddysgu a chyflawniad.

2: **Arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau:**

- Sicrhau bod gan bob arweinydd weledigaeth addysgol glir ac yn medru cynllunio'n strategol er mwyn cyflawni hyn. Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel er mwyn ysbrydoli, hyfforddi, cefnogi, rhannu arfer a chydweithio er sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial. Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth ddosbarthol yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.

**3: Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles:**

- Creu'r amodau i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu fel unigolion iach, gwydn a chyfrifol yn fyd-eang a darparu system addysgol gynhwysol, uchelgeisiol, sy'n ymroddedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb fel bod pobl ifanc yn cyflawni eu llawn potensial.

**4: Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella system sy'n hunan wella:**

- Sicrhau bod gan bob ysgol brosesau asesu grymus a gweithdrefnau targedu, olrhain ac ymyrraeth cadarn ar waith. Sicrhau bod gan arweinwyr ac athrawon y sgiliau, y gallu a'r ymrwymiad i ddysgu yn barhaus ac i wella eu harfer fel bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial.

**5: Cwricwlwm sy'n Gweddnewid**

- Sicrhau bod pob ysgol yn cyflwyno cwricwlwm diddorol sy'n ymateb i ofynion statudol y cwricwlwm cenedlaethol. Sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei gefnogi i gyflawni cymwysterau sy'n ei alluogi i fod yn ddysgwr galluog, uchelgeisiol sy'n cyrraedd ei botensial.

**6: Busnes**

- Sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.

Dyma ein prif flaenoriaethau gwella ar gyfer 2019-20:

**1: Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel:**

1.1 Cefnogi ysgolion i wella perfformiad yn y sector uwchradd
1.2 Cymraeg 2050 – Miliwn o siaradwyr
1.3 Cefnogi Prifysgol Bangor a Chaer i ddatblygu darpariaeth AGA o safon uchel

**2: Arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau:**

2.1 Darparu rhaglenni datblygu ar draws y gweithlu i sicrhau arweinyddiaeth o safon uchel
2.2 Cefnogi ysgolion uwchradd i wella perfformiad arweinyddiaeth ganol
2.3 Datblygu model ymgysylltu â chymheiriaid efo ysgolion i sicrhau bod hunan arfarnu a chynllunio gwelliant yn gadarn ar bob lefel

**3: Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles:**

3.1 Cefnogi strategaeth dysgwyr bregus
3.2 Datblygu ymhellach y strategaeth PMG
3.3 Gweithio efo ALI ac ysgolion i baratoi ar gyfer trawsnewid Anghenion Dysgu Arbennig yn y ffordd orau

**4: Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system sy'n hunan wella:**

Cefnogi ysgolion i wella perfformiad yn y sector uwchradd
4.1 Datblygu systemau olrhain ac asesu
4.2 Datblygu atebolrwydd a systemau rheoli
4.3 Datblygu ymhellach trefniadau atebolrwydd a phrosesau ar gyfer hunan hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant cadarn

**5: Cwricwlwm sy'n gweddnewid:**

5.1 Paratoi cwricwlwm sy'n gweddnewid
5.2 Gwella ansawdd yr addysgu, gan ystyried y 12 egwyddor addysgegol **(**Dyfodol Llwyddiannus**)**

**6: Busnes:**

6.1 Cynnal adolygiad o'r gyllideb a'r gweithlu.

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**27 TACHWEDD 2019**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| **Testun:** | Adnoddau a Chwmpas GwE |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1. Mae'r adroddiad yn amlinellu adnoddau a chwmpas presennol y gwasanaeth rhanbarthol.

**2.0 Cefndir**

2.1 Sefydlwyd Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru ym mis Ebrill 2013.

2.2 Yn sgil sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru ym mis Ebrill 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddogfen Ganllawiau yn amlinellu Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol (Chwefror 2014).

2.3 Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru sy'n dal y cyfrifoldeb statudol am effeithiolrwydd a safonau ysgolion.

2.4 Bu i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo cynllun gweithredu'r targed arbedion effeithlonrwydd yn y cyfarfod diwethaf, felly gweithredwyd toriad o £206,485 yn y gyllideb am eleni.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Hyd yma, nid yw GwE wedi cael syniad o be ddaw yn y flwyddyn ariannol nesaf, er mwyn modelu'r effaith posibl.

3.2 Amlinella'r adroddiad gwmpas gwaith y gyllideb graidd ar lefel ysgol ac ALl.

3.3. Y brif genhadaeth a'r pwrpas yw cefnogi ysgolion i wella drwy:

- ddarparu her a chymorth i ysgolion wella deilliannau dysgwyr
- cydlynu a hwyluso datblygiad proffesiynol y gweithlu
- gwella'r gallu i arwain er mwyn datblygu system sy'n hunan wella.

3.4 Hefyd yn yr adroddiad, amlinellir gofynion Llywodraeth Cymru i gyflawni ac adrodd yn erbyn eu blaenoriaethau a'u systemau grant.

**4.0 Argymhelliad**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

4.2 Penderfynu a oes unrhyw agweddau ar yr adroddiad y dymunant eu trafod ymhellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**5.0 Goblygiadau Ariannol/Risgiau**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Trafodwyd yr adroddiad efo Bwrdd Rheoli GwE a Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yma yn rhoi cyfle priodol i'r Cyd-Bwyllgor gymryd trosolwg o sefyllfa GwE yng nghyd destun y sefyllfa ariannol gyfredol. Mae yn gydnaws a'i ròl yn goruchwylio gwaith y gwasanaeth.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Cadarnhaf gywirdeb y ffeithiau / ffigyrau ariannol sy'n paragraff 2.4 o'r adroddiad blaen ac yn rhan gyntaf yr atodiad. Nodaf o'r atodiad manwl yr ystod eang iawn o raglenni a gweithgareddau mae GwE yn gyfrifol amdano. Wrth gwrs, byddai'n fwy buddiol pe bai'r Llywodraeth yn dyrannu'r arian

heb amodau'r holl grantiau penodol, gyda mwy o hyblygrwydd a grym i ni flaenoriaethu'r holl adnoddau o fewn y rhanbarth.

**Adnoddau a Chyfraniadau GwE**

Mae GwE wedi mynd ati i weithredu cyfanswm toriad o £206,485 yn y gyllideb eleni, ac wedi adrodd ar y gyllideb sydd wedi'i mantoli o ganlyniad, i'r Cyd-Bwyllgor ym mis Medi.

Hyd yma, nid ydym wedi cael syniad o be ddaw yn y flwyddyn ariannol nesaf, er mwyn modelu'r effaith posibl. Bu'r toriadau mae GwE wedi'u gweithredu i gyd yn y sector cynradd, ac ar lefel uwch arweinyddiaeth. Yn y flwyddyn academaidd hon, rydym wedi lleihau'r tîm cynradd o 1.4 CALl, a heb lenwi'r swydd Cyfarwyddwr Cynorthwyol.

Parheir i roi blaenoriaeth i'r sector uwchradd, ac mae angen gwneud cryn waith eto ar draws yr AauLl. Mae deubeth sylweddol sy'n rhoi pwysau ar ein hadnoddau, sef:

- Arolygiadau Awdurdod Lleol - 47 diwrnod i bob arolygiad; a
- Taith Ddiwygio LlC a'r angen cynyddol i fod yn micro reoli gwariant grant ac adrodd ar effaith.

Isod, nodir cwmpas gwaith y gyllideb graidd ar lefel ysgol ac ALl, yna ceir tabl sy'n dangos gofynion Llywodraeth Cymru i ddarparu ac adrodd yn erbyn eu ffrydiau grant.

**RHAGLENNI A GWEITHGAREDDAU GWELLA YSGOLION**

Prif ddiben a phwrpas ydy i gefnogi y gwaith o wella ysgolion trwy:

- ddarparu cymorth a her i ysgolion i wella deilliannau i ddysgwyr
- gyd-lynu a hwyluso datblygiad proffesiynol y gweithlu dysgu
- gynyddu cynhwysedd arweinyddiaeth i ddatblygu cyfundrefn sy'n 'hunan wella'

**Cydweithio gydag ysgolion:**

Pob ysgol hefo Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Cyswllt.

Gwirio a dilysu ansawdd dogfennau strategol ysgolion a chefnogi ble mae angen gwelliannau.

Cefnogi gweithgareddau craffu, arsylwi ac arfarnu mewn ysgolion a chynorthwyo i ddilysu barnau.

Cefnogi y gwaith o adnabod prif flaenoriaethau gweithredu a'r camau penodol i'w cymryd i yrru gwelliannau.

Arweiniad a chefnogaeth cyn ac ôl arolwg i ysgolion.

Paratoi a diwallu '*Cynllun Cymorth*' penodol ar gyfer pob ysgol uwchradd.

Darparu mynediad i offerynnau asesu a thracio cynnydd ac i raglenni ymyrraeth.

Darparu mynediad i system rheoli gwybodaeth G6.

Darparu arweiniad a chefnogaeth ar y daith ddiwygio genedlaethol.

Darparu arweiniad a chymorth i ymateb i ofynion Cwricwlwm i Gymru.

Hwyluso a chefnogi prosiectau braenaru Ymgysylltu Cymheiriaid.

Darparu rhaglenni datblygiad proffesiynol sy'n cynnig llwybr dysgu ym maes arweinyddiaeth:

- rhaglenni datblygu arweinwyr canol
- rhaglen darpar arweinwyr
- rhaglen arweinwyr ôl-16

- rhaglen darpar benaethiaid
- rhaglen datblygu penaethiaid profiadol
- rhaglen '*rhagoriaeth ac arloesedd'* i benaethiaid
- rhaglen arweinwyr ysgolion bach a ffederal
- CPCP

Darparu rhaglenni datblygiad proffesiynol sy'n cynnig llwybr dysgu i Gymorthyddion Dysgu:
- rhaglen sefydlu
- rhaglen i rai mwy profiadol mewn swydd
- rhaglen i arweinwyr Cymorthyddion Dysgu
- rhaglen Uwch Gymorthyddion Dysgu

Darparu hyfforddiant ymsefydlu i athrawon newydd [ANG] .

Trefnu a chydlynu rhwydweithiau i gefnogi arweinwyr mewn ysgolion:
- Rhwydwaith Dirprwyon Uwchradd
- Rhwydwaith Cydlynwyr Cwricwlaidd
- Rhwydwaith Cydlynwyr MAT
- Rhwydwaith Arweinwyr 16+
- Rhwydwaith Bynciol 16+
- Rhwydwaith y Gymraeg [CA3/CA4/CA5]
- Rhwydwaith Saesneg [CA3/CA4/CA5]
- Rhwydwaith Mathemateg [CA3/CA4/CA5]
- Rhwydwaith Gwyddoniaeth [CA3/CA4/CA5]
- Rhwydwaith Cydlynwyr Llythrennedd a Rhifedd

Darparu rhaglenni hyfforddiant ar agweddau penodol o waith yn y Cyfnod Sylfaen a CA2.

Darparu rhaglenni hyfforddiant ar agweddau pynciol yn CA3, CA4 a CA5.

Darparu cefnogaeth benodol i Benaethiaid Adran newydd yn y pynciau craidd.

Darparu mynediad i raglenni penodol er mwyn gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu ee OLEVI ITP ac OTP.

Arwain prosiect ymchwil gweithredol rhanbarthol gyda Shirley Clarke i wella dysgu ac addysgu.

Darparu deunyddiau cefnogi dysgu ac addysgu a chefnogi ysgolion i'w defnyddio yn briodol.

Cydweithio gydag adrannau ac unigolion i gyd-gynllunio, cyd-gyflwyno a modelu arfer dda.

Darparu mynediad i raglenni cefnogi ym maes llesiant:
- Maethu
- Delio gydag anawsterau ymlyniad a thrawma mewn addysg
- Therapi siarad a thynnu llun
- Galar a phrofedigaeth
- Datgelu i ysgolion

Cefnogi clystyrau cydweithio cynradd/uwchradd.

Cefnogi gwaith safoni a chymedroli CA2/CA3.

Rhaeadru gwybodaeth a hwyluso mynediad i arfer dda.

Cyfrannu at ddyddiau hyfforddiant clwstwr/sirol yn ôl y gofyn.

**Cydweithio gyda'r Awdurdod:**

Pob Awdurdod hefo Arweinydd Craidd cyswllt.

Paratoi dadansoddiadau blynyddol o berfformiad ysgolion.

Cynnal ymweliadau monitro i bob ysgol ar sail risg ac adrodd ar ganfyddiadau.

Categoreiddio ysgolion yn unol â gofynion y model cenedlaethol.

Paratoi adroddiadau cyn arolwg yr Awdurdod pan gaiff ysgol ei harolygu.

Cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar gynnydd i uwch swyddogion yr Awdurdod a mynychu cyfarfodydd misol y Bwrdd Ansawdd Safonau.

Paratoi adroddiadau a mynychu cyfarfodydd sgrwtini/craffu yr Awdurdod.

Cyfrannu at adroddiad blynyddol y Pennaeth Addysg.

Cyfrannu at raglenni hyfforddi llywodraethwyr yr Awdurdod.

Paratoi tystiolaeth berthnasol a mynychu cyfarfodydd tymhorol yr Awdurdod hefo Estyn.

Cyfrannu at baratoadau'r Awdurdod ar gyfer arolwg.

Cyfrannu at brosesau apwyntio uwch arweinwyr mewn ysgolion [ac arweinwyr canol yn ôl y gofyn].

Cynrychioli'r Awdurdod yng nghyfarfodydd Rheoli Perfformiad Penaethiaid.

Mynychu cyfarfodydd strategol yr Awdurdod ar gyfer Penaethiaid i gynnig arweiniad a chefnogaeth ar feysydd ac agweddau penodol

Cydweithio gyda'r Awdurdodau i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg.

## GRANTIAU LLYWODRAETH CYMRU 2019-2020

Bydd GwE yn gweinyddu ac yn darparu'r grantiau addysg rhanbarthol gan LC. Yn ystod 2019/20, dyfarnwyd y grantiau hyn i'r rhanbarth:

| Enw'r Grant | Gofynion |
|---|---|
| **Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol** | |
| Ysgolion Arloesi Digidol a Chwricwlwm | Mae'r cyllid yn mynd tuag at gynnwys ysgolion Arloesi Digidol a Chwricwlwm. |
| Helpu i Gynllunio a Datblygu'r cwricwlwm newydd | Mae'r Cyllid yn helpu i baratoi ysgolion arloesi a phob ysgol a chonsortiwm i weithio gyda'r cwricwlwm newydd o 2022, gan sicrhau bod pob ysgol yn cael profiad o'r cwricwlwm ac o'r trefniadau asesu ac yn rhan o'r broses ddatblygu.<br><br>Erbyn 30 Medi 2019, fel amod ar gyfer yr elfen hon o'r Cyllid, mae'n ofynnol sicrhau bod ysgolion wedi gwneud cynnydd o ran eu paratoadau. Mae hyn yn cynnwys, yn benodol, sicrhau bod canran o'r ysgolion yn y rhanbarth wedi elwa ar fuddsoddiad uniongyrchol ychwanegol i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. |
| Asesu ar gyfer Dysgu | Rhaid defnyddio'r cyllid hwn is<br>• gyflwyno'r Rhaglen Hyfforddiant Cenedlaethol; a<br>• datblygu ymhellach y Rhaglen Hyfforddiant Cenedlaethol i Asesu ar gyfer Dysgu. |

| | |
|---|---|
| | Y canlyniad a fwriedir yw gwella arfer yn yr ystafell ddosbarth gydag arferion asesu ar gyfer dysgu wedi'u gwreiddio'n gyson mewn addysgeg sy'n arwain at welliannau yng nghyrhaeddiad dysgwyr. Rydych yn cytuno a'n harweinydd polisi i adrodd ar wybodaeth am weithgareddau a gefnogir gan y cyllid ac unrhyw dystiolaeth o effaith. |
| Y Gymraeg gan gynnwys y Siarter Iaith (ysgolion cyfrwng Cymraeg) | Mae'r Cyllid yn cefnogi paratoi'r gweithlu i gyflwyno dull gweithredu gweddnewidiol o ran dysgu, addysgu ac asesu'r Gymraeg a rhoi'r *Cynllun Gweithredu: Cymraeg mewn Addysg* ar waith. Byddwch yn cytuno ynghylch gofynion y Cyllid o ran disgwyliadau polisi'r Gymraeg o fewn 6 wythnos i ddyfarnu'r Cyllid. Byddwch yn dod i gytundeb gyda'n harweinydd polisi ynghylch sut y byddwch yn darparu tystiolaeth o werth am arian a thystiolaeth o'r angen lleol a'r ffordd y caiff hwnnw ei ddiwallu, ar sail cynllunio strategol rhanbarthol. |
| Cynnwys ysgolion nad ydynt yn rhai arloesi yn niwygiadau'r cwricwlwm | Cyllid ar gyfer cynnwys ysgolion nad ydynt yn rhai arloesi yn niwygiadau'r cwricwlwm |
| leithoedd Tramor Modern – (Dyfodol Byd-eang) | Cyllid ar gyfer yr ysgol/ion arweiniol (uwchradd) ym mhob consortiwm addysg i gydweithio ag ysgolion sy'n bartneriaid i wella addysgu leithoedd Tramor Modern ac adeiladu capasiti. Cefnogaeth i ysgolion arweiniol gydweithio gyda Sefydliadau laith, Sefydliadau Addysg Uwch (gan gynnwys Y Brifysgol Agored) i ddarparu cyfleoedd ar gyfer dysgu ac addysgu ieithoedd. |
| Cymorth efo Profion Rhifedd Cenedlaethol | Gweinyddu'r Profion Cenedlaethol ar ran LlC |
| Grant Llythrennedd a Rhifedd | Cyllid i barhau i roi cymorth uniongyrchol ar gyfer llythrennedd a rhifedd er mwyn cefnogi mwy o welliant yn 2019-20, fel rhan o system hunanwella. Mae hyn yn ychwanegol at y cyllid a ddarperir drwy'r Grant Gwella Addysg. |
| Ysgolion Arloesi Dysgu Proffesiynol | Mae'r cyllid yn mynd tuag at gynnwys ysgolion Arloesi Dysgu Proffesiynol |
| DPP Dysgu yn y Cymru Ddigidol (LiDW) – Cam ll DPP | Rhaid defnyddio'r cyllid i gynyddu mewn ffordd fesuradwy y defnydd cyffredinol o blatfform Hwb a'r adnoddau cysylltiedig gan ysgolion yn eich ardal bob blwyddyn. Byddwch yn cytuno harweinydd polisi ar y gofynion o fewn 6 wvthnos i ddyfarnu'r Cyllid. |
| Sgiliau Codio a Digidol | Cefnogi datblygu sgiliau codio pobl ifanc yng Nghymru, ac addysgu sgiliau codio tu mewn i'r dosbarth, a thu allan. |
| Cynllun Llafaredd FfLlRh Cynradd i Gymru | Darperir cymorth yn rhanbarthol ar gyfer llafaredd i:<br>• Fod yn seiliedig ar bedwar diben y cwricwlwm, a chanolbwyntio ar y dulliau addysgegol a amlinellir yn Dyfodol Llwyddiannus.<br>• Cryfhau'r gweithio rhwng ysgol i ysgol (gan gynnwys lleoliadau nas cynhelir a ariennir) a dulliau dysgu proffesiynol mewn perthynas â llafaredd fel bod modd cynyddu cynhwysedd mewn ysgolion a lleoliadau.<br>• Fod yn seiliedig ar ddisgwyliadau'r FfLlRh a'r llinyn llafaredd sy'n ceisio helpu athrawon i gorffori llythrennedd a rhifedd ym mhob pwnc, gyda'r disgwyliad y bydd pob dysgwr fod yn hyfedr mewn llafaredd ar draws y cwricwlwm.<br>• Fod yn seiliedig ar ddulliau sydd â sail tystiolaeth ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen o ganoli ar y plentyn, o gael y plentyn i arwain, o fod yn ymarferol, yn arbrofol a dysgu sgiliau, ac yn unol ag addysgeg Dyfodol Llwyddiannus. |

| | |
|---|---|
| | • Cyd-fynd â darpariaeth a gyllidir gan y GDD, ac yn seiliedig ar ddulliau a wyddys sy'n cefnogi pob dysgwr.<br>• Plethu efo'r Model Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol, a'i rannu efo'r pedair rhanbarth er mwyn hwyluso'r darparu ar y cyd, a datblygu dull gweithredu cenedlaethol o fynd i'r afael â llafaredd.<br>• Cael ei fonitro yn erbyn deilliannau. |
| Cymorthyddion Addysgu Lefel Uwch (CALU) | Cyflwyno'r rhaglen CALU. |
| Safonau addysgu proffesiynol | Cefnogi gwaith cyflwyno'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth, a datblygu'r safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu (i staff cefnogi dysgu mewn ysgolion). |
| Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg (NNEST) | Cefnogi gwaith dysgu ac addysgu gwyddoniaeth a thechnoleg mewn ysgolion drwy gyfrwng Rhwydwaith Rhagoriaeth. Byddir yn cynnal digwyddiadau i ysgolion, gweithdai i athrawon, datblygu tudalen y Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg ar Hwb, a chomisiynu Ymchwil penodol. |
| Rhwydwaith Y Cyfnod Sylfaen | Datblygu a gweithredu Rhwydwaith Rhagoriaeth y Cyfnod Sylfaen (FPEN) er mwyn cynnal gwelliannau yn y modd y cyflwynir cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys rhannu arferion effeithiol a dysgu proffesiynol i wella'r modd y cyflwynir cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. |
| Cymraeg - datblygiad proffesiynol - cyllid consortia (cyfuno rhai llinellau) | Rhaid defnyddio’r cyllid i weithredu i gynnal rhaglen ddysgu broffesiynol i ddatblygu sgiliau Cymraeg ymarferwyr a methodoleg effeithiol ar gyfer addysgu dwyieithog a drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Cymhwysedd Digidol - Y Cynnig Dysgu Proffesiynol (CDP) | Bydd y Consortia yn cefnogi gwaith datblygu'r dull Dysgu Proffesiynol drwy gefnogi, casglu sylwadau a phrofi ac addasu'r dull datblygu. |
| Gwella Safon Uwch | Rhaid i gyllid gael ei ddefnyddio i roi cymorth i wella dysgu ac addysgu Safon Uwch a’r Fagloriaeth Gymraeg ôl-16. Bydd Llywodraeth Cymru yn penodi secondai i gydweithio ag ysgolion a chonsortia rhanbarthol i ddatblygu cynllun cenedlaethol er mwyn cefnogi’r gwaith hwn yn y tymor hir. |
| Cyflenwi Athrawon/Gweithlu Addysg (HAGA) a Chynlluniau Peilot Partneriaeth AGA | Rhaid defnyddio'r Cyllid yn y ffyrdd canlynol:<br>• Rhaid i ranbarthau weithio ar y cyd i sicrhau bod £200,000 ar gael drwy Gymru - £33,000 i bob prifysgol (Caban o ranbarth GWE, Aberystwyth, Y Drindod ac Abertawe o ERW, Prifysgol Metropolitan Caerdydd o Gonsortia Canol De Cymru a Phrifysgol De Cymru o EAS)<br>• Bydd y rhan berthnasol o'r llythyr dyfarnu grant yn cael ei anfon at USCET a Phenaethiaid TGCh yn y Prifysgolion |
| AGA rhan-amser ac AGA seiliedig ar waith | Rhaid defnyddio'r cyllid hwn i ryddhau unigolyn o'i ddyletswyddau dydd i ddydd am 2 ddiwrnod yr wythnos i gydweithio Brifysgol Agored i ddatblygu a gweithredu'r llwybrau AGA amgen newydd Mae'r llwybrau newydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Consortia, mewn partneriaeth Brifysgol Agored, y Consortia eraill ysgolion sicrhau: eu bod yn bodloni'r gofynion achredu, eu bod yn recriwtio ymgeiswyr o ansawdd uchel a bod y llwybrau newydd yn cael eu gweithredu'n gryf i fodloni'r weledigaeth o gael darpariaeth ar draws Cymru. |
| Ieithoedd Tramor Modern - Adeiladu Capasiti yn y Sector Cynradd | Darpariaeth i adeiladu capasiti er mwyn addysgu ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion cynradd er mwyn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae hyn i gynnwys y swm a ddyrannir i Brosiect y Brifysgol Agored, sef dysgu i Addysgu Ieithoedd mewn Ysgolion Cynradd'. |

| | |
|---|---|
| Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol | Fel rhan o'r cyllid hwn, rydym yn disgwyl i chi ddarparu cefnogaeth ar gyfer cymhwysedd digidol ar sail eich anghenion rhanbarthol. Y nod yw ymgorffori'r FfCD ymhellach ar draws y cwricwlwm |
| Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru | Disgwylir i'r Consortia hwyluso gwaith beirniadu Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru drwy roi cymorth ar ddatblygu'r gwobrau a chyngor arbenigol mewn perthynas â'r enwebiadau. . |
| Cyllid Clwstwr DP - Ysgolion nad ydynt yn rhai arloesi | Dyfernir cyllid i gymell ymholiadau dysgu proffesiynol efo partneriaid clwstwr. I |
| Cyllid Clwstwr DP - Ysgolion Arloesi | Cyllid i gefnogi gwaith ymgysylltu. |
| Cefnogi gwaith cydweithredol a helpu i ddatblygu cynhwysedd yn y consortia | Gwaith i ymestyn hyd a lled, ac effaith, gwaith cydweithredol a datblygu cynhwysedd yn y consortia. |
| Arweinyddiaeth y Dyfodol (Darpar, arweinwyr canol gan gynnwys mentora a hyfforddi) | • Datblygu penaethiaid y genhedlaeth nesaf a gofalu eu bod nhw'n cael eu cefnogi a'u paratoi'n dda ar gyfer rôl hollbwysig prifathrawiaeth; yn cael rhaglen datblygiad proffesiynol barhaus i'w cynnal nhw yn eu swydd;<br>• Datblygu ymhellach sgiliau, arbenigedd a gwybodaeth arweinwyr llwyddiannus y rhanbarth fel y gallant arwain yn ehangach ar draws y system wrth i ni symud tuag at system dan arweiniad ysgolion, a modelau trefniadaeth ysgol newydd fel ffederasiynau;<br>• Darparu datblygiad cydlynol ar hyd y llwybr dysgu proffesiynol o AGA hyd at benaethiaid gweithredol, gan gynnwys datblygu hyfforddi a mentora;<br>• Bydd y llwybr arweinyddiaeth yn helpu i sicrhau y caiff pob ymarferydd fynediad at gyfleoedd datblygu drwy gydol eu gyrfa |
| Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro (Rhaglen Fentora a Rhwydweithio i Benaethiaid) | Darparu'r Rhaglen i Benaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro. |
| Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) | Darparu CPCP i gefnogi'r Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth a Chenhadaeth ein Cenedl. Maent ill dau yn agweddau allweddol ar y cynllun gweithredu sy'n arfogi Cymru ag arweinwyr ysbrydoledig all gydweithio, ac sydd wedi ymrwymo i godi safonau a lleihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad. Felly, mae'n hanfodol bwysig bod y genhedlaeth nesaf o brifathrawon yn cael eu datblygu a'u cefnogi i fod yn barod am heriau prifathrawiaeth, a gwreiddio rôl penaethiaid i fod yn arweinwyr newid yn ein cyfundrefn.<br>Yn rhan o'r cyllid hwn, bydd disgwyl i chi:<br>• gynnal y trothwy ansawdd fel mai dim ond ymgeiswyr sydd â thebygolrwydd uchel o gwblhau'n llwyddiannus a mynd ymlaen i swydd pennaeth ymhen dwy flynedd (gan gymryd bod un ar gael) sy'n cael eu derbyn ar y rhaglen;<br>• ystyried unrhyw bwysau ac anghenion (fel yr angen am benaethiaid cyfrwng Cymraeg) wrth ystyried ymgeiswyr a blaenoriaethu'n briodol a<br>• sicrhau cysondeb gweithredu ar draws y rhanbarthau, ac yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Arweinyddiaeth. |
| Meithrin gallu mewn arweinyddiaeth | Mae'r cyllid wedi'i warchod ar gyfer secondiad aelod staff i weithio'n genedlaethol ar raglenni Cenedlaethol a chefnogi'r Academi. |
| Gwaith i ymestyn hyd a lled, ac effaith, gwaith cydweithredol gan gynnwys drwy gyfrwng ffederasiwn | Gweithredu i gynnwys gweithio fel consortia i sicrhau bod pob ysgol yn mynd ati i weithio mewn partneriaeth, gan gynnwys fel ffederasiynau ffurfiol, efo ysgolion eraill a phartneriaid ehangach, er budd rhannu arferion gorau, adnoddau ac arbenigedd. |
| Ymchwil ac Arfarnu Cydweithredol, yn cefnogi arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws rhanbarthau | Gweithredu i gefnogi dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i godi safonau.<br>Bydd y cyllid yn cynyddu'r capasiti i gynnal gwaith ymchwil ac arfarnu o fewn o Consortiwm, mewn cysylltiad â Sefydliadau Addysg Uwch. |
| Datblygu Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu - cyllid maen prawf 3. | Cyllid i ddarparu cymorth ac ymroddiad o ran datblygu ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu. |
| Arwain Prosiect Dysgu Cydweithredol | Bydd hyn yn edrych ar ddulliau newydd o fynd ati i ddysgu, addysgu ac arwain sydd ymhlyg yn ymrwymiad ysgolion i Genhadaeth Ein Cenedl, yn enwedig ar lefel uwchradd, ac yn arbennig mewn perthynas â'r newidiadau a ddaw yn sgil y cwricwlwm newydd. Bydd y prosiect yn golygu gweithio gyda Dr Lyn Sharratt, |

| | |
|---|---|
| | awdur 'CLARITY: What Matters MOST in Learning, Teaching, and Leading', a fydd yn sylfaen i'r dysgu proffesiynol yn y prosiect. Bydd Prifysgol Abertawe yn arfarnu'r prosiect, a disgwylir i'r rhanbarthau a'r ysgolion perthnasol weithio gyda'r Brifysgol yn gyson. |
| Hwyluso gwaith Arfarnu'r Safonau Proffesiynol | Arfarnir (yn annibynnol) effaith y safonau proffesiynol ar athrawon, arweinwyr a staff ategol o fis Hydref 2019 i fis Gorffennaf 2022. Yn rhan o'r gwaith hwn, bydd ymchwilwyr yn gweithio gyda rhanddeiliaid gan gynnwys llywodraethwyr, mentoriaid, ymgynghorwyr her, tiwtoriaid AGA a chyrff priodol i sefydlu. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid i'r consortia i gydnabod y gwaith ychwanegol a ddaw o weithio gyda'r ymchwilydd i adnabod unigolion sy'n fodlon cymryd rhan yn yr arfarnu. |
| Prosiect E-Ddysgu | Wrth ddod yn nes at gyhoeddi dogfennau terfynol y cwricwlwm, mae risgiau sylweddol o gael negeseuon cymysg ar draws y system, cyngor anghyson ar agweddau allweddol ar y diwygio, a tharfu oherwydd y dryswch o ran sut i symud ymlaen. Mae elfen hon y cyllid yn cefnogi rhaglen DP gyffredin sy'n cyd-fynd â Thaith Ddysgu Broffesiynol sy'n edrych ar ddatblygu'r cwricwlwm yn gynyddol gyda chymorth adnoddau cyffredin i'w defnyddio gan y rhanbarthau ac ysgolion. Hefyd, system ddarparu (Hwb) fel bod modd i ymarferwyr nad oes ganddynt fynediad 'byw' at DP i gael yr wybodaeth yn ddigidol. Pwrpas y cyllid yw cefnogi rhwydwaith e-adnoddau cenedlaethol i ysgolion gasglu adnoddau dysgu digidol yn eu lleoliad eu hunain, ac awduro e-adnoddau dysgu proffesiynol newydd ar draws y daith ddysgu broffesiynol. Bydd angen i'r adnoddau fod yn hylaw mewn amrywiaeth o fformatau i wahanol gynulleidfaoedd, o uwch arweinwyr hyd at gymorthyddion dysgu. |
| Cyngor/cefnogaeth polisi allanol tîm polisi PECT 16-19 | Mae'r grant hwn ar gyfer diogelu cymorth gan bum pennaeth uwchradd, neu benaethiaid chweched dosbarth, y mae'r Consortia Rhanbarthol wedi'u hadnabod i weithio mewn rôl ymgynghorol am ddiwrnod yr wythnos yn ystod y tymor, o fis Medi 2019 hyd at fis Mawrth 2020, ac adolygu cynnydd ym mis Chwefror 2020. Eu rôl nhw fydd helpu i gyfrannu at wneud polisïau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer y Bil Ymchwil Addysg Drydyddol newydd. |
| CALU: Datblygu'r Llwybr Dysgu i Gymorthyddion Dysgu (LlDCD) | Mae Cenhadaeth ein Cenedl yn addo datblygu proffesiwn addysg o safon uchel. Roedd cyflawni'r amcan hwnnw yn cynnwys y safonau proffesiynol newydd ar gyfer cynorthwyo addysgu, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019 i'w defnyddio mewn ysgolion o fis Medi 2019. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Rhanbarthau i roi modd i gymorthyddion dysgu wella'u sgiliau, ymroi i ddysgu proffesiynol a hwyluso llwybrau cliriach tuag at rôl cymhorthydd addysgu lefel uwch (CALU).<br>Bwriedir y taliad un-tro hwn i'r Rhanbarthau ar gyfer cefnogi datblygiad y llwybr CALU, ac yn benodol y gwaith sydd ei angen i sicrhau bod y llwybr dysgu yn cyd-fynd â'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer cynorthwyo addysgu. |
| Cynhadledd Ryngwladol | Mae'r cyllid hwn yn cefnogi'r gynhadledd ryngwladol a gynhelir gan gonsortiwm GwE. |
| Rheolwr Achredu SAU | Un rheolwr llawn amser ym mhob rhanbarth i reoli'r cyflwyno |
| **Grant Gwella Addysg (gan gynnwys y Cyfnod Sylfaen)** | **Y Cyfnod Sylfaen**<br>Rhaid defnyddio'r cyllid i gefnogi'r gymhareb staff i ddysgwr yn y Cyfnod Sylfaen, er mwyn cyflwyno cwricwlwm Cyfnod Sylfaen o ansawdd uchel ac effeithiol (gan gynnwys talu am lanw ar gyfer absenoldebau eraill ar wahân i ddibenion hyfforddi) gan weithio tuag at neu gyflawni cymhareb y Cyfnod Sylfaen o 1:8 ar gyfer plant 3 i 5 oed, ac 1:15 i blant 5 i 6 oed. Rhaid defnyddio'r cyllid hefyd i gefnogi ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau nas cynhelir, er mwyn cyflwyno darpariaeth addysg o safon uchel.<br>Rhaid i chi, a'r consortiwm, allu cadarnhau bod eich fformiwla ddosbarthu ar gyfer y Cyllid yn cefnogi ysgolion a lleoliadau i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn unol â'r cymarebau.<br><br>**Cefnogi Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg**<br>Rhaid defnyddio'r cyllid i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdodau lleol, er mwyn gweithio tuag at amcanion Strategaeth Cymraeg 2050. |

| | |
|---|---|
| | **Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant a Chynlluniau Datblygu Ysgol**<br>Bydd Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn cynnig cefnogaeth a her i ysgolion er mwyn sicrhau bod eu cynlluniau datblygu ysgol yn adlewyrchiad priodol o'u taith tuag at welliant a blaenoriaethau lleol. |
| **Grant Datblygu Disgyblion** | O fis Ebrill 2019, dyrennir y GDD i gefnogi:<br>• dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac a addysgir mewn ysgolion a gynhelir;<br>• dysgwyr sydd â chofrestriad sengl mewn uned cyfeirio disgyblion (UCD) ac mewn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS);<br>• dysgwyr cymwys mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ble darperir y Cyfnod Sylfaen<br>• Plant mewn Gofal (PMG), a phlant a arferai dderbyn gofal sydd wedi'u mabwysiadu o ofal, neu rai 3-15 oed sy'n destun gwarchodaeth arbennig neu orchymyn preswyliad<br><br>Dylid defnyddio arian y GDD i:<br>• ddatblygu staff addysgu a staff cymorth i fod yn defnyddio arferion megis metawybyddiaeth, meddylfryd o dwf ac adborth o ansawdd, sef arferion yr ystyrir ar hyn o bryd fel y rhai mwyaf effeithiol i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig.<br>• ymyrryd yn gynnar i fynd i'r afael â gwendidau, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd. Mae hyn yn berthnasol i'r blynyddoedd cynnar, yn ogystal â phan fo disgyblion yn dechrau yn yr ysgol uwchradd, ac ar unrhyw adeg pan welir bod gwendid.<br>• Sicrhau y targedir mwy o adnoddau yng nghyfnod allweddol 3, yn y dosbarth ac mewn gweithgareddau cyfoethogi, a chodi dyheadau, tra cydnabyddir pwysigrwydd Blwyddyn 11 i bob dysgwr. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn disgwyl i ysgolion uwchradd gyflawni targed uchelgeisiol o fuddsoddi 60% o'r GDD mewn dysgwyr CA3, yn unol ag egwyddorion ymyrryd ac atal yn gynnar.<br>• adnabod ble a phryd mae angen cefnogaeth gan ddefnyddio systemau diagnostig ac olrhain, a sut mae hyn yn edrych.<br>Rydym yn gofyn i chi nodi sut y byddwch yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod y GDD yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i wella deilliannau i ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYD) mewn ysgolion a gynhelir. Rydym eisiau gwybod yn neilltuol sut y byddwch yn sicrhau bod ysgolion yn:<br>• monitro ac arfarnu effaith y cyllid ;<br>• mabwysiadu dull tecach o gyllido i sicrhau y buddsoddir mwy yng Nghyfnod Allweddol 3;<br>• cael y gefnogaeth angenrheidiol i Benaethiaid allu adnabod, defnyddio ac arfarnu'r dulliau a ddewisir i sicrhau gwelliant effeithiol parhaus.<br><br>Gofynnwn i chi barhau i weithio gyda darparwyr y blynyddoedd cynnar a gynhelir a nas cynhelir, i sicrhau eu bod nhw'n defnyddio'r grant yn effeithiol, a'ch bod yn cryfhau eich cysylltiadau â'r lleoliadau nas cynhelir.<br>Gofynnwn i chi ystyried modelau clwstwr wrth benderfynu ar y defnydd mwyaf effeithiol o gyllid i wella deilliannau dysgwyr difreintiedig.<br>Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y daw ysgolion newydd i mewn wedi'r cyfnod casglu data. Disgwyliwn i chi barhau i reoli cyllid ysgolion sy'n cau; sy'n uno neu sy'n newydd, mewn ffordd strategol a bwriadol, yn yr un ffordd ag o'r blaen. Mae'r dyraniadau yn sefydlog am ddwy flynedd, a rhoddir isafswm taliad i gefnogi ysgolion heb ddysgwyr PYD yn 2016. Ni fyddai ysgolion sydd ag un dysgwr GDD yn y blynyddoedd cynnar, ac sy'n cael y cyllid cyfwerth (£700), yn gymwys i gael yr isafswm taliad. |

| | |
|---|---|
| | Bydd elfen PMG y GDD, sy'n cefnogi cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal, a grwpiau eraill cysylltiedig sydd ag anghenion tebyg, yn parhau i gael eu rheoli'n rhanbarthol gan y consortia. Fel hyn, bydd modd defnyddio'r grant yn strategol, a dylech ystyried sut y byddwch chi'n cynllunio, yn gosod targedau ac yn cefnogi dysgwyr sydd mewn gofal, wedi'u mabwysiadu ac â gorchymyn gofal, drwy ddefnyddio'r grant yn effeithiol.<br>Yn unol â chynllun addysg plant sy'n derbyn gofal Llywodraeth Cymru (Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal), dylid defnyddio'r GDD i dalu costau adnabod cydlynydd arweiniol a fydd yn cadw'r ffocws strategol ar blant sy'n derbyn gofal mewn addysg a sicrhau bod rhaglen waith gytûn a strategol yn cael ei darparu.<br>Dylai'r cydlynwyr arweiniol ym mhob consortiwm weithio gydag awdurdodau lleol ac ysgolion i adnabod a rhannu arferion da drwy'r gymuned arferion ar lein. http://www.exchangewales.org/careandeducation.<br>Dylai ymgynghorwyr strategol GDD a chydlynwyr GDD-PMG ddarparu her gadarn ac adeiladol, a chefnogaeth o safon uchel, fel bod modd i benaethiaid a chyrff llywodraethu wella cyrhaeddiad dysgwyr difreintiedig. Drwy'r dull teg hwn, cryfheir trefniadau arweinyddiaeth rhanbarthol a sicrheir mwy o gysondeb yn genedlaethol o ran cefnogi dysgwyr PYD ar draws Cymru.<br>Dylai ymgynghorwyr strategol GDD a chydlynwyr GDD-PMG hwyluso dull gweithredu partneriaeth o safbwynt GDD, a gwella cyrhaeddiad dysgwyr difreintiedig ar draws y rhanbarth, cydweithio a chysondeb ar lefel genedlaethol.<br>Bydd ymgynghorwyr strategol GDD a chydlynwyr GDD-PMG yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'n Heiriolwr Codi Cyrhaeddiad, Sir Alasdair Macdonald, i gryfhau'r cydweithio ar draws Cymru a sicrhau bod arferion da yn cael eu rhannu a'u datblygu. Disgwylir iddynt gael adnabyddiaeth gref o bob lleoliad (gan gynnwys lleoliadau nas cynhelir) yn y rhanbarth, gan gynnwys dealltwriaeth o'r data cysylltiedig, er mwyn iddynt adnabod ysgolion y mae arnynt angen cymorth i wella ac adnabod yr arferion gorau er mwyn rhannu hyn yn rhanbarthol, ac yn genedlaethol.<br>Yr hyn fydd yn allweddol fydd datblygu rhwydweithiau drwy adnabod arweinwyr allweddol ym mhob ysgol, a ffurfio 'rhwydwaith arweinwyr' rhanbarthol i gefnogi a gyrru gwelliant.<br>Ymgynghorwyr strategol a chydlynwyr fydd y cyswllt i bob ysgol a lleoliad o safbwynt ymyraethau effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Disgwylir iddynt ddarparu cymorth ac arweiniad ychwanegol, gan roi cyngor ar:<br><br>• ymyraethau priodol ar sail y dystiolaeth ddiweddaraf;<br>• defnyddio dulliau ysgol gyfan;<br>• manteision olrhain;<br>• cefnogi gwaith arfarnu arferion presennol; a<br>• hwyluso rhwydweithiau cymorth rhanbarthol.<br><br>Gofynnir i'r Consortia gyflwyno Cynllun Cefnogi Grant Datblygu Disgyblion i Lywodraeth Cymru am gymeradwyaeth.<br>Bydd Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn cynnig cefnogaeth a her i ysgolion er mwyn sicrhau bod eu cynllun GDD yn addas, a sicrhau bod pob ysgol yn cyhoeddi'r cynllun GDD ar eu gwefan. |
| **Grant Dysgu Proffesiynol (dosberthir y cyllid trwy'r ALl)** | Disgwylir i'r cyllid hwn helpu ysgolion fodloni gofynion y dull newydd cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol, a rhoi modd i fuddsoddi yn elfennau'r model.<br>Prif bwrpas y cyllid yw creu amser mewn ysgolion i ymarferwyr wneud y newidiadau sydd angen eu gwneud yn eu harferion, cyn i'r cwricwlwm newydd gael ei weithredu. |

| | |
|---|---|
| | Dylid defnyddio'r cyllid i dargedu'r hyn y mae angen i athrawon a dysgwyr ddysgu, i'w paratoi am y cwricwlwm newydd.<br>Disgwyliad y cyllid yw bod pob ymarferydd yn cael y cyfle i ddysgu'n broffesiynol, gan ddefnyddio'r arian. Ni chaiff ei gadw'n unig at ddefnydd athrawon ac arweinwyr a dylid ei ddefnyddio, er enghraifft, i roi mynediad i gymorthyddion dysgu at ddysgu proffesiynol hefyd.<br><br>Dylai ysgolion gyhoeddi eu cynlluniau Dysgu Proffesiynol (naill ai ar lefel ysgol neu glwstwr) yn amlinellu sut y bwriadant gefnogi anghenion dysgu proffesiynol eu holl ymarferwyr yn eu hysgol, ac adrodd yn flynyddol yn erbyn y cynlluniau hynny (eto cyhoeddi adroddiad byr ar eu gwefan).<br><br>Dylai Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant y rhanbarthau weithio ochr yn ochr ag ysgolion i ystyried y cynlluniau, a chadarnhau bod y cynllun yn ateb y gofynion. |

**Pwrpas y Cyllid**
Pwrpas y cyllid yw cefnogi'r consortiwm rhanbarthol i gyflawni dyheadau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion ac addysg, a nodir o dan Uchelgeisiol a Dysgu yn ein strategaeth genedlaethol, Ffyniant i Bawb, a'n cynllun gweithredu ar gyfer addysg, *Cenhadaeth ein Cenedl.*

Rhaid defnyddio’r cyllid i helpu cyflawni blaenoriaethau addysg cenedlaethol LlC, ac wrth wraidd hynny y mae cwricwlwm gweddnewidiol a phwyslais ar bedwar amcan galluogi allweddol:

- Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel;
- Arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau;
- Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles;
- Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.

Cefnogir y deilliannau gan ystod o fesurau a dangosyddion perfformiad allweddol.

**Amodau a gofynion y cyllid**
Trefnir y cyllid o gwmpas yr amodau a'r gofynion hyn:

*Cynaliadwyedd a chanolbwyntio ar y dinesydd*
Rhaid i'r mentrau a gefnogir gan y grant fod yn gynaliadwy, rhaid iddynt ganolbwyntio ar y dysgwr, a rhaid iddynt fod yn unol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

*Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol*
Mae'r disgwyliadau a nodir yng nghanllawiau'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol yn parhau yr un fath a dylid parhau i'w dilyn. Caiff strwythurau llywodraethiant y model cenedlaethol eu defnyddio hefyd i fonitro cynnydd, gan gynnwys, lle bo'n briodol, fel tystiolaeth o ran y gofynion Cyllid

*Cydweithio rhwng consortia*
Yn unol a'r disgwyliadau yn y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, bydd y consortia yn gweithio gyda chonsortia rhanbarthol eraill ledled Cymru i sicrhau cymaint o gyfleoedd a phosibl i rannu arferion da a dysgu o ran holl amcanion *Cenhadaeth ein Cenedl* ac yn enwedig y rheini sydd wedi'u datblygu'n fwyaf diweddar, fel lles.

*Datblygu System hunanwella*

Lle bo'n briodol, bydd y consortia yn helpu ysgolion, darparwyr y Cyfnod Sylfaen ac Unedau Cyfeirio Disgyblion i ystyried modelau clwstwr, ac i gydweithredu ar draws pedwar rhanbarth y consortia wrth benderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio'r Cyllid i helpu i sicrhau gwell deilliannau i ddysgwyr.

*Dull gweithredu Teg*

Rhaid i chi a’ch consortiwm allu dangos tegwch ar draws y consortiwm a'i awdurdodau cysylltiedig wrth ddirprwyo'r Cyllid i ysgolion.

*Gwaith Clwstwr*
Lle bo'n briodol, caiff y consortia hwyluso trafodaethau ynghylch modelau clwstwr ar gyfer ysgolion, darparwyr y Cyfnod Sylfaen ac Unedau Cyfeirio Disgyblion, wrth benderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio'r cyllid i helpu i sicrhau gwell deilliannau i ddysgwyr.

*Gwerth am arian ac ychwanegu gwerth*
Bydd disgwyl ichi a'r consortiwm ddarparu tystiolaeth o werth ychwanegol y Cyllid, ei werth am arian a'i effaith. Mae hyn yn berthnasol i'r holl Gyllid a gynigir fel rhan o'r Dyfarniad hwn. Yn ogystal, mae disgwyl i chi ddarparu tystiolaeth o'r ffordd y mae elfennau'r cymorth a ddarperir o dan faniffesto Codi Safonau Ysgolion ac ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu yn benodol, o fewn y Dyfarniad hwn, yn ychwanegu gwerth ac yn cael effaith.

*Sicrhau cymaint o gyllid â phosibl i ysgolion*
Wrth gynllunio gweithgarwch ac amlinellu eich Cais a'ch proffil gwariant, mae'n ofynnol ichi ddarparu tystiolaeth o ymrwymiad clir i drosglwyddo'r rhan fwyaf o'r cyllid i ysgolion. Bydd angen i Lywodraeth Cymru gael sicrwydd ynghylch hyn fel rhan o'r Cais ac mewn diweddariadau chwarterol. Ar gyfer yr elfen Grant Gwella Addysg, rhaid dirprwyo o leiaf 80%.

*Lleihau costau gweinyddu a rheoli gymaint a phosibl*
Mae'r trefniadau grant yn helpu i leihau costau gweinyddol rheoli'r Cyllid. Byddwch yn dangos ymrwymiad i gadw lefel y gwariant yn isel wrth reoli a gweinyddu'r Cyllid, a byddwch yn darparu tystiolaeth o hynny. Gellir defnyddio'r Cyllid i helpu i reoli'r Grant Datblygu Disgyblion a gyda'i gostau gweinyddol.

**Gofynion Monitro:**

**Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol:**

- Darparu copi o gynllun busnes eich consortiwm a'r fframwaith deilliannau terfynol
- Cymryd rhan mewn sesiynau adolygu a herio bob tymor a chyflwyno adroddiad byr yn erbyn y fframwaith deilliannau cyn pob cyfarfod adolygu a herio tymhorol (dyddiadau i'w cadarnhau) i Reolwr y Prosiect, a fydd yn amlinellu tystiolaeth o'r gwariant, y gwerth am arian, cynnydd yn erbyn pob un o amcanion *Cenhadaeth ein Cenedl;*
- Darparu mynediad i bapurau i'w trafod yng nghyfarfodydd eich Cyd-bwyllgor neu eich Bwrdd Cwmni a'ch Bwrdd Cynghori fel y bo'n briodol drwy'r cynrychiolydd a enwebwyd yn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys adroddiadau hunanwerthuso a gwybodaeth reolaidd am gynnydd a wnaed yn erbyn eich cynllun busnes;
- Rhoi'r adroddiadau diweddaraf i’r Bwrdd Cyflawni fel bo'r angen; a
- unrhyw wybodaeth arall y bydd ei hangen yn rhesymol er mwyn deall effaith, gwerth am arian a chynnydd yn erbyn Dibenion y Cyllid, gan gynnwys fel y bo'n ofynnol gan y Gweinidog Addysg a Swyddfa Archwilio Cymru.
- cyfarfod a Swyddog Llywodraeth Cymru a pha bynnag rai eraill o'n cynrychiolwyr y gallwn yn rhesymol ofyn ichi eu cyfarfod o bryd i'w gilydd; a darparu gwybodaeth ategol ar gyfer y cyfarfodydd hynny fel bo'n rhesymol briodol, gan gynnwys, yn ddigyfyngiad:

i) cyfarfodydd rheolaidd rhwng Rheolwyr-Gyfarwyddwyr consortia a Chyfarwyddwr Addysg a Dirprwy Gyfarwyddwyr Llywodraeth Cymru pa mor aml i'w gytuno;
ii) unrhyw gyfarfod y gofynnir ichi ei gael gyda'r Cyfarwyddwr Addysg;
iii) mynd i sesiynau adolygu a herio bob tymor a'u cefnogi;
iv) cefnogi cyfleoedd i swyddogion Llywodraeth Cymru gwrdd ag arweinwyr gweithredol consortia;
v) darparu mynediad rhesymol pellach yn of y gofyn er mwyn monitro cynnydd yn erbyn y Dibenion.

- sicrhau bod y Rheolwr Prosiect (neu'r cyfryw berson arall y cytunwyd arno), ynghyd ag unrhyw un arall a nodir gennym, yn bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd gyda Swyddog Llywodraeth Cymru.

**Grant Datblygu Disgyblion:**

- Darparu dogfennau, gwybodaeth ac adroddiadau sy'n rhesymol i ni ofyn amdanynt o bryd i'w gilydd, er mwyn monitro cydymffurfio â'r Amodau gan gynnwys:

  i) Tystysgrif Dyraniad Awdurdod Lleol Arweiniol, wedi'i gwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2020, a

  ii) sicrhau yr adroddir ar gynnydd y grant hwn i Lywodraeth Cymru drwy'r drefn Her ac Adolygu. Adroddir ar gynnydd eithriadau hyd yma, yn unol â Chenhadaeth ein Cenedl: Addysg yng Nghymru, sy'n cynnwys:
    - gosod targedau heriol; a
    - monitro ac arfarnu effaith y cyllid, risgiau a materion.

  iii) Cyfarfod â Swyddog Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr eraill o bryd i'w gilydd, yn ôl y galw rhesymol: Yn benodol, cyfarfodydd ar y cyd pob hanner tymor, efo ymgynghorwyr strategol GDD y consortia a chydlynwyr PMG, a'r Eiriolwr Codi Cyrhaeddiad, i drafod sut y byddwch yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod y GDD yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i wella deilliannau i ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYD) neu blant sy'n derbyn gofal.

  iv) Rydym eisiau gwybod yn neilltuol sut y byddwch yn sicrhau bod ysgolion yn:
    - mabwysiadu dull tecach o gyllido i sicrhau y buddsoddir mwy yng Nghyfnod Allweddol 3;
    - parhau i weithio gyda darparwyr blynyddoedd cynnar a gynhelir a nas cynhelir i sicrhau eu bod nhw'n defnyddio'r grant yn effeithiol, a'ch bod yn cryfhau eich cysylltiadau â'r lleoliadau nas cynhelir.
    - rheoli a chynyddu effeithiolrwydd i ddysgwyr sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, ar draws y rhanbarth; a
    - rheoli a chynyddu effeithiolrwydd i blant sy'n derbyn gofal ar draws y rhanbarth.

  - Cyfarfod â Swyddog Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr eraill o bryd i'w gilydd, yn ôl y galw rhesymol;
  - sicrhau bod y Rheolwr Prosiect (neu unrhyw un arall y cytunwn ni arno) ynghyd ag unrhyw un arall sydd ei angen, yn mynd i bob cyfarfod efo Swyddog Llywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cydbwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 27 Tachwedd 2019 |
| **TEITL** | **Cyllideb GwE 2019/20 – Adolygiad 2il Chwarter** |
| **PWRPAS** | • Diweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2019/20.<br><br>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd. |

## 1. CASGLIAD

1.1 Mae'r adolygiad chwarter 2 yn amcangyfrif gorwariant net o £36,503 yn erbyn y gyllideb (sefyllfa tebygol derbyniol, lled-niwtral yng nghyd-destun cyfanswm gwariant gros dros £13m), yn bennaf oherwydd y targed arbedion sydd wedi'i ddarganfod gan y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn.

1.2 Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn chwarter 1, sef amcangyfrif gorwariant o £39,229.

1.3 Mae rhan ddilynol o'r adroddiad yn egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau.

## 2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 **Gweithwyr:**

**Chwarter 2: gorwariant £45,442** *Chwarter 1: tanwariant (£161,351)*.

Gorwariant o £45,442 yn dilyn penderfyniad y Cydbwyllgor (gweler adroddiad *'Targed Arbedion Effeithlonrwydd' i'r Cydbwyllgor 11/09/19)*, i addasu'r gyllideb i dynnu rôl un Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE yn ogystal â thynnu 1.4 cyfwerth llawn amser Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant.

Gweithredwyd y lleihad i'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant o'r 1af o Fedi 2019, ac felly bydd gorwariant un-tro yn 2019-20.

2.2 **Cludiant:**

**Chwarter 2: tanwariant (£7,697)** *Chwarter 1: tanwariant (£5,905)*.

Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 1. Mae tuedd costau teithio hanesyddol yn awgrymu bod y gwir gost flynyddol yn debygol o fod ychydig yn is na'r hyn sydd wedi ei sefydlu yn y gyllideb.

2.3 **Arbedion i'w darganfod**

**Chwarter 2 : Niwtral** *Chwarter 1 : Gorwariant £206,485*.

Yn chwarter 1 adroddwyd ar orwariant, gan nad oedd y Cydbwyllgor wedi penderfynu ar strategaeth barhaol i wireddu'r arbedion. Bellach mae'r strategaeth wedi ei gymeradwyo (gweler adroddiad *'Targed Arbedion Effeithlonrwydd' i'r Cydbwyllgor 11/09/19).*

2.4 **Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol (GGYCR)**

**Chwarter 2 : Niwtral** *Chwarter 1 : Niwtral*.

Mae'r GGYCR yn cynnwys pennawd penodol ar gyfer secondiad y Cyfarwyddwr Cynorthwyol am gyfnod o flwyddyn. Gan fod y secondiad wedi dod i ben ar y 31 Awst 2019, a thelerau Llywodraeth Cymru yn nodi fod yr arian yn benodol i'r pwrpas yma, disgwylir bydd yr arian sy'n weddill yn cael ei adhawlio.

Dadansoddi'r grant gyflawn isod:

| | |
|---|---|
| Datganoledig* | £26,064,004 |
| Heb ei ddatganoli | £ 7,977,648 |
| Cyfanswm | **£34,041,652** |
| Grant | £31,555,372 |
| Arian Cyfatebol | £ 2,486,280 |
| Cyfanswm | **£34,041,652** |

** Nid yw cyfrifon y GwE yn cynnwys grantiau wedi eu dosbarthu'n uniongyrchol i'r ysgolion.*

## 3. CRONFA TANWARIANT

3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2019/20 oedd £278,201.

3.2 Amcangyfrifir bydd cyfanswm y gronfa ('balansau cyffredinol' GwE) ar ddiwedd 2019/20 yn £241,699, wedi ystyried y gorwariant net a ragwelir uchod.

**ATODIADAU**

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2019/20 – Adolygiad 2il Chwarter.

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safwbynt priodoldeb.

### Y Swyddog Cyllid Statudol:

Cyd-awdur yr adroddiad.

## CYD-BWYLLGOR GwE - CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU - Adolygiad Cyllid 2019/20 : Ail Chwarter Gorffennaf - Medi 2019

| | Cyllideb Diwygiedig Chwarter 1 £ | Addasiadau £ | Cyllideb Diwygiedig Chwarter 2 £ | Gwariant Rhagwelir £ | Gor / (Tan) Wariant Net (Chwarter 2) £ | Gor / (Tan) Wariant Net (Chwarter 1) £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | | | |
| Gweithwyr | | | | | | |
| Cyflogau | | | | | | |
| - Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth | 975,901 | (98,212) | 877,689 | 868,540 | (9,149) | (98,212) |
| - Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant | 3,776,051 | (108,273) | 3,667,778 | 3,640,768 | (27,010) | (63,139) |
| - Staff ar Secondiad | 60,888 | 725 | 61,613 | 61,613 | 0 | 0 |
| - Trosglwyddo yn erbyn 'Prosiectau Penodol' | (1,688,385) | | (1,688,385) | (1,606,783) | 81,602 | 0 |
| Hyfforddiant, hysbysebu a costau gweithwyr eraill | 40,897 | | 40,897 | 39,975 | (923) | 0 |
| | | | | | | |
| Adeilad | | | | | | |
| Rhent (yn cynnwys gwasanaethau) | 166,363 | | 166,363 | 166,363 | 0 | 0 |
| Ad-daliad Defnydd 'Prosiectau Penodol' o'r ystafelloedd | (56,496) | | (56,496) | (56,496) | 0 | 0 |
| | | | | | | |
| Cludiant | | | | | | |
| Costau Teithio | 131,811 | | 131,811 | 124,114 | (7,697) | (5,905) |
| | | | | | | |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | | | | |
| Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn, hurio stafelloedd ayb | 70,080 | | 70,080 | 71,345 | 1,265 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa adnewyddu) | 15,841 | | 15,841 | 15,841 | 0 | 0 |
| Ffioedd archwilio | 11,000 | | 11,000 | 11,000 | 0 | 0 |
| | | | | | | |
| Broceru | 277,230 | | 277,230 | 277,230 | 0 | 0 |
| | | | | | | |
| Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd | | | | | | |
| Cyfreithiol | 5,498 | | 5,498 | 5,498 | 0 | 0 |
| Adnoddau Dynol | 9,428 | | 9,428 | 9,428 | 0 | 0 |
| Cyllid | 40,770 | | 40,770 | 40,770 | 0 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 45,092 | | 45,092 | 45,092 | 0 | 0 |
| | | | | | | |
| Arbedion 2018/19 i'w darganfod | (37,617) | 37,617 | 0 | 0 | 0 | 37,617 |
| Arbedion i'w darganfod - cyllideb rhent | (11,220) | 11,220 | 0 | 0 | 0 | 11,220 |
| Arbedion i'w darganfod - diffyg cyllideb Cyflenwadau a Gwasanaethau | (41,180) | 41,180 | 0 | 0 | 0 | 41,180 |
| Arbedion 2019/20 i'w darganfod | (116,468) | 116,468 | 0 | 0 | 0 | 116,468 |
| | | | | | | |
| Ymrwymiadau Model Cenedlaethol | 469,948 | | 469,948 | 469,948 | 0 | 0 |
| | | | | | | |
| Prosiectau Penodol | | | | | | |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | 7,977,648 | | 7,977,648 | 7,977,648 | 0 | 0 |
| Grant Amddifadedd Disgyblion - Plant Mewn Gofal | 874,000 | 96,600 | 970,600 | 970,600 | 0 | 0 |
| Grant Amddifadedd Disgyblion - Cynghorydd Strategol | 100,000 | | 100,000 | 100,000 | 0 | 0 |
| Grant Trawsnewid Y System Ady | 0 | 30,000 | 30,000 | 30,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **13,097,080** | **127,325** | **13,224,405** | **13,262,492** | **38,087** | **39,229** |

| | Cyllideb Diwygiedig Chwarter 1 £ | Addasiadau £ | Cyllideb Diwygiedig Chwarter 2 £ | Gwariant Rhagwelir £ | Gor / (Tan) Wariant Net (Chwarter 2) £ | Gor / (Tan) Wariant Net (Chwarter 1) £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | | | |
| Cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd | | | | | | |
| - Cyngor Ynys Môn (10.20%) | (416,697) | | (416,697) | (416,697) | 0 | 0 |
| - Cyngor Gwynedd (17.64%) | (720,531) | | (720,531) | (720,531) | 0 | 0 |
| - Cyngor Conwy (15.30%) | (624,919) | | (624,919) | (624,919) | 0 | 0 |
| - Cyngor Dinbych (15.26%) | (623,132) | | (623,132) | (623,132) | 0 | 0 |
| - Cyngor Fflint (22.71%) | (927,504) | | (927,504) | (927,504) | 0 | 0 |
| - Cyngor Wrecsam (18.89%) | (771,761) | | (771,761) | (771,761) | 0 | 0 |
| Incwm Secondiadau | (60,888) | (725) | (61,613) | (61,613) | (0) | 0 |
| Incwm Cyffredinol | 0 | | 0 | (1,585) | (1,585) | |
| Prosiectau Penodol | | | | | | |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | (7,977,648) | | (7,977,648) | (7,977,648) | 0 | 0 |
| Grant Amddifadedd Disgyblion - Plant Mewn Gofal | (874,000) | (96,600) | (970,600) | (970,600) | 0 | 0 |
| Grant Amddifadedd Disgyblion - Cynghorydd Strategol | (100,000) | | (100,000) | (100,000) | 0 | 0 |
| Grant Trawsnewid Y System Ady | 0 | (30,000) | (30,000) | (30,000) | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Incwm** | **(13,097,080)** | **(127,325)** | **(13,224,405)** | **(13,225,990)** | **(1,585)** | **0** |
| **Cyfanswm Cyllideb Net** | **0** | **0** | **0** | **36,503** | **36,503** | **39,229** |

**Memorandwm -**
**Y Gronfa Tanwariant**

| | Gor / (Tan) Wariant Net (Chwarter 2) £ | Gor / (Tan) Wariant Net (Chwarter 1) £ |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2019** | **(278,201)** | **(278,201)** |
| **Ychwaneger/Llai** - (Tan)/Gorwariant am y flwyddyn gyllidol 2019/20 | 36,503 | 39,229 |
| Llai - Defnydd o'r Gronfa | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2020** | **(241,699)** | **(238,972)** |

**Cronfa Adnewyddu Technoleg Gwybodaeth**

| | Gor / (Tan) Wariant Net (Chwarter 2) £ | Gor / (Tan) Wariant Net (Chwarter 1) £ |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2019** | **(55,479)** | **(55,479)** |
| **Ychwaneger -** Cyfraniad am y flwyddyn gyllidol 2019/20 | (15,841) | (15,841) |
| Llai - Defnydd o'r Gronfa | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2020** | **(71,320)** | **(71,320)** |

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**27 Tachwedd 2019**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| **Pwnc:** | Cynllun Busnes 2019-20 – Adroddiad Monitro Chwarter 2 |

**1.0 Pwrpas yr adroddiad**

1.1 Cyflwyno Adroddiad Monitro Chwarter 2 - Cynllun Busnes Lefel 1 i'r Cyd-bwyllgor.

**2.0 Cefndir**

2.1 Mae'r cynllun busnes rhanbarthol yn nodi'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwelliant ar draws y rhanbarth. Mae'r amcanion strategol a'r blaenoriaethau gwella ar gyfer 2019-20 wedi cael eu cymeradwyo gan Fwrdd Rheoli a Chydbwyllgor GwE.

2.2 Amcanion Strategol: Mae'r cynllun busnes yn cyd-fynd ag *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl* (Llywodraeth Cymru), ac yn adlewyrchu'r blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol presennol:

1. Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel
2. Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau
3. Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles
4. Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.
5. Cwricwlwm trawsnewidiol
6. Busnes

2.3 Mae'r blaenoriaethau a'r meysydd sydd angen eu datblygu ar gyfer 2019-20 wedi eu hadnabod o'r drefn hunan arfarnu a thrwy ymgynghori â phenaethiaid a'r awdurdodau lleol.

2.4 Mae Fframwaith Cynllunio Busnes GwE yn sicrhau eglurder a chytgord strategol wrth gyflawni blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

2.5 Adroddir yn chwarterol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes i'r Cyd-bwyllgor.

**3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Mae'r Cynllun Busnes rhanbarthol yn gosod allan y blaenoriaethau ar draws y rhanbarth. Mae'r rhain ar Lefel 1, a chyfrifoldeb y Rheolwr Gyfarwyddwr yw eu cyflawni. Yn y pen draw, y Cyd-bwyllgor sy'n gyfrifol am gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau.

3.2 Mae cynlluniau Lefel 2 a 3 yn eistedd o dan y cynllun Lefel 1, ac ynddynt mae gwybodaeth fanylach ynghylch blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae cynlluniau Lefel 2 a 3 yn rhoi manylion ynghylch y camau gweithredu, yr allbynnau a'r meini prawf llwyddiant i'w cyflawni. Mae'r fframwaith cynllunio busnes ar lefel 3 a ddatblygwyd yn sicrhau atebolrwydd, ac yn cynnig strwythur i fonitro cynnydd yn effeithiol.

3.3 Ynghlwm mae adroddiad Monitro Chwarter 2 o'r Cynllun Busnes Lefel 1 sy'n darparu adroddiad cynnydd ar y camau gweithredu, y mesurau cynnydd / targedau a'r proffil gwariant.

3.4 Isod mae crynodeb o'r cynnydd ar gyfer chwarter 2:

| **AMCAN STRATEGOL 1: DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL** | ***Cynnydd (Gweithredu)*** | ***Effaith (Mesurau Cynnydd / Targedau)*** | ***Proffil gwariant*** |
|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth 1.1 - Cefnogi ysgolion i wella perfformiad yn y sector uwchradd | Ar drac | Rhannol ar drac | Ar drac |
| Blaenoriaeth 1.2 - Cymraeg 2050 – miliwn o siaradwyr | Rhannol ar drac | Rhannol ar drac | Tanwariant |
| Blaenoriaeth 1.3 - Cefnogi Prifysgol Bangor a Chaer i ddatblygu darpariaeth AGA o safon | Ar drac | Ar drac | Ar drac |

| | | | |
|---|---|---|---|
| uchel | | | |

| AMCAN STRATEGOL 2: ARWEINWYR YSBRYDOLEDIG YN GWEITHIO'N GYDA'I GILYDD I GODI SAFONAU | *Cynnydd (Gweithredu)* | *Effaith (Mesurau Cynnydd / Targedau)* | *Proffil gwariant* |
|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth 2.1 - Darparu rhaglenni datblygu ar draws y gweithlu i sicrhau arweinyddiaeth o safon uchel | Ar drac | Ar drac | Ar drac |
| Blaenoriaeth 2.2 - Cefnogi ysgolion uwchradd i wella perfformiad arweinyddiaeth ganol | Ar drac | Ar y gweill | Ar drac |
| Blaenoriaeth 2.3 - Datblygu model a phrosesau ymgysylltu â chymheiriaid gyda ysgolion i sicrhau hunan-arfarnu cadarn a chynlluniau gwella ar bob lefel | Ar drac | Ar y gweill | Ar drac |

| AMCAN STRATEGOL 3: YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL SY'N YMRWYMEDIG I RAGORIAETH, TEGWCH A LLES | *Cynnydd (Gweithredu)* | *Effaith (Mesurau Cynnydd / Targedau)* | *Proffil gwariant* |
|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth 3.1 - Cefnogi strategaeth dysgwyr bregus | Ar drac | Ar drac | Ar drac |
| Blaenoriaeth 3.2 - Datblygu ymhellach y strategaeth PMG | Ar drac | Ar y gweill | Ar drac |
| Blaenoriaeth 3.3 - Gweithio gyda'r awdurdodau lleol ac ysgolion i weld sut orau i baratoi ar gyfer trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol | Ar drac | Ar drac | Ar drac |

| AMCAN STRATEGOL 4: TREFNIADAU ASESU, GWERTHUSO AC ATEBOLRWYDD TRYLWYR I GEFNOGI SYSTEM O HUNAN-WELLA | *Cynnydd (Gweithredu)* | *Effaith (Mesurau Cynnydd / Targedau)* | *Proffil gwariant* |
|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth 4.1 - Datblygu systemau tracio ac asesu | Ar drac | Rhannol ar drac | Ar drac |
| Blaenoriaeth 4.2 - Datblygu systemau atebolrwydd a rheoli | Ar drac | Ar y gweill | Ar drac |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth 4.3 - Datblygu ymhellach trefniadau atebolrwydd a phrosesau ar gyfer hunan arfarnu cadarn a chynlluniau gwella | Rhannol ar drac | Ar y gweill | Ar drac |

| AMCAN STRATEGOL 5: CWRICWLWM TRAWSNEWIDIOL | *Cynnydd (Gweithredu)* | *Effaith (Mesurau Cynnydd / Targedau)* | *Proffil gwariant* |
|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth 5.1 - Paratoi cwricwlwm trawsnewidiol | Ar drac | Ar drac | Ar drac |
| Blaenoriaeth 5.2 - Gwella ansawdd yr addysgu gan ystyried y 12 egwyddor addysgegol (Dyfodol Llwyddiannus) | Ar drac | Ar drac | Ar drac |

| **AMCAN STRATEGOL 6: BUSNES** | *Cynnydd (Gweithredu)* | *Effaith (Mesurau Cynnydd / Targedau)* | *Proffil gwariant* |
|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth 6.1 - Cyflawni adolygiad o'r gyllideb a'r gweithlu | Ar y gweill | Ar y gweill | |

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor dderbyn yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 2.

4.2 Penderfynu a oes unrhyw agwedd benodol o'r cynllun maent am ei drafod ymhellach mewn cyfarfodydd i'r dyfodol.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori â Wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â Grwpiau Defnyddwyr GwE, Byrddau Ansawdd Sirol, Fforymau Strategol Penaethiaid, Bwrdd Rheoli GwE a Chydbwyllgor GwE wrth ddatblygu'r Cynllun Busnes Lefel 1.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Adroddiad Monitro Chwarter 2.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwy'n gwerthfawrogi'r Cynllun Busnes, sy'n nodi cyfrifoldeb clir am weithrediad priodol ym meysydd busnes, risg, a gwerth am arian, ymhlith eraill. Mae paragraff 5 o'r adroddiad blaen yn datgan bydd GwE yn ariannu unrhyw oblygiadau ariannol sy'n deillio o'r Cynllun Busnes o fewn ei gyllideb gyfredol.

Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

# Cynllun Busnes GwE
# 2019-20

# Adroddiad Monitro
# Chwarter 2




GwEGogledd.Cymru

# Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
# Adroddiad Monitro Chwarter 2 (1 Gorffennaf 2019 – 30 Medi 2019)

## AMCAN STRATEGOL 1: DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL

**BLAENORIAETH 1.1 - CEFNOGI YSGOLION I WELLA PERFFORMIAD YN Y SECTOR UWCHRADD**

| *Gweithredu* | *Cynnydd - Chwarter 2 (Gweithredu)* | *RAG Ch2* | *Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020* | *Effaith - Chwarter 2 (Mesurau Cynnydd / Targedau)* | *RAG Ch2* | *Yn gyfrifol* | *Dyddiad targed* | *Proffil gwariant Ch2* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sicrhau bod gweithredu gyda phob ysgol yn arwain at:<br>• Well ansawdd addysgu;<br>• Well dysgu a lles;<br>• Cynllun Cymorth penodol sydd yn targedu arweiniad a chynhaliaeth i leihau amrywiaethau yn ansawdd profiadau dysgu i ddysgwyr.<br><br>Sicrhau bod YCG y pynciau craidd yn blaenoriaethu'r angen i weithio gydag arweinwyr canol i leihau amrywiaethau oddi fewn i adrannau. | Mae gan bob ysgol uwchradd fynediad at raglen gymorth generig a phenodol. O ganlyniad, mae gan bob ysgol uwchradd raglen gymorth y cytunwyd arni, sy'n helpu i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir o fewn cynllun gwella ysgol.<br><br>Mae gan ysgolion uwchradd ledled y rhanbarth fynediad at gymorth arbenigol ym mhob pwnc craidd. Mae strategaeth gynhwysfawr ar waith ar gyfer gwella safonau mewn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a Chymraeg ar draws y rhanbarth.<br><br>Gweithia Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant y Pynciau Craidd yn agos gyda'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant cyswllt a'r Arweinydd Craidd Uwchradd, i herio a chefnogi adrannau mewn | | Safonau ar draws amrediad o ddangosyddion yn dangos cynnydd sy'n fwy na'r cynnydd cenedlaethol.<br><br>Cynllun Cymorth pob ysgol yn crisialu lefel a natur y gefnogaeth gaiff ei thargedu i leihau amrywiaethau.<br><br>Gwell cysondeb yn ansawdd y profiadau dysgu i ddysgwyr ar draws yr ystod gallu.<br><br>Arweinwyr ar bob lefel yn gweithredu yn fwy miniog a grymus wrth dracio cynnydd ac wrth graffu ar weithredu ar draws adrannau. Arweinwyr ac adrannau yn cael mynediad at arferion llwyddiannus, ac yn cael eu cefnogi i weithredu'r arferion hynny yn eu hysgol eu hunain. | Mae gan GwE, a'r awdurdodau lleol, hanes gyffredinol dda o ran cefnogi ysgolion yn effeithiol, ac yn benodol yr ysgolion hynny sy'n achosi pryder. Mae gan bob ysgol uwchradd 'Gynllun Cefnogaeth' unigryw sy'n sicrhau bod cefnogaeth GwE yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau eu CDY. Fel hyn, gellir defnyddio adnoddau, arbenigedd rhanbarthol ac arferion gorau yn fwy effeithiol. Mae'r cynlluniau yn diffinio'n glir sut mae adnoddau gwella ysgol yn sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol mewn meysydd â blaenoriaeth allweddol.<br><br>Caiff her a chefnogaeth eu targedu yn amserol ac yn effeithiol, sy'n arwain, yn y rhan fwyaf o achosion, at gyflymu'r daith wella yn yr ysgolion sydd wedi'u hadnabod ac, ble'n berthnasol, cânt eu tynnu o gategori dilyniant Estyn.<br><br>Rhoddwyd rhaglen gymorth ar waith ar gyfer y pynciau craidd | | Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant pynciol | Ebrill 2019 ymlaen<br><br>Ebrill 2019 ymlaen | Craidd |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ysgolion uwchradd sy'n tanberfformio.<br><br>Ar ben y gefnogaeth unigryw a ddarparwyd i ysgolion uwchradd yn y pynciau craidd, rhoddwyd arweiniad rhanbarthol a lleol drwy'r rhwydweithiau a'r fforymau pynciol. | | | rhwng ysgolion uwchradd, a hynny drwy gyfrwng rhwydweithiau lleol i Benaethiaid Adran. Mae hyn yn sicrhau mynediad at arferion llwyddiannus.<br><br>Defnyddiwyd y system 'Don' yn effeithiol i adolygu lefelau cymorth.<br><br>Mae data lefel eitem gan bob ysgol wedi'i goladu a'i ddefnyddio i lywio'r cynllunio ar lefel adran. Yn ogystal, mae 27 ysgol uwchradd wrthi'n treialu system/meddalwedd 4Matrix/ ble defnyddir data i dargedu ISV. Bydd ysgolion yn adrodd ar yr effaith yn ystor Tymor yr Hydref. | | | | |



| BLAENORIAETH 1.2 - CYMRAEG 2050 – MILIWN O SIARADWYR | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Gweithredu*** | ***Cynnydd - Chwarter 2 (Gweithredu)*** | ***RAG Ch2*** | ***Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020*** | ***Effaith - Chwarter 2 (Mesurau Cynnydd / Targedau)*** | ***RAG Ch2*** | ***Yn gyfrifol*** | ***Dyddiad targed*** | ***Proffil gwariant Ch2*** |
| Sicrhau bod twf Cymraeg mewn Addysg yn cael ei gynllunio'n strategol ac effeithiol drwy'r Bwrdd Strategol Rhanbarthol yng Nghymru.<br><br>Datblygu a chyflwyno rhaglen o ddysgu proffesiynol i sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r | Bu Bwrdd Strategol Rhanbarthol y Gymraeg gyfarfod ddiwethaf ym mis Mai. Trafodaethau pellach i'w cynnal ym Mwrdd Rheoli GwE mis Tachwedd.<br><br>Cyflwynwyd yr ymateb rhanbarthol i'r ymgynghoriad ar Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. | | Mae cynllun strategol effeithiol ar gyfer twf y Gymraeg mewn Addysg yn ei le ac ar waith.<br><br>Bydd darpariaeth Gymraeg well a chyfranogi mewn dysgu proffesiynol o ansawdd uchel yn gwella ansawdd yr addysgeg Iaith Gymraeg. | "Datblygu'r Gymraeg mewn addysg ar draws rhanbarth Gogledd Cymru 2019-22" – wedi ei gwblhau-disgwylir am gymeradwyaeth y Bwrdd Rheoli a'r Cydbwyllgor.<br><br>14 o athrawon (cynradd, cyfrwng Saesneg) wedi cwblhau cwrs sabothol y Gymraeg mewn blwyddyn, 2019-20. Mae 14 o gymorthyddion wedi cofrestru ar y | | Bwrdd Strategol Y Gymraeg Rhanbarthol | Gorff. 2019<br><br>Ebrill 2019 ymlaen | Cymraeg - datblygiad proffesiynol |

## Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
## Adroddiad Monitro Chwarter 2 (1 Gorffennaf 2019 – 30 Medi 2019)

**BLAENORIAETH 1.2 - CYMRAEG 2050 – MILIWN O SIARADWYR**

| ***Gweithredu*** | ***Cynnydd - Chwarter 2 (Gweithredu)*** | ***RAG Ch2*** | ***Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020*** | ***Effaith - Chwarter 2 (Mesurau Cynnydd / Targedau)*** | ***RAG Ch2*** | ***Yn gyfrifol*** | ***Dyddiad targed*** | ***Proffil gwariant Ch2*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| arbenigedd yn y Gymraeg i addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg, ar sail y dystiolaeth ac arferion gorau.<br><br>Cyflwyno cyfleoedd i blant a phobl ifanc gael defnyddio eu Cymraeg mewn gwahanol gyd-destunau ac i wella eu hymdeimlad o Gymreictod drwy hyrwyddo profiadau ac addysg gyfoethog drwy Siarter y Gymraeg / y Fframwaith Cenedlaethol newydd. | Lluniwyd Cyfeiriadur Hyfforddiant, sy'n barod i'w rannu efo clystyrau.<br><br>Parheir i hyrwyddo'r cyrsiau Sabothol drwy fwletin GwE a'r ALl. Gyda'r model clwstwr newydd, sicrheir bod cyllid (os oes angen) ar gael i bob clwstwr gael hyfforddiant ar sgiliau'r Gymraeg.<br><br>Mae'r model clwstwr yn barod i'w weithredu ar draws y rhanbarth - mae arian penodol ynghlwm â hyn. | | Nifer fwy o staff ysgolion yn derbyn hyfforddiant ar lefel briodol i wella eu sgiliau Iaith Gymraeg.<br><br>Mwy o gyfleoedd cyfoethogi i blant a phobl ifanc gael defnyddio eu Cymraeg mewn gwahanol gyd-destunau, a gwella eu hymdeimlad o Gymreictod.<br><br>Mae ysgolion yn cydweithio'n effeithiol ac yn gweithio mewn clystyrau i wella'r ddarpariaeth Gymraeg gan rannu adnoddau ac arferion yn effeithiol yn barod ar gyfer darparu'r cwricwlwm newydd. | cwrs uwch Medi - Hydref 2019. Rydym wrthi'n cynllunio cwrs dilynol i'r rheiny sydd wedi bod ar y cwrs 2018-19.<br><br>Gyda'r model clwstwr, sicrheir bod gan bob ysgol gyllid drwy ddarparu Cynllun Clwstwr e.e. er mwyn hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu. Dylai hyn hybu dilyniant a pharhad rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd gan y Gymraeg dudalen debyg i ADY Cymru ar y G6, efo cerrig milltir a chyfle i rannu arferion llwyddiannus. | | | Medi 2019 | Fframwaith Defnydd o’r Gymraeg |

# Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
# Adroddiad Monitro Chwarter 2 (1 Gorffennaf 2019 – 30 Medi 2019)

**BLAENORIAETH 1.3 - CEFNOGI PRIFYSGOL BANGOR A CHAER I DDATBLYGU DARPARIAETH AGA O SAFON UCHEL**

| ***Gweithredu*** | ***Cynnydd - Chwarter 2 (Gweithredu)*** | ***RAG Ch2*** | ***Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020*** | ***Effaith - Chwarter 2 (Mesurau Cynnydd / Targedau)*** | ***RAG Ch2*** | ***Yn gyfrifol*** | ***Dyddiad targed*** | ***Proffil gwariant Ch2*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Paratoi'n drylwyr i gwrdd â gofynion Ymweliad Achredu EWC.<br><br>Cefnogi'r gwaith o ddatblygu modiwlau a'r Rhaglen Fentora.<br><br>Sicrhau bod staff GwE wedi eu hyfforddi i sicrhau ansawdd yr ysgolion partner.<br><br>Sicrhau bod GwE yn cyfrannu at ddarparu a sicrhau ansawdd y rhaglen. | Mae GwE wedi cefnogi Achrediad llwyddiannus rhaglenni BA/TAR, ac wedi gweithio efo CaBan ac ysgolion y rhanbarth i gyd-lunio modelau.<br><br>Mae Arweinydd AGA GwE yn dal i fynd i gyfarfodydd i ddechrau arfarnu'r rhaglen a datblygu ail achrediad. YCG perthnasol i ddarparu mewnbwn arbenigol wrth gyflwyno'r modiwl.<br><br>YCG ac UDA GwE i gael diweddariad ar ddatblygiadau ac effaith CaBan. | | Mae EWC yn cydnabod y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amodau achredu (Tachwedd 2018).<br><br>Y modiwlau i gyd yn eu lle ac wedi eu rhannu ag ysgolion partner.<br><br>Ysgolion partner CaBan i gynnwys AGA fel blaenoriaeth ysgol yn G6. GwE/CaBan i sicrhau ansawdd yr holl ysgolion partner.<br><br>Mae ysgolion partner CaBan yn gweithio â sefydliadau Addysg Uwch a GwE i gyflwyno darpariaeth o ansawdd uchel a'r hyfforddiant diweddaraf i Athrawon Cysylltiol newydd. | Llwyddo i achredu rhaglenni yn llwyddiannus efo EWC (Ebrill 2019).<br><br>Datblygwyd modiwlau ac maent bellach yn barod.<br><br>Ysgolion arweiniol wedi'u hadnabod ac wedi cael hyfforddiant ar gyflwyno'r modiwl, 'dyddiau yn yr ysgol' a strwythur y rhaglen.<br><br>Ysgolion rhwydwaith wedi'u hadnabod a chynllun gweithredu i hyfforddi mentoriaid wedi'i gyflwyno. | | Arweinydd AGA GwE | Mawrth 2019<br><br>Gorff 2019<br><br>Mai 2019<br><br>Medi 2019 ymlaen | AGA |

# Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
# Adroddiad Monitro Chwarter 2 (1 Gorffennaf 2019 – 30 Medi 2019)

## AMCAN STRATEGOL 2: ARWEINWYR YSBRYDOLEDIG YN GWEITHIO'N GYDA'I GILYDD I GODI SAFONAU

**BLAENORIAETH 2.1 - DARPARU RHAGLENNI DATBLYGU AR DRAWS Y GWEITHLU I SICRHAU ARWEINYDDIAETH O SAFON UCHEL**

| *Gweithredu* | *Cynnydd - Chwarter 2 (Gweithredu)* | *RAG Ch2* | *Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020* | *Effaith - Chwarter 2 (Mesurau Cynnydd / Targedau)* | *RAG Ch2* | *Yn gyfrifol* | *Dyddiad targed* | *Proffil gwariant Ch2* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Parhau i ddatblygu a darparu'r Rhaglen Datblygu Arweinwyr Canol (RhDAC) er mwyn sefydlu RhDAC cenedlaethol ar gyfer ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru.<br><br>Parhau i ddatblygu a chyflwyno'r Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid (RhDDB) ranbarthol er mwyn:<br>1) sicrhau bod gan arweinwyr y dyfodol ar draws y rhanbarth gyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel;<br>2) sefydlu Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid / CPCP genedlaethol ar gyfer ei chyflwyno i'w | Aeth y Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol yn ei blaen, fel y cynlluniwyd. Cynhelir y diwrnod Cyflwyno yng Nghanolfan Busnes Conwy ar 02/10/19 i'r garfan nesaf. Dau gynrychiolydd o GwE wedi cyfrannu at gyd-lunio Rhaglen Genedlaethol, i ddechrau yn Nhymor yr Hydref (cyflwynir yn rhanbarthol).<br><br>Aeth y Rhaglen i Ddarpar Benaethiaid, carfan 2018-19 yn ei blaen, fel y cynlluniwyd. Cynhelir y diwrnod Cyflwyno yng Nghanolfan Busnes Conwy ar 03/10/19.<br><br>Mae'r Grŵp Datblygu Traws Ranbarthol wrthi'n cyd-lunio Rhaglen Ddatblygu Genedlaethol i Ddarpar Benaethiaid sy'n arwain at CPCP, sydd ar fin cychwyn yn Nhymor y Gwanwyn 2020. Cynhelir cyfarfodydd briffio i | | Ystod ehangach o gyfleoedd Dysgu Proffesiynol ar gael i ystod o arweinwyr er mwyn datblygu arweinwyr presennol, ac arweinwyr y dyfodol.<br><br>Nifer well o ymgeiswyr o safon uchel yn ymgeisio am swyddi arweinyddiaeth mewn ysgolion a lleoliadau eraill:<br>• 60 o unigolion yn ymgeisio'n llwyddiannus a mynychu'r Rhaglen genedlaethol newydd ar gyfer Datblygu Arweinwyr Canol (30 yn y garfan Cymraeg / 30 yn y garfan Saesneg).<br>• 60 o unigolion yn ymgeisio'n llwyddiannus a mynychu carfan 5 y Rhaglen (30 yn y garfan Cymraeg / 30 yn y garfan Saesneg).<br>• 50 o unigolion yn ymgeisio'n llwyddiannus a mynychu'r Rhaglen genedlaethol | Mae GwE yn parhau i ddarparu rhaglenni datblygu cyson, teg ac o ansawdd uchel ar bob cam o'r llwybr datblygu dysgu proffesiynol mewn arweinyddiaeth, o arweinyddiaeth ganol i Benaethiaid profiadol.<br><br>Mae 136 o ymgeiswyr, ar draws y rhanbarth, wedi cofrestru ar y Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol (2 garfan cyfrwng Saesneg ac 1 garfan cyfrwng Cymraeg). Mae grant LlC wedi cyllido llefydd ychwanegol (2 garfan arall) yn benodol ar gyfer CGADY ar draws y rhanbarth.<br><br>Mae 74 o aelodau, ar draws y rhanbarth, wedi cychwyn ar y Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid. | | Arweinydd Rhaglenni Arweinyddiaeth | Ebrill 2019 ymlaen<br><br>Dylunio Mehefin 2019 Dyddiad dechrau – Medi 2019<br><br>Mehefin 2019 | Penaethiaid Newydd a Dros Dro |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| chymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol<br><br>Gwerthuso ac adolygu'r Rhaglen Datblygu CPCP bresennol. Y prif ganfyddiadau o hyn i ddylanwadu ar ddatblygu Rhaglen Datblygu CPCP genedlaethol newydd ar gyfer ei chyflwyno i'w chymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol.<br><br>Parhau i ddarparu'r dysgu proffesiynol a gyflwynir drwy'r Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid / Penaethiaid Newydd sydd wedi'i chymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol a'i hachredu gan Yr Athrofa a Phrifysgol Bangor.<br><br>Darparu'r dysgu proffesiynol a gyflwynir drwy'r Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol sydd wedi'i chymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol a'i hachredu gan Yr Athrofa a Phrifysgol Bangor. | athrawon sydd â diddordeb yn ystod Tymor yr Hydref.<br><br>CPCP - Trefniadau ar gyfer cynnal y rhaglen hon yn effeithiol y tymor hwn. Rhoddwyd 'hyfforddwr arweinyddiaeth' i bob ymgeisydd a fydd yn dechrau gweithio efo nhw o 14/10/19. Caiff pob 'hyfforddwr arweinyddiaeth' hyfforddiant ym mis Hydref. Dyddiad cenedlaethol ar y gweill ar gyfer 15/10/19.<br><br>Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro - cyflwynwyd y Rhaglen Genedlaethol, fel y cynlluniwyd. Mae cyfarfodydd rhanbarthol Arweinwyr ALl wedi ceisio sicrhau llai o amrywiad rhwng siroedd. Cynhelir y Diwrnod Datblygu Cenedlaethol yn Wrecsam ar 16/10/19.<br><br>Penaethiaid Profiadol - bu dau gynrychiolydd o GwE yn cynrychioli'r rhanbarth yn ystod y broses o gyd-lunio Rhaglen Ddatblygu Genedlaethol i Benaethiaid profiadol. Rhoddwyd diweddariad i grwpiau Penaethiaid gan yr Arweinwyr Craidd yn ystod | | newydd ar gyfer Datblygu CPCP.<br><br>• 80% o ymgeiswyr yn llwyddo i ennill statws CPPC.<br><br>• Bydd nifer yr unigolion sy'n mynychu'r rhaglen yn dibynnu ar benodiadau yn yr Awdurdodau Lleol.<br><br>• 25 o unigolion yn ymgeisio'n llwyddiannus a mynychu'r Rhaglen genedlaethol newydd ar gyfer Datblygu Penaethiaid Profiadol. | CPCP - derbyniwyd 58 o ymgeiswyr ar y rhaglen eleni.<br><br>Trafodwyd y meini prawf ar gyfer ymgeiswyr CPCP yn drylwyr efo aelodau'r grŵp arweinyddiaeth rhanbarthol.<br><br>Gwahoddwyd Penaethiaid Newydd a Dros Dro, ar draws rhanbarth GwE, i'r Diwrnod Datblygu Cenedlaethol. Caiff yr aelodau gyflwyniadau gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE a Chyfarwyddwr yr Academi Arweinyddiaeth.<br><br>Mae ceisiadau wrthi'n cyrraedd gan benaethiaid ledled y rhanbarth ar gyfer y Rhaglen Ddatblygu i Benaethiaid Profiadol. Bydd yr ymgeiswyr yn cymryd rhan mewn arfarniad 360 gradd ym mis Tachwedd, a chynhelir y digwyddiad preswyl cyntaf ym mis Ionawr 2020. | | | Tach. 2019<br><br>Mai 2019<br><br>Parhaus<br><br>Medi 2019 ymlaen | |

**Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20**
**Adroddiad Monitro Chwarter 2 (1 Gorffennaf 2019 – 30 Medi 2019)**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | cyfarfodydd Ffederasiwn Penaethiaid rhanbarthol. | | | | | | | |

| BLAENORIAETH 2.2 - CEFNOGI YSGOLION UWCHRADD I WELLA PERFFORMIAD ARWEINYDDIAETH GANOL | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Gweithredu*** | ***Cynnydd - Chwarter 2 (Gweithredu)*** | ***RAG Ch2*** | ***Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020*** | ***Effaith - Chwarter 2 (Mesurau Cynnydd / Targedau)*** | ***RAG Ch2*** | ***Yn gyfrifol*** | ***Dyddiad targed*** | ***Proffil gwariant Ch2*** |
| Targedu unigolion yn bwrpasol i fynychu'r rhaglenni.<br><br>Cynlluniau Cymorth pob ysgol yn adnabod pa agweddau o arweinyddiaeth ganol sydd angen sylw penodol ac yn arwain arweinwyr canol i leihau amrywiaethau oddi fewn eu hadrannau, yn benodol felly yn ansawdd y dysgu a'r addysgu. | Trafodaethau cychwynnol efo ysgolion am lefel y cymorth.<br><br>Cwblheir y cynlluniau cymorth yn fuan yn yr Hydref.<br><br>Adnabuwyd ysgolion i gymryd rhan yn y rhaglen Ymgysylltu â Chymheiriaid. Rhannwyd gohebiaeth ysgrifenedig efo ysgolion. Hyfforddiant wedi cychwyn efo EDT. Mae rhai clystyrau wedi gosod dyddiadau ar gyfer datblygu cydweithio. Anogir arweinwyr canol i fod yn rhan o'r model. | | unigolion wedi eu targedu'n llwyddiannus ac yn cyfranogi'n llawn yn y rhaglenni.<br><br>Sgiliau arweinyddiaeth unigolion wedi grymuso.<br><br>Ansawdd gweithredu yn arwain at welliannau yn y dysgu a'r addysgu. | Rhy fuan i fesur effaith.<br><br>Targedwyd rhai arweinwyr eisoes i fynychu rhaglenni datblygu penodol. | | Arweinydd Arweinyddiaeth Ganol | Medi 2019 ymlaen<br><br>Ebrill 2019 ymlaen | Arweinwyr y Dyfodol |

**Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20**
**Adroddiad Monitro Chwarter 2 (1 Gorffennaf 2019 – 30 Medi 2019)**

| BLAENORIAETH 2.3 - DATBLYGU MODEL A PHROSESAU YMGYSYLLTU Â CHYMHEIRIAID GYDA YSGOLION I SICRHAU HUNAN-ARFARNU CADARN A CHYNLLUNIAU GWELLA AR BOB LEFEL | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Gweithredu*** | ***Cynnydd - Chwarter 2 (Gweithredu)*** | ***RAG Ch2*** | ***Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020*** | ***Effaith - Chwarter 2 (Mesurau Cynnydd / Targedau)*** | ***RAG Ch2*** | ***Yn gyfrifol*** | ***Dyddiad targed*** | ***Proffil gwariant Ch2*** |
| Datblygu a gweithredu modelau ymgysylltu â chymheiriaid ar draws y rhanbarth.<br>Gweithio gyda rhanddeiliaid i ddiwygio trefniadau a gweithdrefnau gwella ac atebolrwydd er mwyn sicrhau eu bod yn :<br>• cwrdd â gofynion a disgwyliadau cenedlaethol.<br>• cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd.<br>• gadarn, teg, cydlynol a thryloyw.<br>• annog arweinwyr i ysgwyddo mwy o atebolrwydd am welliannau yn eu hysgolion eu hunain ac mewn ysgolion cymheiriaid ymgysylltu<br><br>Cefnogi arweinwyr i sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu cyfrannu'n effeithiol a | Mae GwE a'r chwe awdurdod lleol rhanbarthol yn gweithio gydag ysgolion i sefydlu model rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu â chymheiriaid, sy'n llawn adlewyrchu'r egwyddorion a'r gwerthoedd a nodwyd gan Benaethiaid, a hefyd dysgu o arferion da yn genedlaethol a thu hwnt.<br><br>Drwy ddatblygu model ymgysylltu â chymheiriaid ar amryw o lefelau a haenau, a'r model hwnnw wedi'i lunio a'i pherchnogi gan yr ysgolion eu hunain, bydd modd i sefydliadau fabwysiadu fynd i'r afael â'r daith ddiwygio genedlaethol mewn ffordd integredig. Bydd yr awdurdodau lleol a GwE yn cefnogi'r dull gweithredu integredig yn effeithiol.<br><br>Bydd y model yn sail i gylch trylwyr o ddatblygiad a gwelliant parhaus, a bydd yn rhan ganolog o wella ysgol wrth | | Prosiect braenaru rhanbarthol yn weithredol a lleiafswm o 100 o ysgolion yn cyfrannu at y gwaith.<br>Gweithdrefnau gwella ac atebolrwydd lleol yn cwrdd â'r gofynion a'r disgwyliadau cenedlaethol.<br><br>Gwell cysondeb yng ngrymuster a miniogrwydd gweithdrefnau arfarnu ar draws ac oddi fewn i ysgolion.<br><br>Arweinwyr ar bob lefel yn perchnogi'r atebolrwydd am welliannau oddi fewn i'w hysgolion eu hunain ac mewn ysgolion cymheiriaid.<br><br>Gweithdrefnau arfarnu a chynllunio gwelliannau pob ysgol yn:<br>• cynnwys gweithgareddau ymgysylltu â chymheiriaid;<br>• canolbwyntio'n benodol ar ansawdd profiadau dysgu ac addysgu i'r ystod gallu o ddysgwyr. | Daeth 290 o geisiadau gan ysgolion y rhanbarth yn datgan diddordeb i law [gweithio fel 41 clwstwr].<br><br>Bydd 60 ysgol [yn gweithio fel 10 clwstwr] yn cynnal peilot o'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion ranbarthol, ac 175 o ysgolion [ yn gweithio fel 28 clwstwr] yn datblygu model lleol.<br><br>Hyfforddiant i Hwyluswyr Gwelliant ac Adolygwyr Cymheiriaid (Grwpiau 1 i 4) yn Nhymor yr Hydref (Medi - Hydref), a diwrnod cyflwyno i'r penaethiaid sy'n rhan o'r prosiect. Cynhelir rhagor o hyfforddiant yn Nhymor y Gwanwyn.<br><br>Cynhelir arfarniad llawn ar ddiwedd y cyfnod peilot. | | Cyfarwyddwr Cynorthwyol / Arweinydd Rhanbarthol Cynradd / Arweinydd Rhanbarthol Uwchradd | Mai 2019 ymlaen | Cyllid ar gyfer cydweithio |

Tud.67

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| phwrpasol i'r trefniadau gwerthuso a gwella.<br><br>Sicrhau bod gweithdrefnau arfarnu a chynllunio gwelliannau pob ysgol yn :<br>• cynnwys ymgysylltu â chymheiriaid<br>• blaenoriaethu gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu ar gyfer yr ystod gallu o ddysgwyr<br>Sicrhau bod arweinwyr ar bob lefel yn gallu gweithredu'n hyderus a grymus wrth gynllunio ac arwain gwelliannau yn y dysgu a'r addysgu a bod defnydd effeithiol yn cael ei wneud o gymheiriaid i gefnogi'r daith gwella<br>. | symud tuag at system hunan wella, tra hefyd yn cynnal yr ysgolion hynny sy'n achosi pryder. | | Rhaglen fonitro dynn yn weithredol i arfarnu effaith y prosiect braenaru. | | | | | |

## AMCAN STRATEGOL 3: YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL SY'N YMRWYMEDIG I RAGORIAETH, TEGWCH A LLES

**BLAENORIAETH 3.1 - CEFNOGI STRATEGAETH DYSGWYR BREGUS**

| ***Gweithredu*** | ***Cynnydd - Chwarter 2 (Gweithredu)*** | ***RAG Ch2*** | ***Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020*** | ***Effaith - Chwarter 2 (Mesurau Cynnydd / Targedau)*** | ***RAG Ch2*** | ***Yn gyfrifol*** | ***Dyddiad targed*** | ***Proffil gwariant Ch2*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diwygio'r broses o benderfynu a bod yn atebol am werthuso ac archwilio'r grant GDD rhwng ysgolion, | Mae llinellau atebolrwydd clir yn y consortia. Mae mwy o bwyslais ar fonitro ac arfarnu perfformiad | | Mae perfformiad dysgwyr PYD ar draws y rhanbarth wedi cynyddu'n unol / neu'n fwy na'r | Disgwyl am ganlyniadau 2019.<br><br>Mae GwE wrthi'n monitro ac arfarnu effeithiolrwydd ac | | Ymgynghorydd Llesiant Rhanbarthol | Mai 2019 | GDD |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| yr Awdurdod Lleol a Chonsortia.<br><br>Cryfhau rôl yr YCG mewn cynorthwyo ysgolion i werthuso cynnydd eu dysgwyr bregus a gyda defnyddio'r GDD.<br><br>Datblygu dull person-ganolog o wrando ar leisiau pob grŵp o ddysgwyr. | cyffredinol dysgwyr PYD ar draws y meysydd portffolio allweddol, yn y cynradd a'r uwchradd. Rhannwyd arweiniad wedi'i ddiweddaru â phob YCG ac ysgolion o ran monitro grantiau.<br><br>Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant bellach yn herio ysgolion ar eu defnydd o arian grant, gyda set pendant o feini prawf i bwyso a mesur sut maent yn defnyddio'r arian hwn. Gwelwyd hyn yn lleihau'r anghysondebau rhwng ysgolion o ran gweld beth yw effaith defnyddio'r arian grant ar ddeilliannau disgyblion.<br><br>Gwaith ar y gweill o ran prosiect llais y dysgwr, efo sesiynau yn cael eu hwyluso mewn 3 ALl. | | gwelliant cyfartalog cenedlaethol yn y prif ddangosyddion.<br><br>Y Grŵp Strategol Rhanbarthol i gwrdd bob tymor gyda chylch gorchwyl clir.<br><br>Mae'r holl gynlluniau GDD yn cael eu harchwilio'n flynyddol drwy'r rhanbarth, gyda'r effaith a'r arferion llwyddiannus yn cael eu rhannu drwy G6.<br><br>Data crynodol a ffurfiannol yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i dargedu gwelliannau.<br><br>70% o'r cydweithio ysgol i ysgol / clwstwr rhanbarthol yn rhan o gyflwyno arferion seiliedig ar dystiolaeth. | effaith y GDD ar ysgolion ar draws y consortia. Cynhyrchir papur i'r Bwrdd Rheoli ym mis Ionawr 2020.<br><br>Defnyddir data, gosod targedau a thracio yn effeithiol a chyson i herio a chefnogi ysgolion drwy gyfrwng yr YCG, ac fe'u defnyddir yn fwy effeithiol yn ein prosesau arfarnu i sicrhau ein bod yn cyrraedd yr ysgolion iawn.<br><br>Mae proffil arfarnu un dudalen yn nodi llais y dysgwr o ran effaith y GDD PMG ar draws y rhanbarth. Caiff y prosiect arfarnu dan arweiniad TAPE ei lansio ym mis Chwefror 2020. | | | Medi 2019<br><br>Rhagfyr 2019<br><br>Ebrill – Mehefin 2019 | |

# Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
## Adroddiad Monitro Chwarter 2 (1 Gorffennaf 2019 – 30 Medi 2019)

| BLAENORIAETH 3.2 - DATBLYGU YMHELLACH Y STRATEGAETH PMG | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Gweithredu*** | ***Cynnydd - Chwarter 2 (Gweithredu)*** | ***RAG Ch2*** | ***Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020*** | ***Effaith - Chwarter 2 (Mesurau Cynnydd / Targedau)*** | ***RAG Ch2*** | ***Yn gyfrifol*** | ***Dyddiad targed*** | ***Proffil gwariant Ch2*** |
| Gweithredu'r strategaeth GDD / PMG gan fesur ei heffaith a'r canllawiau gwerthuso ar draws y rhanbarth.<br><br>Gweithredu ffynhonnell ddata gyson i sicrhau bod gwybodaeth yr Awdurdod Lleol am blant PMG yn cael ei rhannu â'r consortia.<br><br>Asesu a thracio cynnydd plant PMG yn rheolaidd ar draws y rhanbarth. | Gweithredir strategaeth a chynllun busnes GwE yn llawn ar draws y rhanbarth. Cynhwysir elfen PYD y GDD PMG yn y Cynlluniau Busnes rhanbarthol, rhai'r ALl a'r portffolio allweddol.<br><br>Cyhoeddwyd fframwaith diwygiedig i'r GDD PMG, a gyd-luniwyd gan gynrychiolwyr ADEW a chydlynwyr GDD PMG rhanbarthol, i Gyfarwyddwyr Addysg ym mis Mawrth, i'w weithredu o fis Ebrill. Yn y fframwaith diwygiedig, mae set o ddibenion craidd ar gyfer rôl y cydlynwyr arweiniol GDD PMG, a bydd modd cael cysondeb yn genedlaethol i sicrhau y deilliannau addysgol gorau i blant mewn gofal ar draws Cymru.<br><br>Mae systemau monitro ar waith, mewn perthynas â phlant sydd mewn gofal - drwy'r YCG a'r CG PMG a'r ALl. Rydym yn gweithio'n agos gyda holl Arweinwyr PMG y Consortia i ddatblygu model arfaethedig i dracio, a monitro | | Mae perfformiad plant PMG ar draws y rhanbarth wedi cynyddu'n unol â/neu'n fwy na'r gwelliant cyfartalog cenedlaethol yn y prif ddangosyddion.<br><br>Mae cynllun Cefnogi GDD/PMG clir a thrylwyr yn ei le ac wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae model fframwaith wedi'i weithredu ar draws y rhanbarth drwy'r canllawiau grant ac mae canllawiau/system werthuso drylwyr.<br><br>Mae proffil un dudalen glir ar gyfer Ysgolion/Clwstwr sy'n dangos tystiolaeth o effaith y grant GDD ar PMG. | Disgwylir am ganlyniadau 2019 mewn perthynas â'r data CRCS.<br><br>Rydym wedi mabwysiadu a gweithredu telerau ac amodau newydd GDD PMG Llywodraeth Cymru ar gyfer arian grant yn ein telerau ac amodau GDD PMG rhanbarthol. Rydym hefyd yn sicrhau bod amcanion a blaenoriaethau rhanbarthol a lleol yn cael eu bodloni.<br><br>Ein nod yw cynyddu'r dull gweithredu clwstwr, a sicrhau bod ysgolion/clystyrau targed yn cael at yr arian rhanbarthol. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r chwe ALl i sicrhau cyfathrebu a chydweithio clir o safbwynt cefnogaeth ac ymyrraeth ychwanegol i ddangos tystiolaeth o effaith y GDD PMG.<br><br>Hyd yma, mae gennym 30 prosiect clwstwr. | | Ymgynghorydd Llesiant Rhanbarthol | Ebrill 2019 – Mawrth 2020<br><br>Ebrill 2019<br><br>Ebrill 2019 – Mawrth 2020<br><br>Ebrill 2019 | PMG |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | dangosyddion allweddol/data cyfredol pob PMG.<br><br>Mae gwaith hefyd ar y gweill efo ALl a GwE o ran rhannu data am ddangosyddion allweddol, fel presenoldeb/gwaharddiadau/ADY, o safbwynt cyflawniadau PMG. | | | | | | | |

| BLAENORIAETH 3.3 - GWEITHIO GYDA'R AWDURDODAU LLEOL AC YSGOLION I WELD SUT ORAU I BARATOI AR GYFER TRAWSNEWID ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Gweithredu*** | ***Cynnydd - Chwarter 2 (Gweithredu)*** | ***RAG Ch2*** | ***Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020*** | ***Effaith - Chwarter 2 (Mesurau Cynnydd / Targedau)*** | ***RAG Ch2*** | ***Yn gyfrifol*** | ***Dyddiad targed*** | ***Proffil gwariant Ch2*** |
| Cynnig Dysgu Proffesiynol yn ei le wedi'i ddarparu gan yr Awdurdod Lleol a GwE.<br><br>Arferion effeithiol yn cael eu rhannu ar draws y rhanbarth i leihau dyblygu a llwythi gwaith.<br><br>Rhwydweithiau trawsnewid ADY a chlwstwr wedi eu sefydlu ac yn cael eu cefnogi gan y tîm YCG.<br><br>Mae gan bob clwstwr gynllun gweithredu'n adnabod camau nesaf y daith ddiwygio. | Cynnig Dysgu Proffesiynol wedi'i gwblhau, a'i dderbyn ac ar waith.<br><br>Arweinwyr Clwstwr ac YCG ADY yn rhannu arferion effeithiol ar draws y rhanbarth drwy G6.<br><br>Sefydlwyd gwaith clwstwr ar drawsnewid ADY yn y rhanbarth, gan ddarparu dull cyson o gefnogi parodrwydd ysgolion at weithredu'r diwygio ADY. O ganlyniad, mae gan ysgolion ymwybyddiaeth o'r diwygio ac maent wedi gweithio gyda'u clwstwr i adnabod blaenoriaethau ar y cyd a | | Mae'r cynnig dysgu proffesiynol yn cynorthwyo i ddeall a chyflwyno Trawsnewid ADY.<br><br>Mae astudiaethau achos o arferion llwyddiannus ar gael ar G6 ac yn seiliedig ar waith y clystyrau ac Awdurdodau Lleol.<br><br>Mae rhwydweithiau proffesiynol yn eu lle ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, canolfannau arbenigol a model clwstwr.<br><br>Mae'r ysgolion i gyd yn rhan o'r model clwstwr lleol ac yn derbyn cymorth ariannol drwy'r grant trawsnewid. | Caiff ysgolion fynediad i'r hyfforddiant drwy gydol y flwyddyn academaidd nesaf. Mae uwch arweinwyr a chlystyrau wedi adnabod eu hanghenion dysgu proffesiynol eu hunain ar gyfer cefnogi'r gweithredu, sydd wedi llywio cynnig dysgu proffesiynol 2019-20 ar gyfer trawsnewid ADY.<br><br>Mae rhai astudiaethau ac adnoddau eisoes wedi'u rhannu ar G6.<br><br>Mae pob clwstwr a'r rhan fwyaf o ysgolion yn cyfrannu. Bu gwaith arloesi llwyddiannus ar lefel clwstwr, gan gynnwys diffinio darpariaeth gyffredin, | | Arweinydd Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol rhanbarth y Gogledd | Haf 2019<br><br>Hydref 2019<br><br>Haf 2019<br><br>Hydref 2019<br><br>Mehefin 2019 | ADY Grantiau trawsnewid |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae pob awdurdod lleol, GwE ac asiantaethau cyswllt yn cymeradwyo'r cynllun trawsnewid rhanbarthol a'r blaenoriaethau cyllid. | chyflwyno cynllun gweithredu clwstwr. Mae'r model yn sicrhau y caiff pob ysgol yn y rhanbarth gyngor a chefnogaeth manwl gywir, amserol a chyson wrth i ni symud at ddiwedd y daith drawsnewid ac at weithredu. | | Mae cynllun trawsnewid yn ei le ac wedi'i gymeradwyo gan aelodau etholedig. | diffinio addysgu o'r radd flaenaf a gweithredu strategaethau ar gyfer cyfathrebu â rhieni a gofalwyr.<br><br>Rhannwyd gwybodaeth efo aelodau etholedig. | | | | |

## AMCAN STRATEGOL 4: TREFNIADAU ASESU, GWERTHUSO AC ATEBOLRWYDD TRYLWYR I GEFNOGI SYSTEM O HUNAN-WELLA



**BLAENORIAETH 4.1 - DATBLYGU SYSTEMAU TRACIO AC ASESU**

| *Gweithredu* | *Cynnydd - Chwarter 2 (Gweithredu)* | *RAG Ch2* | *Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020* | *Effaith - Chwarter 2 (Mesurau Cynnydd / Targedau)* | *RAG Ch2* | *Yn gyfrifol* | *Dyddiad targed* | *Proffil gwariant Ch2* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sicrhau bod gan bob ysgol uwchradd strategaethau a systemau tracio trylwyr yn eu lle i fesur effaith amrywiadau rhwng ysgolion.<br><br>Gweithredu prosiect braenaru gyda 27 o ysgolion uwchradd i dreialu meddalwedd sy'n asesu amrywiadau rhwng ysgolion a rhannu arferion llwyddiannus o ganfyddiadau prosiect ymchwil weithredu. | Mae 27 o ysgolion uwchradd wrthi'n treialu system rheoli data sy'n canolbwyntio ar amlygu amrywiad mewn ysgol. Gan fod amrywiad mewn ysgol bedair gwaith yn fwy arwyddocaol nag amrywiad rhwng ysgolion, mae mynd i'r afael â hyn yn effeithiol yn greiddiol i wella perfformiad yn y rhanbarth. Mae rhaglen beilot lai arall yn cael ei chynnal i adolygu a datblygu ymwybyddiaeth ysgolion, a thracio dadansoddiad ar lefel cwestiwn. | | Gwelliant ym mherfformiad rhanbarthol 2020 o dan ddangosydd Cap 9 yn CA4 sy'n fwy o welliant na'r cyfartalog cenedlaethol.<br><br>Mae gan arweinwyr ar bob lefel fynediad at ystod fwy cyfoethog o ddata er mwyn tracio cynnydd a thargedu ymyriadau'n llwyddiannus. | Gwelir effaith y crynodeb data a'r adnoddau tracio mewn llawer o ysgolion. Mae hyn yn cynnwys:<br>• Athrawon ac arweinwyr ysgolion yn canolbwyntio ar gynnydd disgyblion unigol, o'r gwaelodlin hyd at ddiwedd addysg gynradd.<br>• Ysgolion yn canolbwyntio ar gynnydd grwpiau o ddysgwyr.<br>• Gwell cysondeb mewn asesiad athro a gosod targedau, ar draws ysgolion, sy'n arwain at hunan arfarnu a chynllunio gwelliant mwy cadarn. | | Arweinydd Tracio ac Asesu Uwchradd | Medi 2020 | Cyllid ar gyfer cydweithio |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynyddu defnydd ysgolion o'r system dracio cynradd a'i ddatblygu ymhellach i fod yn system ar-lein:<br>• Tendro ar gyfer ei ddatblygu<br>• Hyfforddiant i ysgolion ac YCG ar sut i ddefnyddio'r system yn effeithiol. | Mewn ysgolion cynradd, mae ffocws clir ar dracio cynnydd disgyblion.<br>• System dracio Ysgol Gyfan - Cafodd hon ei chreu o'r fersiwn flaenorol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen .<br>• Taenlen Crynhoi Data: Darparwyd crynodeb o ddata disgyblion Bl2 a Bl6<br>• Cymedroli CA2 a CA3: a chyfarfodydd gwyddoniaeth. Drwy'r rhanbarth, roedd cytundeb ar lefelau ffit orau y rhan fwyaf o ysgolion.<br><br>Cynigiwyd hyfforddiant i bob ysgol ar draws y rhanbarth. Mae'r hyfforddiant hwn yn dal i fynd, ar gais. Cadarnheir nifer yr ysgolion a nifer yr ysgolion ar gyfer pob awdurdod yn arfarniad y chwarter nesaf. | | Mae gan bob ysgol fynediad at hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r system dracio yn effeithiol i ddadansoddi data ar gynnydd disgyblion.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio'r system yn dda i ddatblygu mesurau cynnydd cywir ar gyfer dysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr.<br>YCG i gyd yn ffyddiog y medrant gynorthwyo ysgolion i ddefnyddio'r system dracio yn effeithiol. | • Defnyddio amrywiol ffyrdd i ddadansoddi data disgyblion a chyflwyno'r canfyddiadau, er enghraifft, mewn graffiau a siartiau.<br><br>Mae llawer o ysgolion sydd wedi ei ddefnyddio fel eu prif system tracio cynnydd wedi'u nodi gan Estyn fel ysgolion sy'n tracio cynnydd disgyblion yn effeithiol, ac fe'u defnyddir fel astudiaethau achos arfer dda.<br><br>Rhoddwyd hyfforddiant i bron pob YCG cynradd mewn cyfarfod tîm, sydd wedi meithrin eu hyder i ddefnyddio'r offeryn tracio efo ysgolion. | | Arweinydd Tracio ac Asesu Cynradd | Gorff. 2019<br><br>Ionawr 2020 | Cyllid ar gyfer cydweithio |

| **BLAENORIAETH 4.2 - DATBLYGU SYSTEMAU ATEBOLRWYDD A RHEOLI** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Gweithredu*** | ***Cynnydd - Chwarter 2 (Gweithredu)*** | ***RAG Ch2*** | ***Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020*** | ***Effaith - Chwarter 2 (Mesurau Cynnydd / Targedau)*** | ***RAG Ch2*** | ***Yn gyfrifol*** | ***Dyddiad targed*** | ***Proffil gwariant Ch2*** |
| Datblygu a phrofi'r rhaglen iCAM fel rhan o system allbwn data a rhyngwyneb defnyddwyr G6 GwE (ar sail | Mae GwE yn gweithio'n agos gydag arbenigwyr o Brifysgol Warwick a Phrifysgol Bangor i ddatblygu model cyrhaeddiad | | Nodweddion iCAM wedi eu sefydlu a'u cefnogi gan dystiolaeth ymchwil academaidd briodol. | Rhy fuan i fesur effaith. | | Arweinydd Tracio ac Asesu Uwchradd | Medi 2020 | Cyllid ar gyfer cydweithio / |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| cofnodi data amrywiadol ar blant unigol wrth iddynt gyrraedd yr ysgol uwchradd).<br><br>Datblygu canllawiau ar eu defnyddio i ysgolion, safleoedd peilot a gwerthuso trylwyr, datblygu agweddau ychwanegol ar y rhaglen iCAM. Cynnal cyswllt â G6 i asesu goblygiadau integreiddio llwyfannau. | plentyn unigol (iCAM) ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghymru, a hynny er mwyn rhagfynegi cyrhaeddiad a llywio blaenoriaethau a yrrir gan y plentyn. Bydd y model yn seiliedig ar ddata hanesyddol o hyd a lled Cymru. Os yw'n llwyddiannus, byddai'n cael gwared ar yr angen am gymariaethau mympwyol rhwng ysgolion, gan fodelu disgwyliadau am gyrhaeddiad disgyblion unigol yng nghyfnod allweddol 4 yn lle hynny. | | Efelychiad Cam 2 yn cael ei redeg i fodelu data allbwn.<br><br>Y system wedi'i haddasu i asesu'r addasiadau sydd eu hangen ar gyfer mesurau perfformiad interim ac arfaethedig. | | | | | Ymchwil a Gwerthuso |
| Cefnogi Ysgolion a staff GwE ymhellach i ddatblygu defnydd effeithiol o G6 fel offeryn hunan wella. | Gwneir defnydd gwell o'r system G6 gan staff ysgolion a GwE. Mae'r system yn cynnig strwythur ar gyfer cael darlun o brosesau gwella a blaenoriaethau ysgolion, ac mae'n coladu tystiolaeth feintiol o daith wella ysgolion.<br><br>Trwy gyfathrebu rheolaidd a chryno rhwng ysgolion a GwE, mae'r system yn canolbwyntio ar drosglwyddo data byw i gefnogi cynnydd disgyblion. Gyda mwyfwy o ddeialog broffesiynol rhwng yr YCG a'r ysgol, gall YCG ymateb yn gynt i helpu ysgolion gyda meysydd sydd angen cefnogaeth. | | Holl staff GwE yn gwneud defnydd effeithiol o G6 gan rannu arferion llwyddiannus gyda chymheiriaid. Trefniadau grymus mewn lle ar gyfer sicrhau ansawdd.<br>Bron pob ysgol wedi ymgysylltu'n llawn gyda G6 ac yn gwneud defnydd effeithiol i hunan wella ac i fonitro cynnydd yn erbyn cerrig milltir y daith ddiwygio. | Datblygwyd rhaglen o gyfarfodydd Sicrhau Ansawdd yn Nhymor y Gwanwyn 2019. Llwyddwyd i wella dealltwriaeth o gysondeb arferion, a hefyd rhoi cyfle i ddefnyddwyr GwE rannu'r arferion gorau.<br><br>Mae ysgolion yn defnyddio'r cerrig milltir yn y modiwlau Cwricwlwm i Cymru ac ADY yn effeithiol. Mae hyn yn caniatáu i ysgolion fyfyrio ar eu sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r daith ddiwygio, a darperir camau nesaf clir i'w hystyried. Mae'r system hefyd yn rhoi darlun o'r arferion gorau, ac yn eu rhannu rhwng ysgolion. | | Arweinydd G6 | Mawrth 2020 | |

# Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
# Adroddiad Monitro Chwarter 2 (1 Gorffennaf 2019 – 30 Medi 2019)

**BLAENORIAETH 4.3 - DATBLYGU YMHELLACH TREFNIADAU ATEBOLRWYDD A PHROSESAU AR GYFER HUNAN ARFARNU CADARN A CHYNLLUNIAU GWELLA**

| *Gweithredu* | *Cynnydd - Chwarter 2 (Gweithredu)* | *RAG Ch2* | *Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020* | *Effaith - Chwarter 2 (Mesurau Cynnydd / Targedau)* | *RAG Ch2* | *Yn gyfrifol* | *Dyddiad targed* | *Proffil gwariant Ch2* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu trefniadau gwerthuso a gwella newydd i ddisodli rhannau o'r system atebolrwydd bresennol.<br><br>Hyrwyddo a meithrin y diwylliant a'r ymddygiad sydd angen eu gweld i gefnogi gweithrediad y cwricwlwm newydd ac agenda ehangach y 'daith ddiwygio'.<br><br>Cyfrannu at ddatblygu 'pecyn' hunan-werthuso a gwella cenedlaethol dan arweiniad Estyn a'r OECD. | Fel rhan o'r drefn genedlaethol i ddatblygu trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd diwygiedig, bu Estyn a'r OECD yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu 'pecyn cymorth'. Y nod oedd cynyddu trylwyredd a chysondeb mewn prosesau hunan arfarnu a chynllunio gwelliant, a hynny wrth hybu a meithrin y diwylliant a'r ymddygiad sydd eu hangen i gefnogi gweithredu'r cwricwlwm newydd ac agenda ehangach y 'daith ddiwygio'.<br><br>Mae rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cynrychiolaeth o GwE, wedi bod yn cyfrannu at y trafodaethau ac at raglenni gwaith y grŵp rhanddeiliaid a'r gweithgor. | | Mae'r rhan fwyaf o ysgolion ar darged gyda datblygiadau'r cwricwlwm a pharatoi am y daith ddiwygio ehangach.<br><br>Mae'r broses o gynllunio ar gyfer hunan-werthuso a gwella'n fwy trylwyr a chyson. | Rhy fuan i fesur effaith.<br><br>Adnabuwyd ysgolion i gymryd rhan yn y prosiect peilot. | | Cyfarwyddwr Cynorthwyol | Ebrill 2019 ymlaen | Craidd |

# Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
# Adroddiad Monitro Chwarter 2 (1 Gorffennaf 2019 – 30 Medi 2019)

## AMCAN STRATEGOL 5: CWRICWLWM TRAWSNEWIDIOL



| BLAENORIAETH 5.1 - PARATOI CWRICWLWM TRAWSNEWIDIOL | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Gweithredu*** | ***Cynnydd - Chwarter 2 (Gweithredu)*** | ***RAG Ch2*** | ***Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020*** | ***Effaith - Chwarter 2 (Mesurau Cynnydd / Targedau)*** | ***RAG Ch2*** | ***Yn gyfrifol*** | ***Dyddiad targed*** | ***Proffil gwariant Ch2*** |
| Parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm drafft drwy gynnwys ysgolion a staff GwE:<br>- Gwella Ansawdd<br>- Arloesi<br>- Dysgu Proffesiynol<br><br>Cefnogi cyfnod ymgynghori Llywodraeth Cymru a hwyluso pob ysgol ac ymarferydd i fynychu sesiynau er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o Gwricwlwm 2022 a chynnig adborth gwybodus.<br><br>Parhau gyda'r dull integredig o ddiwygio addysg a chefnogi datblygiad y cwricwlwm ar draws pob agwedd, gan gynnwys:<br>- Modelau cwricwlwm i gynnwys sgiliau | Mae gwaith diwygio Cwricwlwm i Gymru yn mynd rhagddo ar gyflymdra yn y rhanbarth, gan ddefnyddio strwythur y rhwydweithiau clwstwr.<br><br>Mae'r 53 rhwydwaith clwstwr yn parhau i gyfarfod, ac mae diwygio Cwricwlwm i Gymru yn eitem reolaidd ar gyfer cael diweddariad. Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn mynychu'r cyfarfodydd hyn yn rheolaidd, ac maent yn allweddol ar gyfer cyfathrebu dwyffordd i rannu ac adrodd yn ôl ar negeseuon cyson.<br><br>Mae GwE wedi cefnogi digwyddiadau ymgynghori Llywodraeth Cymru ar y Cwricwlwm i Gymru. Rhaglen Ymgysylltu:<br>• Cyfres o weithdai i geisio rhoi cyfle i gymaint o | | Ymgysylltiad llawn gan ymarferwyr ar draws rhanbarth GwE wrth gyfrannu at y cam nesaf o ddatblygu'r cwricwlwm.<br><br>Pob ysgol gyda mynediad at wybodaeth ar ddatblygiadau cwricwlwm.<br><br>Ysgolion yn cynnig adborth i LlC er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r cwricwlwm newydd fel rhan o'u paratoadau.<br><br>Strategaethau clir wedi eu datblygu ar draws y rhanbarth, yn y clystyrau a'r ysgolion unigol ar gyfer cefnogi datblygiad y cwricwlwm gyda ffocws ar yr holl brofiadau addysgu a dysgu. | Ymgysylltu yn gryf ar draws y rhanbarth.<br>• Ym mis Tachwedd 2018, nododd 77% o ysgolion ar draws y rhanbarth eu bod nhw'n rhannol ar drac, neu well, o ran y garreg filltir Gwybodaeth a Dealltwriaeth. Erbyn mis Tachwedd 2019, mae'r ffigwr hwn wedi codi 91%.<br>• Ym mis Tachwedd 2018, nododd 69% o ysgolion ar draws y rhanbarth eu bod nhw'n rhannol ar drac, neu well, o ran y garreg filltir Ymgysylltu a Chyfranogiad. Erbyn mis Tachwedd 2019, mae'r ffigwr hwn wedi codi 96%.<br><br>Mae'r adborth yn glir. Ar hyn o bryd, teimla ysgolion eu bod ar drac o ran ymwybyddiaeth eu staff o'r wybodaeth sydd ar gael am ddatblygiadau'r cwricwlwm, yn enwedig y 4 diben a'r 12 egwyddor addysgegol. | | Arweinydd CiG<br><br>Y tîm cyfan i gynnwys<br>- Cyfnod Sylfaen<br>- Addysgu a Dysgu<br>- Arweinwyr pynciau craidd | Parhaus o Ebrill 2019 ymlaen<br><br>Ebrill – Gorffennaf 2019<br><br>Parhaus Ebrill 2019 | Cymorth ar gyfer Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm Newydd<br><br>Digwyddiadau wedi eu hariannu gan LlC<br><br>Cymorth ar gyfer Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm Newydd |

## Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
## Adroddiad Monitro Chwarter 2 (1 Gorffennaf 2019 – 30 Medi 2019)

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| cynllunio a dylunio cwricwlwm<br>- addysgu a dysgu, e.e. 12 egwyddor addysgeg, asesu<br>- ADY, e.e. ysgolion cryf a chynhwysol / gwaith gwahaniaethol<br>- Cymraeg mewn Addysg<br>- Sut y mae ysgolion yn gwerthuso eu cynnydd<br>- Goblygiadau dysgu proffesiynol<br>- Rheoli newid<br><br>Parhau i gefnogi a datblygu'r gwaith clwstwr ar y continwwm 3-16 oed drwy barhau gyda'r gwaith CIG yn dilyn proses fidio.<br>YCG i barhau i drafod cynnydd y gwaith CIG fel rhan o gyfarfodydd clwstwr.<br><br>Ar draws y 6 MDaPh, cryfhau'r fforymau rhanbarthol a datblygu rhai newydd i weithio a thrafod manylder y meysydd MDaPh ar gyfer modelau cwricwlwm, fel rhan o | ymarferwyr â phosibl i glywed yn uniongyrchol gan Arloeswyr am y Cwricwlwm newydd.<br><br>• Nod y sesiynau yw helpu ymarferwyr i ddeall y Cwricwlwm, a sicrhau bod pawb yn ymwybodol o sut allant adrodd yn ôl yn ystod y tymor hwn.<br><br>• Wythnos yn dechrau 13 Mai - 6 sesiwn, yn para 2 awr (un ym mhob Awdurdod Lleol) ar gyfer pob Pennaeth. Rhannu negeseuon ar sail adnoddau a ddatblygwyd ar y cyd.<br><br>• Wythnosau yn dechrau 3 Mehefin/10 Mehefin/17 Mehefin - 27 sesiwn yn cael eu cynnal mewn 3 lleoliad ar draws y rhanbarth, 3 sesiwn y diwrnod yn canolbwyntio ar 2 MDaPh ar y tro. Cynhelir y sesiynau dwy awr hyn yn y prynhawn, yn y bore ac ar ôl ysgol i'r rheiny sydd methu cael eu rhyddhau yn ystod y diwrnod ysgol.<br><br>• Cynulleidfa sydd wedi cofrestru ar ddigwyddiadau | | Dealltwriaeth well o'r cwricwlwm a mwy o enghreifftiau esboniadol a modelau cwricwlwm sy'n cynnwys profiadau addysgu a dysgu o ansawdd uchel.<br><br>Cynnig dysgu proffesiynol o ansawdd uchel sy'n cynnig cymorth craidd ar draws y broses ddiwygio ac sy'n ddigon hyblyg i gwrdd ag anghenion ysgolion unigol a chlystyrau.<br><br>Yr holl glystyrau'n parhau i gyfranogi'n llawn ar bob lefel yn natblygiadau cwricwlwm y consortia, er mwyn i bob ysgol ddatblygu'r cwricwlwm ar draws y continwwm o 3-16.<br><br>Mwy o ysgolion yn adrodd cynnydd yn erbyn y meini prawf llwyddo, gan gynnwys canlyniadau gwell ar gyfer dysgwyr.<br><br>Cyfres o Fforymau rhanbarthol yn datblygu ac yn aeddfedu ar draws y 6 MDaPh i gefnogi ysgolion a phartneriaid wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd | Mae gan bob ysgol fynediad at wybodaeth am ddatblygiadau'r cwricwlwm.<br><br>Mae cynigion y 53 clwstwr i ddatblygu ymwybyddiaeth am y cwricwlwm, ar waith. Meini prawf llwyddiant: Amcanion cytûn tryloyw i wella deilliannau i ddysgwyr; Nifer cynyddol o staff yn ymwybodol o ddatblygiadau'r cwricwlwm newydd; Nifer cynyddol o staff ysgolion yn cydweithio; Nifer cynyddol o gyfleoedd i gynllunio a pharatoi ar gyfer y continwwm dysgu 3-16 oed; Darparu cyfleoedd i athrawon fyfyrio ac arloesi gyda dulliau addysgegol. Mae'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn parhau i gefnogi'r gwaith wrth i'r ysgolion weithio drwy'r cynlluniau hyn.<br><br>Mae cynnig proffesiynol GwE yn gynhwysfawr ac eang, gan ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff ysgolion. Cynlluniwyd cynnig proffesiynol GwE gyda datblygiad yr unigolion sydd ar lawr y dosbarth mewn golwg, tra bodlonir hefyd agweddau ar ysgol gyfan, cefnogi clystyrau o ysgolion ac ymateb i anghenion ALl. Drwy waith y cwricwlwm, mae nifer cynyddol o | | - Cyfrwng Cymraeg<br>- Asesu<br>- Gwerthuso ysgol ac ysgol<br><br>Y tîm cyfan<br><br>Y tîm cyfan | Parhaus<br><br>Parhaus | Cymorth ar gyfer Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm Newydd<br><br>Cymorth ar gyfer Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm Newydd |

# Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
# Adroddiad Monitro Chwarter 2 (1 Gorffennaf 2019 – 30 Medi 2019)



| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| gynllunio dysgu ym mhob MDaPh.<br>- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>- Mathemateg a Rhifedd<br>- Gwyddoniaeth a Thechnoleg<br>- Dyniaethau<br>- Iechyd a Lles<br>- Y Celfyddydau Mynegiannol<br><br>Ym mhob MDAPH, ystyried:<br>- Arweinyddiaeth a datblygu cyfleoedd Dysgu Proffesiynol i arweinwyr MDaPh<br>- Cydweithio a Gweithio mewn Partneriaeth<br>- Gweithio â chorff Cymwysterau Cymru i ymgynghori ar gymwysterau'r cwricwlwm newydd<br><br>Parhau i roi cymorth i bob ysgol drwy:<br>- Gerrig milltir tymhorol ar gyfer G6<br>- Cyflwyno cyfres o fodelau a chanllawiau a diweddaru ysgolion yn rheolaidd er mwyn | - Penaethiaid; Uwch arweinwyr; Arweinwyr Cwricwlwm; Athrawon; Cymorthyddion; Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant; Cydweithwyr o'r Awdurdod Lleol<br><br>• 2 x sesiwn hanner diwrnod i athrawon ac arweinwyr ysgolion bach, h.y. y rheiny sy'n addysgu un cyfnod allweddol yn yr un dosbarth<br><br>• Gweithio gyda chydweithwyr yr ALl i gyflwyno'n lleol i Lywodraethwyr ac Aelodau Lleol.<br><br>Bu datblygu'r G6 yn help i gefnogi ysgolion wrth iddynt feddwl am baratoi ar gyfer yr agenda drawsnewid barhaus. Rhydd gyfeiriad clir hefyd ar sut y bydd GwE yn gweithio mewn | | Cyfres o ganllawiau ac enghreifftiau o fodelau MDaPh ar gael i'w trafod yn yr ysgolion, fel rhan o'u paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd.<br><br>Mwy o gydweithio mewn partneriaeth wedi cael ei ddatblygu ar draws y rhanbarth.<br><br>Bron pob ysgol yn adrodd eu bod 'ar drac' gyda'r modiwl CIG ar G6.<br><br>Canllawiau ac adnoddau pwrpasol wedi eu datblygu, i | glystyrau wedi adnabod a gofyn am ddysgu proffesiynol penodol i ddiwallu eu hanghenion. Yn ôl y sylwadau, gwelir bod y dull gweithredu lleol hwn at ddysgu'n broffesiynol yn cael ei groesawu, a bod arwyddion cynnar o effaith gadarnhaol ar iaith gyffredin ar gyfer dysgu ac addysgu.<br><br>Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth gadarn yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant o'u hysgolion, ar anghenion clystyrau penodol, dyheadau'r AauLl a blaenoriaethau cenedlaethol.<br><br>Mae egwyddorion Dyfodol Llwyddiannus wedi'u gwreiddio yn yr holl hyfforddiant, ac mae pedwar diben y cwricwlwm yn allweddol wrth i ddarparwyr fynd ati i gynllunio hyfforddiant perthnasol, cyfoes a heriol.<br><br>Mae cyfarfodydd tîm misol yn parhau i ddarparu cyfleoedd pwysig i'r tîm llawn rannu diweddariadau a datblygu negeseuon cyson ar lwyfan integredig ar draws y daith ddiwygio addysg ehangach. Ymhellach i hyn, rhennir taflenni procio ac adnoddau. | | Y tîm cyfan, i gynnwys cyfathrebu | Gwaith parhaus o Ebrill 2019 ymlaen | Cymorth ar gyfer Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm Newydd |

# Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
# Adroddiad Monitro Chwarter 2 (1 Gorffennaf 2019 – 30 Medi 2019)

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 'gwneud synnwyr', gan gynnwys enghreifftiau a modelau cwricwlwm<br>- Hwyluso cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i Ysgolion Arloesi gael rhannu eu gwaith a'u profiadau drwy amrywiol gyfryngau | dull clir a threfnus i gefnogi ysgolion i fyfyrio ar eu parodrwydd ar gyfer y cwricwlwm newydd, a'u paratoadau ar gyfer y daith ddiwygio. | | gynnwys eu defnydd ymarferol gan staff ysgol. | Datblygir yr holl adnoddau ar y cyd gan yr Arloeswyr, ac fe'u cyflwynir mewn digwyddiadau ymgysylltu a'u rhannu drwy ein system G6 sydd ar gael i bob ysgol yn y rhanbarth. | | | | |

| BLAENORIAETH 5.2 - GWELLA ANSAWDD YR ADDYSGU GAN YSTYRIED Y 12 EGWYDDOR ADDYSGEGOL (DYFODOL LLWYDDIANNUS) | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Gweithredu*** | ***Cynnydd - Chwarter 2 (Gweithredu)*** | ***RAG Ch2*** | ***Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020*** | ***Effaith - Chwarter 2 (Mesurau Cynnydd / Targedau)*** | ***RAG Ch2*** | ***Yn gyfrifol*** | ***Dyddiad targed*** | ***Proffil gwariant Ch2*** |
| Gweithredu a chwblhau Haen 2 Prosiect Ymchwil Gweithredol Rhanbarthol Asesu Ffurfiannol:<br>• 2 athro o 194 o ysgolion y rhanbarth yn cydweithio fel timau ymchwil gweithredol o 6-8 ysgol ym maes asesu ffurfiannol dan arweiniad GwE a'r ysgolion Haen 1 (27 ysgol)<br><br>Cychwyn gweithredu Haen 3 y prosiect (Medi 2019) gyda gweddill ysgolion y rhanbarth. Cydweithio fel timau ymchwil gweithredol | Bu Prosiect Ymchwil Gweithredol Asesu Ffurfiannol (GwE a Shirley Clarke) yn weithredol yn y rhanbarth ers mis Hydref 2017. Mae'r prosiect yn dod yn ei flaen yn effeithiol, ac fe'i weithredir fesul haen, gan roi egwyddorion addysgegol ar waith mewn dosbarthiadau ar sail tystiolaeth gadarn.<br><br>Cynhaliwyd hyfforddiant haen 3 yn Venue Cymru, dan arweiniad Shirley Clarke. 20-09-19. Bu 261 o athrawon o 140 o ysgolion ar draws y rhanbarth, ac maent yn rhan o'r prosiect yn 2019-20. | | Pob un o athrawon y prosiect wedi eu harfogi'n effeithiol gyda sgiliau ymchwilio, arbenigedd fel arweinwyr addysgu ac ymwybyddiaeth gref o addysgeg.<br><br>Y 12 egwyddor addysgeg ar waith yn gyson ac effeithiol ar draws ysgolion y rhanbarth sy'n cyfranogi. Seiliau cadarn yn eu lle ar gyfer cynllunio a gweithrediad Cwricwlwm i Gymru.<br>Athrawon Haen 1 a 2 yn gweithredu'n effeithiol fel arweinwyr dysgu yn eu hysgolion a thu hwnt. Ysgolion Haen 2 a 3 yn cynnal ymchwil | Mae gwaith ymchwil gweithredol arwyddocaol yn cael ei wneud mewn dosbarthiadau ar draws y rhanbarth.<br><br>Bydd adroddiad ar weithredu ac effaith Haen 2 ar gael mis Tachwedd - manylion llawn am effaith ar gael bryd hynny. Er hynny, mae canfyddiadau cynnar mewn cyfarfodydd, adroddiad ar ddata gan Brifysgol Bangor, a chyflwyniadau gwaith Haen 2, yn dangos effaith a chynnydd cadarnhaol yn ysgolion Haen 2.<br><br>Mae sylwadau'r athrawon yn gadarnhaol iawn, a gwelwyd bod y prosiect wedi cael effaith | | Arweinydd Dysgu ac Addysgu | Haen 2 Medi 2019<br><br>Haen 3 Medi 2020 | Asesu ar gyfer Dysgu |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| dan arweiniad GwE ac Ysgolion Haen 1 a 2. | Bydd Haen 2 yn dangos eu gwaith ym mis Hydref ble bydd 11 arddangosiad ar draws y rhanbarth gan athrawon Haen 3 yn cael y cyfle i weld effaith blwyddyn o waith ymchwil gweithredu ar ysgolion Haen 2. | | gweithredol yn hyderus yn eu hysgolion ac yn gwella a chysoni ansawdd addysgu yn seiliedig ar hyn. | gadarnhaol a hynny ar ansawdd yr addysgu mewn dosbarthiadau, a hefyd ar safonau lles, ac agweddau disgyblion at ddysgu. | | | | |
| Gweithredu rhaglenni OTP OLEVI (*Outstanding Teacher Programme*) gydag ysgolion uwchradd penodol. Cefnogi ysgol arweiniol i ddarparu a gweithredu'r rhaglen uchod gyda hyd at 12 ysgol ar y tro. | Cwblhawyd hyfforddiant Tymor yr Haf. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r hyfforddiant.<br><br>Cafodd yr aelodau hyfforddiant effeithiol i arbrofi efo'r addysgu yn eu dosbarthiadau, a datblygu a rhannu arferion da. | | Mesurau a holiaduron y prosiect yn dangos cynnydd ac effaith cadarnhaol<br><br>12 ysgol uwchradd ychwanegol yn datblygu a gweithredu rhaglen OTP yn llwyddiannus. | Nod y rhaglen yw datblygu unigolion i allu arwain ar ddatblygu addysgu yn eu hysgolion, ac felly:<br>• Codi safonau addysgu ymhellach o fod yn dda i ragorol<br>• Safonau addysgu yn yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn dda, o leiaf, efo nodweddion rhagorol<br>• Mae ysgolion yn rhannu hyfforddiant yn llwyddiannus, gan godi safonau'r addysgu ymhellach yn eu hysgolion eu hunain, ac yn yr ysgolion maent yn eu hyfforddi.<br>• Mwy o allu a chynhwysedd mewn ysgolion/dosbarthiadau i wella ymhellach a chynnal cynnydd<br>• Mwy o gynhwysedd ar draws y rhanbarth o ran cefnogaeth a chydweithio ysgol i ysgol | | | Medi 2019 | |

**Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20**
**Adroddiad Monitro Chwarter 2 (1 Gorffennaf 2019 – 30 Medi 2019)**

## AMCAN STRATEGOL 6: BUSNES

| BLAENORIAETH 6.1 - CYFLAWNI ADOLYGIAD O'R GYLLIDEB A'R GWEITHLU | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Gweithredu*** | ***Cynnydd - Chwarter 2 (Gweithredu)*** | ***RAG Ch2*** | ***Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020*** | ***Effaith - Chwarter 2 (Mesurau Cynnydd / Targedau)*** | ***RAG Ch2*** | ***Yn gyfrifol*** | ***Dyddiad targed*** | ***Proffil gwariant Ch2*** |
| Adolygu'r cynllun ariannol canol tymor gan sicrhau bod lefelau uchel o ddirprwyo i ysgolion yn parhau.<br><br>Cyflawni archwiliad o'r portffolio presennol o gyfrifoldebau staff.<br>Adolygu'r strwythur staffio presennol.<br><br>Cynnal adolygiad o werth am arian y cymorth gan yr awdurdod lletyol. | I'w weithredu Hydref 2019 / Gwanwyn 2020 . | | Mae'r cynllun ariannol canol tymor yn ateb yr heriau y bydd angen i'r gwasanaeth roi sylw iddynt.<br><br>Bydd y strwythur staffio newydd mewn sefyllfa well i ddarparu'r gwasanaeth o fewn y cyfyngiadau ariannol.<br><br>Sicrhau bod rôl yr awdurdod lletyol yn cael ei chytuno a'i bod yn cefnogi cyfeiriad diwygiedig y gwasanaeth. | I'w weithredu Hydref 2019 / Gwanwyn 2020. | | Rheolwr Gyfarwyddwr | Medi 2020 | |

# Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
# Adroddiad Monitro Chwarter 2 (1 Gorffennaf 2019 – 30 Medi 2019)

**Atodiad 1**

**Barn ar gynnydd**

Ar derfyn pob chwarter, mae'n ofynnol i'r deilydd penodol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y camau gweithredu a'r terfynau amser a gynhwysir yn y cynllun yn cael eu gweithredu, ddarparu adroddiad monitro chwarterol gyfer:

i. y camau gweithredu
ii. mesurau cynnydd / targed
iii. y proffil gwariant.

**Statws RAG ar gyfer yr adroddiadau monitro:**
Rhaid dangos statws RAG ar gyfer y camau gweithredu a'r mesurau cynnydd / targed sydd wedi'u hadnabod, fel y nodir isod:

| | |
|---|---|
| **GWYRDD: Ar drac** | Cam gweithredu / targed wedi'i fodloni neu mae perfformiad ar drac. |
| **MELYNGOCH: Rhannol ar drac** | Mae peryg methu â bodloni'r cam gweithredu / targed a rhaid monitro perfformiad yn fanwl trwy gydol y chwarter nesaf. |
| **COCH: Ddim ar drac** | Ni fodlonwyd y cam gweithredu / targed neu ni fydd yn cael ei fodloni. |
| **LLWYD: Ar y gweill** | Gweithredu heb ei amserlennu i gychwyn. |

**Statws RAG ar gyfer tracio proffil gwariant:**

| | |
|---|---|
| **GWYRDD** | Gwariant ar drac |
| **MELYNGOCH** | Tanwariant rhwng 10 - 15% / Gorwariant rhwng 10 - 15% |
| **COCH** | Tanwariant dros 15% / Gorwariant dros 15% |

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**27 Tachwedd 2019**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | **Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE** |
| **Pwnc:** | **Y Gymraeg mewn Addysg – Datblygu'r Gymraeg mewn Addysg yn rhanbarth Gogledd Cymru** |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Cyflwyno strategaeth '*Datblygu'r Gymraeg mewn Addysg yn rhanbarth Gogledd'* i'r Cyd-bwyllgor i'w gymeradwyo.

**2. CEFNDIR**

2.1 Lluniwyd y strategaeth hon i osod cyfeiriad ar gyfer datblygu'r Gymraeg mewn addysg yn rhanbarth Gogledd Cymru dros y dair mlynedd nesaf, yn unol â gweledigaeth Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr (2017), Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun Gweithredu 2017-21 (2017) ac Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017-21 (2017).

Mae'r ddogfen hon yn cefnogi nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru yn y polisïau uchod sef cymryd camau angenrheidiol i gynyddu'r nifer sy'n gallu siarad Cymraeg a chynyddu'r niferoedd sy'n ei siarad yn ddyddiol.

**3. MATERION I'W HYSTYRIED**

3.1 Mae cynllunio strategaeth ar gyfer Rhanbarth y Gogledd yn cynnig cryn her, gan fod amrywiaeth sylweddol o fewn y rhanbarth o'r defnydd a wneir o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu a chyfrwng cyfathrebu dyddiol o fewn ysgolion a'u cymunedau. Ceir o fewn y

rhanbarth gymysgedd ieithyddol a diwylliannol amrywiol a diddorol sy'n cwmpasu Cymry Cymraeg, dysgwyr y Gymraeg a phoblogaeth fudol sydd wedi ymuno â ni yma'n ddiweddar. Bydd y strategaeth hon ar gyfer holl ddisgyblion y rhanbarth a'u rhieni a gofalwyr, beth bynnag fo'u cefndir, a bydd yn cynnig y nod uchelgeisiol o ddod â'r Gymraeg yn rhan ganolog o fywyd pob disgybl yn y rhanbarth.

Mae'r ddogfen yn mynd i'r afael a'r her newydd a osodir i'r gyfundrefn addysg a hyfforddiant yng Nghymru gan Llywodraeth Cymru. Mae'n amlinellu bwriadau'r rhanbarth o ran cynnig cefnogaeth a chymorth ymarferol i ddisgyblion, athrawon, ysgolion ac awdurdodau lleol, ynghyd a'n partneriaid eraill ym maes addysg a hyfforddiant.

Bydd disgwyl i bob ysgol:

- datblygu gweledigaeth glir ar gyfer y Gymraeg a hyrwyddo datblygu cynlluniau ysgol gyfan er mwyn gwella profiadau dysgu a deilliannau pob dysgwr ar gyfer ymateb i strategaeth Llywodraeth Cymru *Cymraeg 2050 : Miliwn o siaradwyr*
- sicrhau fod ganddynt y cymorth priodol i lunio cynlluniau pwrpasol a chadarn ar gyfer datblygu eu darpariaeth yn y Gymraeg
- sicrhau fod yna gynllunio bwriadus i ddarparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu a defnyddio eu medrau Cymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol o fewn dibenion y cwricwlwm newydd a'r Fframwaith Siarter Iaith
- cynyddu ymwybyddiaeth o ofynion y Fframwaith Siarter Iaith
- cydweithio, dysgu a chyfnewid gwybodaeth gydag eraill drwy rwydweithiau a/neu systemau cydweithio rhwng ysgolion mewn perthynas â'r Gymraeg
- llunio rhaglen o ddysgu proffesiynol i sicrhau bod ymarferwyr yn gallu datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg yn barhaus, yn unol â'r disgwyliadau proffesiynol

## 4. ARGYMHELLION

4.1 Gofynnir i'r Cydbwyllgor gymeradwyo'r ddogfen '*Datblygu'r Gymraeg mewn Addysg yn rhanbarth Gogledd'.*

## 5.0 GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

## 6.0 EFFAITH O RAN CYDRADDOLDEB

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

## 7.0 GOBLYGIADAU PERSONÉL

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

## 8.0 YMGYNGHORI Â WNAED

8.1 Bwrdd Rheoli GwE.

Yn ogystal, cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori a chynllunio gyda:

- rhan-ddeiliaid a phartneriaid y sector addysg o fewn chwe awdurdod lleol y rhanbarth (cynghorwyr a swyddogion ALl, penaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd, Mudiad Meithrin, Urdd, Mentrau Iaith, Llywodraethwyr, canolfannau iaith hwyr ddyfodiaid, colegau addysg bellach, Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru).
- Bwrdd Strategol y Gymraeg GwE
- Uwch Swyddogion GwE
- Colegau Addysg Bellach a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Rydym hefyd yn ddiolchgar i'r Urdd am hwyluso casglu barn pobl ifanc o ardaloedd ar hyd y Gogledd, mewn clybiau a fforymau iaith gyntaf ac ail iaith.

9.0 **ATODIADAU**

9.1 Atodiad 1 – *Datblygu'r Gymraeg mewn Addysg yn rhanbarth Gogledd*

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**
Gyda rhan 5.1 o'r adroddiad uchod yn cadarnhau nad oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r eitem gerbron, 'does gen i ddim i'w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

Y Gymraeg
mewn Addysg

# Datblygu'r Gymraeg mewn Addysg yn rhanbarth Gogledd Cymru 2019 - 2022

## Drafft

DRAFT

Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

**Dogfen weithio**

Mae hon yn ddogfen weithio, a gellir ei haddasu fel y mae angen i fodloni ein blaenoriaethau.

| Fersiwn | Dyddiad | Diwygiwyd gan |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

DRAFFT

# Cynnwys

Rhagair

Cyflwyniad

Cefndir

Gweledigaeth

Amcanion a chamau gweithredu allweddol

1 Cwricwlwm , asesu ac addysgeg

2 Cyfoethogi a phrofiadau yn y Gymraeg

3 Rhagoriaeth, tegwch a lles

4 Cynllunio'r gweithlu, dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth

5 Cynllunio'n strategol i dyfu Cymraeg mewn addysg

6 Cyfathrebu ac ymgysylltu

Gweithredu'r strategaeth hon

DRAFT

# Rhagair...

## Mae'r system addysg yng Nghymru mewn cyfnod o drawsnewid, ac mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o'r diwygiadau hynny.

Lluniwyd y strategaeth hon i osod cyfeiriad ar gyfer datblygu'r Gymraeg mewn addysg yn rhanbarth Gogledd Cymru dros y dair mlynedd nesaf, yn unol â gweledigaeth Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr (2017), Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun Gweithredu 2017-21 (2017) ac Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017-21 (2017).

Cefnoga'r ddogfen hon nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru yn y polisïau uchod sef cymryd camau angenrheidiol i gynyddu'r nifer sy'n gallu siarad Cymraeg a chynyddu'r niferoedd sy'n ei siarad yn ddyddiol.

Cydnabyddir bod cynllunio ieithyddol yn rhanbarth y Gogledd o hyd yn mynd i fod yn her oherwydd y dirwedd ieithyddol amrywiol. Golyga'r demograffeg ieithyddol yma bod rhanbarth y Gogledd yn cwmpasu Cymry Cymraeg, dysgwyr y Gymraeg a phoblogaeth fudol.

Creda nifer mai addysg yw'r arf cynllunio ieithyddol mwyaf pwerus er mwyn creu defnyddwyr iaith. =Nid yn unig mae angen trosglwyddo'r iaith yn y gyfundrefn addysg, ond mae angen sicrhau bod pob disgybl yn datblygu sgiliau digonol yn y Gymraeg a fydd yn eu galluogi i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd. Yn ogystal mae angen creu amodau addas ac amgylchedd lle gall y Gymraeg a'i siaradwyr ffynnu tu hwnt i'n hysgolion.

Mae cyhoeddi'r strategaeth hon yn amserol ac yn gyffrous o ystyried paratoadau'r Cwricwlwm newydd, datblygiad proffesiynol y gweithlu addysg a'r modd yr ydym yn cefnogi ein dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn sgil y newidiadau i Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yr awdurdodau, bydd y strategaeth hon hefyd yn cefnogi ac atgyfnerthu'r cynlluniau hyn.

Mae angen sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i'r diwygiadau addysgol hyn. Un o nodau ac amcanion y Cwricwlwm yw datblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gwella addysgu a dysgu Cymraeg i bob disgybl. Atgyfnertha'r strategaeth hon y weledigaeth honno.

Cyfeiria'r strategaeth hon nid yn unig at y cwricwlwm ac addysgeg ond tuag at gyfoethogi profiadau yn y Gymraeg ynghyd â rhagoriaeth, tegwch a lles. Er mwyn cynnal y weledigaeth hon mae'r strategaeth yn gosod cyfeiriad ar gyfer cynllunio'r gweithlu a chynllunio'n strategol i ddatblygu Cymraeg mewn addysg ymhellach.

Bydd mynd i'r afael â'r her hon, tra'n adeiladu ar lwyddiant rhanbarth y Gogledd, yn gofyn am weledigaeth a chynllun gweithredu mae pob awdurdod yn gytûn ag ef ac yn ei weithredu i'r safon uchaf.

Mae dyletswydd ar gyfundrefn addysg y Gogledd i gyfrannu at greu a chynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg rhugl a hyderus sydd â chyfalaf diwylliannol a chymdeithasol cyfoethog. Bydd y strategaeth hon yn offeryn cynllunio ieithyddol fydd yn cyfrannu i greu:



DRAFT

- Cymru/rhanbarth lle gall pobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd

- Cymru/rhanbarth â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

- dinasyddion egwyddorol sy'n medru defnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn eu bywydau bob dydd

- dysgwyr, bydd wedi dysgu am hunaniaeth a diwylliant drwy ieithoedd, i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd.

Er lles y dysgwyr, mae Cyd-bwyllgor GwE yn croesawu'r strategaeth ar gyfer Datblygu'r Gymraeg mewn Addysg yn rhanbarth Gogledd Cymru.

DRAFFT

# Rhagair

Mae'r ddogfen hon yn mynd i'r afael â'r her newydd a osodir i'r gyfundrefn addysg a hyfforddiant yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru. Mae'r strategaeth yn amlinellu bwriadau'r rhanbarth o ran cynnig cefnogaeth a chymorth ymarferol i ddisgyblion, athrawon, ysgolion ac awdurdodau lleol, ynghyd â'n partneriaid eraill ym maes addysg a hyfforddiant. Drwy wneud hyn, gellir cymryd y camau angenrheidiol i gefnogi nod polisi'r Llywodraeth dros y degawdau nesaf o sicrhau cynnydd yn y niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg a chynyddu'r niferoedd sy'n ei siarad pob dydd.

Ffrwyth cyfres o gyfarfodydd i gynllunio'r strategaeth yw cynnwys y ddogfen hon. Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori a chynllunio gyda:

- rhan-ddeiliaid a phartneriaid y sector addysg o fewn chwe awdurdod lleol y rhanbarth (cynghorwyr a swyddogion ALl, penaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd, Mudiad Meithrin, Urdd, Mentrau Iaith, Llywodraethwyr, canolfannau iaith hwyr ddyfodiaid, colegau addysg bellach, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru).
- Bwrdd Strategol y Gymraeg GwE
- uwch swyddogion GwE
- colegau Addysg Bellach a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Rydym hefyd yn ddiolchgar i'r Urdd am hwyluso casglu barn pobl ifanc o ardaloedd ar hyd y Gogledd, mewn clybiau a fforymau iaith gyntaf ac ail iaith.

Mae cynllunio strategaeth ar gyfer Rhanbarth y Gogledd yn cynnig cryn her, gan fod amrywiaeth sylweddol o fewn y rhanbarth o'r defnydd a wneir o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu a chyfrwng cyfathrebu dyddiol o fewn ysgolion a'u cymunedau. Ceir o fewn y rhanbarth gymysgedd ieithyddol a diwylliannol amrywiol a  diddorol sy'n cwmpasu Cymry Cymraeg, dysgwyr y Gymraeg a phoblogaeth fudol sydd wedi ymuno â ni yma'n ddiweddar. Bydd y strategaeth hon ar gyfer holl ddisgyblion y rhanbarth a'u rhieni a gofalwyr, beth bynnag fo'u cefndir, a bydd yn cynnig y nod uchelgeisiol o ddod â'r Gymraeg yn rhan ganolog o fywyd pob disgybl yn y rhanbarth.

DRAFT

# Cyflwyniad

Prif nod y strategaeth hon, yn unol â nod Llywodraeth Cymru o gynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg, yw cefnogi'r broses o gynllunio i ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg o fewn y gyfundrefn addysg yn Rhanbarth Gogledd Cymru. Dros y blynyddoedd nesaf, bydd pob Awdurdod Lleol ar draws Gogledd Cymru yn cydweithio i weithredu ar yr amcanion a geir yng Nghynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) pob awdurdod lleol. Bwriad y strategaeth hon yw cefnogi at atgyfnerthu'r cynlluniau yma. Bydd yr Awdurdodau Lleol yn defnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt am ysgolion i hwyluso'r broses o gynllunio'n strategol ac i rannu arferion effeithiol wrth gynllunio i gynyddu defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg.

Sefydlwyd Bwrdd Strategol y Gymraeg dan arweiniad Consortiwm GwE er mwyn arwain, cydlynu a rheoli maes y Gymraeg mewn addysg yn rhanbarthol. Mae aelodaeth graidd y Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r canlynol: GwE, Arweinwyr y Gymraeg yr Awdurdodau Lleol, Bwrdd Ymgynghorol GwE, Cydbwyllgor GwE, ac ysgolion. Bydd y gwaith o gydgynllunio ar draws y rhanbarth yn cael ei wneud gan Fwrdd Rheoli Consortiwm GwE. Yna mi fydd yn cael ei gytuno gan Gydbwyllgor traws sirol sy'n cynnwys yr aelodau etholedig o bob Awdurdod Lleol sydd â chyfrifoldeb penodol am addysg. Bydd y paratoadau yn cael eu cynllunio gyda'r bwriad o wneud y gorau y gallwn gyda'r adnoddau sydd ar gael i sicrhau bod y ddarpariaeth ieithyddol a gynllunnir yn ymateb i'r anghenion a'r sefyllfaoedd ieithyddol amrywiol sy'n bodoli ar draws y rhanbarth. Bwriedir cydweithio'n agos hefyd gyda nifer o asiantaethau eraill ar draws Rhanbarth y Gogledd sy'n cefnogi'r gwaith o ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg.

# Cefndir

Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth ddiweddaraf ar gyfer y Gymraeg, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.* Prif neges y strategaeth hon yw nodi penderfyniad polisi'r Llywodraeth i gynyddu'n sylweddol y nifer o bobl yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n ei defnyddio yn ddyddiol a hynny er mwyn cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Yn *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr* a *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017-21* mae'r Llywodraeth yn amlinellu'r camau ymarferol y bydd yn eu cymryd er mwyn cyrraedd y nod. Yn ogystal â sicrhau miliwn o siaradwyr, mae'r Llywodraeth yn nodi'n glir ei bwriad i gynyddu'r ganran o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, **o 10% ar hyn o bryd, i 20%** o'r boblogaeth erbyn 2050.

Mae hon yn strategaeth uchelgeisiol a bydd yn gofyn am ymdrech a dyfalbarhad i'w gweithredu. Ond mae'r weledigaeth yn un sy'n gallu ysbrydoli ac ymegnio pawb sydd yn


DRAFT

dymuno gweld y Gymraeg a dwyieithrwydd yn ffynnu. Yn ganolog i'r weledigaeth newydd hon, mae ein  cyfundrefn addysg. Ar hyn o bryd, mae dau o bob tri phlentyn sy'n cael ei ystyried yn siaradwr rhugl y Gymraeg yn dysgu'r iaith o fewn y gyfundrefn addysg. Bydd y niferoedd sy'n gwneud hyn yn gorfod cynyddu os ydym am gyrraedd y nod o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd yr her, wrth gwrs, yn amrywio ar draws Cymru, ac yn arbennig felly yn Rhanbarth Gogledd Cymru lle ceir mewn mannau y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Yma, ceir cryn wahaniaeth yn y niferoedd o ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu'n Gymraeg neu'n ddwyieithog o fewn ysgolion siroedd y rhanbarth. Ond yr un fydd yr her yn gyffredinol, sef sicrhau fod cynnydd yn y nifer o ddisgyblion sy'n gallu siarad Cymraeg a sy'n gwneud mwy o ddefnydd ohoni.

Mae Rhanbarth  y Gogledd yn croesawu'r her hon a osodir gan Lywodraeth Cymru i sicrhau fod llawer iawn mwy o blant a phobl ifanc y Rhanbarth yn cael cyfle i ddod un ai'n rhugl ddwyieithog, neu fod ganddynt lawer iawn mwy o afael ar y Gymraeg. Mae arferion llwyddiannus yn bodoli eisoes o fewn y rhanbarth ac rydym mewn sefyllfa dda i rannu'r arferion hynny ar draws pob awdurdod lleol.

Law yn llaw â'r targedau a osodir yn *Cymraeg 2050* gan Lywodraeth Cymru***,*** mae'r ddogfen *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl* yn cyflwyno'r cynlluniau sydd ar droed hefyd i ddatblygu cwricwlwm newydd ar gyfer pob disgybl yng Nghymru. Bydd y cwricwlwm newydd hwn yn sicrhau bod pob dysgwr yn elwa o ddilyn cwricwlwm sydd o'r safon uchaf posibl. Caiff pob disgybl y cyfle i  fwynhau dysgu ac elwa o addysgu sy'n ei ysbrydoli i lwyddo. Bydd hyn oll yn digwydd mewn cymuned addysg arloesol a bydd arweiniad a rheolaeth ysbrydoledig ac effeithiol yn nodwedd amlwg o'r cwricwlwm newydd. Mae datblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gwella addysgu a dysgu Cymraeg i bob dysgwr o reidrwydd wrth wraidd y diwygiadau hyn.

# Gweledigaeth

Wrth lunio strategaeth a fydd yn datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg o fewn cwricwlwm pob ysgol, ein nod yw rhoi anghenion y disgybl fel canolbwynt i'r strategaeth. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle gorau i'r holl ddisgyblion o fewn ein rhanbarth  ddod mor rhugl yn y Gymraeg ag sy'n bosibl erbyn iddynt adael yr ysgol. Drwy rhoi'r disgybl ynghanol y weledigaeth hon, rydym yn tanlinellu'r manteision i bob disgybl o fedru siarad Cymraeg a manteision bod yn ddwyieithog yn y Gymru gyfoes.

Wrth ddechrau gyda'r plentyn yn y canol bydd y strategaeth yn ystyried:

- y cyfleodd sydd ar gael i bob disgybl ddatblygu ei sgiliau ieithyddol;
- dulliau o ddefnyddio'r cwricwlwm newydd i hyrwyddo'r broses o gynyddu lefelau rhuglder yn y Gymraeg a'r Saesneg;



DRAFT

- datblygu sgiliau ieithyddol, gallu ac ansawdd y gweithlu addysg i ddysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg.
- datblygu dulliau dysgu effeithiol sy’n cynyddu lefelau hyder a rhuglder pob plentyn a’u gwneud yn gyffyrddus wrth ddefnyddio’r ddwy iaith;
- creu cyd-destunau mewn ysgolion sy’n rhoi pwrpas a gwerth i siarad Cymraeg;
- cynnwys rhieni a gofalwyr yn y broses hon o ddysgu a defnyddio’r Gymraeg ar draws rhanbarth y Gogledd; a
- defnyddio’r dulliau gorau o nodi a hyrwyddo manteision dwyieithrwydd a’r gallu i siarad Cymraeg ym meysydd hyfforddiant ac yn y gweithle.

Wrth geisio ateb anghenion ieithyddol pobl ifanc o fewn y rhanbarth, bydd rhaid i’r holl strwythurau ac asiantaethau sy’n ymwneud â phob person ifanc gydweithio wrth gefnogi’r weledigaeth hon. Er mwyn gwneud y profiad o fod yn gallu siarad dwy iaith neu fwy yn brofiad ystyrlon, bydd yn rhaid cyfuno agweddau ar y ddarpariaeth gwricwlaidd â gweithgareddau y tu allan i’r cylch meithrin, ysgol a choleg addysg bellach o fewn y gymuned ac yn y cartref. Bydd hi’n bwysig felly cynnwys holl elfennau bywyd plant a phobl ifanc o fewn ein strategaeth.

Wrth lunio’r strategaeth gynhwysfawr hon bydd yr egwyddorion canlynol hefyd yn gosod seilwaith cadarn i’n gwaith.

- Cydnabod a gwerthfawrogi bod addysgu a dysgu’r Gymraeg yn rhan annatod o system addysgu Cymru o’r blynyddoedd cynnar hyd at ddarpariaeth ôl-orfodol.
- Bod cynllunio cynhwysol yn digwydd er mwyn sicrhau fod plant a phobl ifanc rhwng 3-19 oed yn cael yr addysg orau posibl gan sefydliadau sy’n dysgu ac yn cydweithio’n barhaus.
- Cydnabod a gwerthfawrogi yr amrywiaeth o ran dwysedd siaradwyr Cymraeg a chategorïau ysgolion sydd yn bodoli ar draws y rhanbarth a’r man cychwyn gwahanol ar gyfer gwahanol ardaloedd wrth ddatblygu’r Gymraeg mewn Addysg.
- Sefydlu cydweithio rhwng sefydliadau addysgol sy’n cynnwys ystod oedran a chyfrwng addysg, ar lefel leol a rhanbarthol, i gyfoethogi profiadau ieithyddol a diwylliannol yn y Gymraeg o fewn a thu hwnt i’r cwricwlwm newydd.
- Drwy’r cwricwlwm newydd bydd pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog sy’n gallu cyfathrebu’n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, a thrwy lwyfannau digidol, drwy’r Gymraeg a’r Saesneg.
- Bod dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn atgyfnerthu’r broses o ddysgu’r Gymraeg ac yn galluogi plant a phobl ifanc i ddatblygu eu hyder i ddefnyddio’r iaith mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau.
- Wrth ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg a’r Saesneg, gall plant a phobl ifanc ddatblygu sylfaen ar gyfer dysgu ieithoedd ychwanegol, yn barod i fod yn ddinasyddion ar gyfer Cymru a’r byd.

- Bod pob ymarferydd, arweinydd a llywodraethwr yn datblygu ei sgiliau Cymraeg a hefyd ei ddealltwriaeth ehangach o'r Gymraeg a'i chyd-destun hanesyddol a diwylliannol.
- Bod ymchwil i gaffael iaith, dwyieithrwydd ac addysgu Cymraeg effeithiol yn sail i sicrhau'r arferion addysgu a dysgu gorau posibl.
- Sicrhau bod nifer angenrheidiol o athrawon a chynorthwywyr addysgu i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg, a bod sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr mewn ysgolion yn cael eu datblygu er mwyn gwella addysgu a dysgu Cymraeg i pob dysgwr.
- Sicrhau dilyniant cadarn rhwng gwahanol gyfnodau addysg gan hyrwyddo'r Gymraeg o'r cylch meithrin, i'r ysgol, ac yna ymlaen i'r cyfnod ôl-orfodol gan gydweithio gyda'r asiantaethau a'r darparwyr perthnasol wrth wneud hynny

# Amcanion a chamau gweithredu allweddol

Er mwyn cyflawni ein hamcanion, rydym wedi adnabod chwe maes gweithredu. Dyma'r meysydd sy'n llywio ein gwaith ym maes y Gymraeg mewn addysg dros y tair blynedd nesaf. Bydd Bwrdd Strategol y Gymraeg yn gosod cyfeiriad strategol i gefnogi'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod yr Awdurdodau a'r Rhanbarth yn ymateb i, ac yn adlewyrchu cyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru. Bydd cynlluniau gwaith gydag amserlen glir yn cael eu datblygu gan bartneriaid gweithdrefn addysg rhanbarth y Gogledd  er mwyn cyflawni'r amcanion hyn mewn modd sy'n cwrdd â'u gofynion penodol eu hunain.

## 1 Cwricwlwm, asesu ac addysgeg

**Ein nod yw sicrhau addysgu a dysgu ysbrydoledig er mwyn i bob disgybl yn y rhanbarth allu dod yn siaradwr Cymraeg hyderus sy'n gallu defnyddio'r iaith yn ei b/fywyd bob dydd a gweld gwerth yn y Gymraeg.**

Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- cynnal a gwella safonau plant a phobl ifanc yn y Gymraeg ar draws y rhanbarth
- cefnogi'r holl weithlu addysg i fod yn gyfarwydd â gofynion y cwricwlwm Newydd a datblygu cwricwlwm sy'n addas ar gyfer disgyblion yng nghyd-destun y lleoliad addysg gan blethu'r Gymraeg a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg i holl themâu'r cwricwlwm newydd
- sicrhau dulliau effeithiol o asesu a chofnodi cynnydd ffurfiannol a chrynodol sy'n annog addysgu a dysgu o safon uwch ac yn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd a'r dulliau o gyflwyno ac asesu'r Gymraeg

- cysylltu dulliau addysgu Cymraeg a thrwy'r Gymraeg â'r dulliau dysgu ac addysgu mwyaf arloesol gan fanteisio ar yr holl ehangder o gyfleoedd i gyfathrebu a chael mynediad i wybodaeth trwy ddulliau digidol a thechnolegol
- adnabod y dulliau mwyaf effeithiol o gaffael iaith a datblygu addysg drochi yn y Gymraeg (sy'n cwmpasu trochi cynnar, canolig a hwyr gan gynnwys hwyrddyfodiaid i addysg Gymraeg) a sicrhau gwell dealltwriaeth ymysg y gweithlu addysg o'r dulliau mwyaf priodol o gyflwyno addysg drochi gan ystyried bod disgyblion o fewn y rhanbarth yn gallu dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau
- manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan y cwricwlwm newydd i gynyddu'r defnydd o dechnoleg wrth addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg
- sicrhau mabwysiadu a gweithredu ethos ac awyrgylch Gymraeg a Chymreig ym mhob sector ar draws y rhanbarth a phlethu'r Fframwaith Siarter Iaith gyda phedwar diben y cwricwlwm newydd.

## 2 Cyfoethogi a phrofiadau yn y Gymraeg

**Mae angen i blant a phobl ifanc gael profiadau eang o gysylltu â'r Gymraeg os ydynt am weld y Gymraeg fel iaith bob dydd. Felly mae'n rhaid cynyddu arferion defnydd iaith o oedran cynnar fel rhan o'u bywydau cyflawn. Daw'r cwricwlwm newydd â chyfleoedd i roi rhagor o bwyslais ar yr elfen hon.**

Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- mapio gwaith prif asiantaethau a chymdeithasau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg er mwyn ehangu'n strategol y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu fewn a thu allan i'r lleoliad addysgu
- cyd-weithio i ddarparu arweiniad strategol yn rhanbarthol a lleol rhwng darparwyr addysg a'r asiantaethau iaith, cymdeithasau a grwpiau cymunedol sy'n cwmpasu'r cyfnod cyn-ysgol, ysgol ac addysg bellach ac uwch, ynghyd â chyrff nad ydynt yn gyrff addysgol fel y cyfryw ond sy'n cynnig ystod o brofiadau da i bobl ifanc o ran y Gymraeg
- sicrhau fod y Fframwaith Siarter Iaith (Siarter Iaith / Cymraeg Campus) yn cael ei blethu gyda phedwar diben y cwricwlwm newydd er mwyn llwyddo i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg tu allan i'r dosbarth ac yn y gymuned ehangach fel dull effeithiol o godi hyder ac ehangu awydd plant a phobl ifanc o bob oed ar draws y rhanbarth i ddefnyddio'r iaith
- cynllunio a darparu gwaith ieuenctid fel bod dysgwyr yn gallu manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio a datblygu sgiliau Cymraeg y tu allan i sefydliadau addysgol
- gwneud defnydd effeithiol o'r cyfryngau a chyfryngau cymdeithasol i gyfeirio plant a phobl ifanc a'u teuluoedd at gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg



DRAFT

## 3 Rhagoriaeth, tegwch a lles

**I blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn gosod dyletswyddau ar gyrff cyfrifol o fewn y rhanbarth. O ran y Gymraeg, rhaid sicrhau fod pob person ifanc yn cael mynediad cyfartal i'r profiad o ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg a bod cynllunio llawn a chyson yn digwydd i sicrhau hynny.**

Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- sicrhau bod ymarferwyr a'r gweithlu addysg ehangach yn gallu cael mynediad i gymorth ac adnoddau yn y Gymraeg er mwyn helpu'r dysgwyr efo anghenion dysgu ychwanegol, y rhai sydd fwyaf agored i niwed a'r rhai mwyaf talentog i gyflawni eu potensial
- cynorthwyo gweithwyr a gofalwyr yn y maes addysg anghenion dysgu ychwanegol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol eu bod yn byw yng Nghymru ac yn rhan o gymuned Gymreig
- hybu arferion defnydd o'r Gymraeg sy'n effeithiol ar draws y rhanbarth, er mwyn lleihau dyblygu gwaith a sicrhau ansawdd (yn benodol o fewn y prif lif)

## 4 Cynllunio'r gweithlu, dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth

**Rhaid cael arweinwyr ac ymarferwyr o'r radd flaenaf sy'n meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i ddarparu cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Gymraeg fel pwnc ac sy'n parhau i ddysgu trwy gydol eu gyrfa.**

Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- defnyddio data gweithlu i sefydlu gwaelodlin gadarn ac amlinellu'r potensial am dwf o ran y ddarpariaeth Gymraeg yn seiliedig ar y data a gasglwyd
- cydweithio rhwng ysgolion, ALl a GwE i adnabod anghenion staffio ac anghenion dysgu proffesiynol sy'n cyfateb â'r gofynion o ran cynyddu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a dysgu'r Gymraeg fel iaith yn fwy effeithiol boed yn ffurfiol ac yn anffurfiol
- cynllunio a gweithredu cynllun datblygu dysgu proffesiynol ar gyfer pob agwedd o'r gweithlu addysg er mwyn cynyddu a chryfhau'r sgiliau sy'n gysylltiedig â darparu addysg effeithiol yn y Gymraeg

- mewn partneriaeth gyda darparwyr addysg gychwynnol athrawon a Llywodraeth Cymru, cynyddu'r nifer o fewn y gweithlu addysg sy'n gallu dysgu trwy'r Gymraeg a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob cyfnod addysg o 3 i 19 oed
- cynnig rhagor o gefnogaeth i athrawon sy'n addysgu'r Gymraeg tu allan i'r sector cyfrwng Cymraeg presennol a chynllunio sut y gellir ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector honno
- sicrhau bod arweinwyr ar bob lefel (e.e. penaethiaid, tîm rheoli, llywodraethwyr) yn gefnogol i ddwyieithrwydd a disgwyliadau ar gyfer y Gymraeg o fewn cyd-destun y lleoliadau addysg yr ydynt yn gyfrifol amdanynt. Cydweithio gyda'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod rhaglenni arweinyddiaeth yn cynnwys modiwlau ymwybyddiaeth iaith, deall dwyieithrwydd a chaffael iaith yn ogystal â chynyddu'r ddarpariaeth o hyfforddiant i arweinwyr trwy gyfrwng y Gymraeg
- cydweithio gyda darparwyr Addysg Gychwynnol Athrawon, Llywodraeth Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynllunio'r gweithlu a denu rhagor o athrawon dwyieithog i'r proffesiwn dysgu gan ddarparu hyfforddiant ieithyddol pan fo hynny'n briodol

## 5 Cynllunio'n strategol i dyfu Cymraeg mewn Addysg

**Er mwyn tyfu'r niferoedd o blant a phobl ifanc sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg, bydd rhaid cynllunio'n strategol i gynyddu'n sylweddol y nifer sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ac yn datblygu a gwella'u sgiliau yn y Gymraeg. Bydd ein hawdurdodau lleol yn allweddol wrth sicrhau dull cydlynol o gynllunio'r ddarpariaeth Gymraeg mewn addysg gan gydweithio gyda ystod eang o ran-ddeiliad lleol eraill.**

Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- sicrhau bod y ddarpariaeth Gymraeg yn cael ei chynnal a'i chryfhau yn ardaloedd y rhanbarth ble ceir niferoedd a chanrannau uchel o siaradwyr Cymraeg
- adnabod y potensial i dyfu'r ddarpariaeth Gymraeg ar draws y rhanbarth a rhaeadru arferion llwyddiannus er mwyn cynyddu'r gefnogaeth i'r twf arfaethedig'
- sicrhau fod cynlluniau strategol rhanbarthol yn cefnogi a chyfrannu i wireddu blaenoriaethau a thargedau o fewn Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg pob awdurdod yn y rhanbarth
- cydweithio gyda phartneriaid allweddol i sicrhau fod dilyniant ieithyddol yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad a phynciau a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg o 3 – 19


DRAFT

- sicrhau bod adnoddau, arbenigeddau ac arferion da yn cael eu rhaeadru ar draws y pedwar consortiwm addysg
- plethu'r Gymraeg gyda holl elfennau'r daith ddiwygio




## 6 Cyfathrebu ac ymgysylltu

**Gweithredu i sicrhau fod pob rhan-ddeiliad yn cael ei gynnwys wrth ddatblygu'r Gymraeg mewn addysg gyda'r nod o gynnwys plant a phobl ifanc eu rhieni/gofalwyr a llywodraethwyr yn ogystal â'r gweithlu addysg i fod yn rhan o'r daith gyffrous ar gyfer datblygu Cymraeg mewn addysg ac addysg cyfrwng Cymraeg o fewn ein rhanbarth.**

Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- sicrhau bod strategaeth gyfathrebu glir ac effeithiol mewn lle i hybu'r Gymraeg mewn addysg ar bob lefel
- llunio a gweithredu ar gynllun cyfathrebu rhanbarthol i hyrwyddo dwyieithrwydd a rhannu gwybodaeth am y manteision addysgol, gwybyddol, economaidd a diwylliannol o fod yn ddwyieithog ac amlieithog
- gweithio'n barhaus gydag arweinwyr ar bob lefel i'w hyfforddi sut i gyflwyno manteision y cwricwlwm Cymraeg neu ddwyieithog a sut mae darbwyllo rhieni a llywodraethwyr o'r manteision hynny
- gwneud defnydd effeithiol o'r cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth rhan-ddeiliaid am y Gymraeg mewn Addysg
- codi ymwybyddiaeth y gweithlu addysg am y Daith Ddiwygio a disgwyliadau Estyn, am ofynion y safonau o ran y Gymraeg, ymrwymiadau'r CSGA lleol ac amcanion Llywodraeth Cymru yn ei dogfen *Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017-21*

# Gweithredu’r strategaeth hon

Yn rhanbarth y Gogledd, byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â holl ran-ddeiliaid y gyfundrefn addysg i weithredu’r strategaeth hon. Gyda’r Awdurdodau Lleol y mae’r cyfrifoldeb statudol am y Gymraeg mewn Addysg ac mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) pob awdurdod yn nodi eu blaenoriaethau ac amcanion. Bydd yr awdurdodau lleol yn ymgynghori â'r consortiwm rhanbarthol wrth ddatblygu eu CSGAu. Prif ddyletswydd GwE yw cyflawni swyddogaethau statudol y chwe Awdurdod Lleol yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion. Yn y cyd-destun hwn, bydd Consortiwm Rhanbarthol GwE yn cydweithio gyda’r Awdurdodau Lleol i wireddu uchelgais Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) pob awdurdod yn unol â blaenoriaethau'r Llywodraeth.

Nid yw cynyddu'r ddarpariaeth o ran cynyddu’r niferoedd sy’n cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ynddo'i hun yn mynd i drawsnewid y sefyllfa ieithyddol yng Nghymru. Er mwyn sicrhau'r newid angenrheidiol bydd rhaid, drwy waith GwE, yr awdurdodau lleol a’r partneiriad eraill, sicrhau fod y safonau, y dulliau a’r deunyddiau gorau posibl ar gael o ran dysgu’r Gymraeg fel pwnc a defnyddio’r Gymraeg fel cyfrwng. Bydd y Rhanbarth yn parhau i gefnogi’n gryf yr egwyddor o gydweithio rhwng ysgolion ac ar draws awdurdodau lleol er mwyn rhannu arbenigedd gan gymell yn gryf y model o ysgolion sy’n sefydliadau sy’n dysgu yn unol â’r bwriadau sydd wrth wraidd y cwricwlwm newydd yng Nghymru. I atgyfnerthu hyn y bwriad yw cyflwyno trefn o weithio oddi fewn clystyrau fel sydd eisoes yn digwydd gyda’r Cwricwlwm ac hefyd gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

## Awdurdodau Lleol

Rôl yr Awdurdodau Lleol fydd:

- cydweithio i weithredu ar yr amcanion a’r blaenoriaethau a geir yng Nghynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) pob awdurdod lleol unigol yn unol â blaenoriaethau’r Llywodraeth
- ymgynghori â’r consortiwm rhanbarthol wrth ddatblygu eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA)
- cydweithio efo’r ysgolion a GwE i sicrhau fod gan yr ysgol y cymorth priodol i ddatblygu eu darpariaeth yn y Gymraeg
- cydweithio efo’r ysgolion a GwE i gynyddu ymwybyddiaeth o’r Fframwaith Siarter Iaith (Siarter Iaith / Cymraeg Campus) ac i gefnogi’r gwaith hwn
- cydweithio gyda darparwyr anstatudol i sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei dysgu’n llwyddiannus mewn cyd-destun ystyrlon tu hwnt i’r ysgolion o’r blynyddoedd cynnar i’r cyfnod ôl-16
- rheoli darpariaeth lleoedd mewn ysgolion a’r mynediad atynt

## Cynlluniau ysgolion

Rôl ddisgwyliedig pob ysgol fydd ystyried yn ofalus, a gyda dyfeisgarwch, sut y gellir:

- cynyddu ac ehangu eu profiadau a darpariaeth Gymraeg, a
- galluogi dysgwyr i ddod yn ddefnyddwyr hyderus o'r Gymraeg.

Bydd cydweithio agos yn digwydd rhwng ysgolion unigol ac AALl yn y cyswllt hwn. Fel rhan o'r broses hon o gynllunio bydd ysgolion unigol yn:

- datblygu gweledigaeth glir ar gyfer y Gymraeg a hyrwyddo datblygu cynlluniau ysgol gyfan er mwyn gwella profiadau dysgu a deilliannau pob dysgwr ar gyfer ymateb i strategaeth Llywodraeth Cymru *Cymraeg 2050 : Miliwn o siaradwyr*
- cydweithio gyda'r ALl a GwE er mwyn sicrhau fod gan yr ysgol y cymorth priodol i lunio cynlluniau pwrpasol a chadarn ar gyfer datblygu eu darpariaeth yn y Gymraeg
- datblygu'r cwricwlwm newydd,~~a~~ sefydlu gwaelodlin, ac yn dilyn hynny cynllunio i godi safonau a sicrhau cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg
- sicrhau fod yna gynllunio bwriadus i ddarparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu a defnyddio eu medrau Cymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol o fewn dibenion y cwricwlwm newydd a'r Fframwaith Siarter Iaith
- cynyddu ymwybyddiaeth o ofynion y Fframwaith Siarter Iaith newydd (Siarter Iaith / Cymraeg Campus) a chynllunio i sicrhau fod cefnogaeth benodol ac arbenigol ar gael er mwyn cefnogi gwaith yn y cyd-destun hwn
- cydweithio, dysgu a chyfnewid gwybodaeth gydag eraill drwy rwydweithiau a/neu systemau cydweithio rhwng ysgolion mewn perthynas â'r Gymraeg
- llunio rhaglen o ddysgu proffesiynol i sicrhau bod ymarferwyr yn gallu datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg yn barhaus, yn unol â'r disgwyliadau proffesiynol
- sicrhau bod yr hyfforddiant iaith a ddarperir o fewn y rhanbarth yn cael effaith sylweddol ar addysg Gymraeg o fewn yr ysgol. Gellid gwneud hyn drwy edrych yn benodol ar ganran y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgolion, safon yr addysgu a chyrhaeddiad ieithyddol y disgyblion

DRAFT

## Cefnogaeth i ysgolion gan GwE

Rôl GwE fydd:

- cynnal a chodi safonau'r Gymraeg ar draws y rhanbarth

- Ar y cyd â'r ALl, cynllunio, paratoi a chynnal rhaglen strategol o ddysgu proffesiynol ar gyfer arweinyddiaeth, addysgu a staff cymorth mewn partneriaeth a rhwydweithiau lleol drwy:

- cyflogi cydlynydd i gyflwyno'r strategaeth ranbarthol y Gymraeg mewn addysg
- hyrwyddo amcanion y cynlluniau strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA)
- gweithio gyda chanolfannau AGA i adnabod a diwallu anghenion recriwtio lleol penodol
- cyflwyno rhaglen o ddysgu proffesiynol i ddatblygu sgiliau Cymraeg pob ymarferwr a methodoleg effeithiol ar gyfer addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog
- datblygu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ar draws ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn unol â'r Fframwaith Siarter Iaith (Siarter Iaith/Cymraeg Campus)

## Cefnogaeth darparwyr anstatudol

Bydd cydweithio â chyrff ac asiantaethau eraill sy'n cyflwyno'r Gymraeg, un ai yn y cyfnod cyn ysgol, y cyfnod ôl-16 neu y tu allan i gwmpas gwaith ysgolion, yn hanfodol ar gyfer sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei dysgu'n llwyddiannus mewn cyd-destun ystyrlon. Felly bwriedir:

- cydweithio â Mudiad Meithrin, i adnabod ardaloedd o dwf yn y galw a'r potensial ar gyfer addysg Gymraeg a thrwy hynny benderfynu ble mae angen cefnogi'r ddarpariaeth o ran cylchoedd ac ysgolion newydd
- sicrhau gwell dilyniant o'r sector gofal ac addysg blynyddoedd cynnar anstatudol i'r Cyfnod Sylfaen, drwy gydweithio â Mudiad Meithrin
- sicrhau gwell dilyniant ieithyddol rhwng y sector addysg statudol a'r sector ôl-16 anstatudol o ran parhau i ddysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg
- sefydlu cysylltiadau cryf rhwng ysgolion a sefydliadau addysg a hyfforddiant ôl 16 oed gan gydweithio yn agos er mwyn sicrhau fod y ddarpariaeth yn y sectorau ôl 16 oed yn medru adeiladu ar y gwaith arloesol a wneir wrth gyflwyno'r Gymraeg mewn cylchoedd meithrin ac mewn ysgolion.

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**27 Tachwedd 2019**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| **Pwnc:** | Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer dysgwyr sy'n derbyn gofal a dysgwyr a arferai dderbyn gofal |

**1.0 Pwrpas yr adroddiad**

1.1 Cyflwyno diweddariad i'r Cyd-bwyllgor ar y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer dysgwyr sy'n derbyn gofal a dysgwyr a arferai dderbyn gofal.

**2.0 Cefndir**

2.1 Pwrpas cyllid y Grant Datblygu Disgyblion yw cael effaith hirdymor ar ddeilliannau plant sy'n derbyn gofal, neu a arferai dderbyn gofal. GwE sydd yn gyfrifol am waith gweinyddu a chydlynu cyffredinol y grant.

2.2 Mae'r ddogfen ynghlwm yn amlinellu'r canllawiau ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion (PDG) i blant sy'n derbyn gofal/a arferai dderbyn gofal ar draws y rhanbarth. Caiff y ddogfen hon ei dosbarthu i uwch swyddogion, Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal y chwe awdurdod lleol, ysgolion ac uwch swyddogion GwE, yn ogystal ag aelodau'r Grŵp Strategol Rhanbarthol.

**3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Yn 2019/20, mae'r grant yn parhau i gael ei ddal yn ganolog gan y consortia addysg rhanbarthol gyda chefnogaeth y cydlynydd PMG rhanbarthol. Bydd y rhan fwyaf o'r cyllid yn

cael ei weithredu drwy gyfrwng y model clwstwr er mwyn datblygu capasiti a darparu ymyraethau penodol. Mae rhaid i'r rhain fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac effaith. Gellir defnyddio cyfran fechan o'r grant hefyd i ddarparu bwrsari unigol ar gyfer anghenion penodol dysgwyr. Mae gofyn i ysgolion gwblhau ffurflen gais y grant ar gyfer dwy elfen y cyllid a darperir arweiniad clir ar eu cyfer.

3.2 Disgwylir i glystyrau ac ysgolion fonitro ac arfarnu effaith y grant ar gyrhaeddiad addysgol/llesiant y disgyblion y mae'n gefnogi. Rhaid i anghenion y clwstwr, yr ysgol neu'r disgybl unigol fod wrth wraidd unrhyw gynnig, ac mae angen ystyried sut y gellir mesur, rhannu a chyflwyno'r effaith.

3.3 Mae pob cais clwstwr yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf clir. Cymeradwyir ac adolygir pob cais gan y grŵp rhanbarthol a'r awdurdod perthnasol.

## 4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.

## 5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.

## 6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

## 7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

## 8.0 Ymgynghori â Wnaed

8.1 Ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol (Gwasanaethau Plant ac Addysg) a Bwrdd Rheoli GwE.

## 9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1 – Canllawiau Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer dysgwyr sy'n derbyn gofal a dysgwyr a arferai dderbyn gofal

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae rhan 5.1 yn cadarnhau nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn gan fydd GwE yn gweithredu oddi fewn adnoddau'r grant, sef £970,600 yn 2019/20.

# GRANT DATBLYGU DISGYBLION AR GYFER DYSGWYR SY'N DERBYN AC ARFERAI DDERBYN GOFAL.

GwE – Canllawiau'r grant

Llywodraeth Cymru

"Pwrpas y cyllid yw dod â manteision hirdymor ar ddeilliannau i blant difreintiedig."

**GRANT DATBLYGU DISGYBLION AR GYFER DYSGWYR SY'N DERBYN GOFAL A DYSGWYR A ARFERAI DDERBYN GOFAL (3-15).**

Canllawiau'r Grant

Ebrill 2019- Mawrth 2020

1. **Cyflwyniad:**

Pwrpas cyllid y Grant Datblygu Disgyblion yw cael effaith hirdymor ar ddeilliannau plant sy'n derbyn gofal, neu a arferai dderbyn gofal. GwE, sef Consortia Addysg Gogledd Cymru, a fydd yn gyfrifol am waith gweinyddu a chydlynu cyffredinol y grant.

Bydd y ddogfen hon yn nodi canllawiau'r grant ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion (PDG) i blant sy'n derbyn gofal/a arferai dderbyn gofal ar draws y rhanbarth. Caiff y ddogfen hon ei dosbarthu i uwch swyddogion, cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal y chwe awdurdod lleol, ysgolion ac uwch swyddogion GwE, yn ogystal ag aelodau'r grŵp Strategol Rhanbarthol. Ni rennir y ddogfen hon gydag unrhyw sefydliadau nag unigolion a allai fod yn gontractwyr i'r grant.

2. **Gweledigaeth ac Amcanion GwE:**

Prif flaenoriaeth GwE yw cefnogi Awdurdodau Lleol ac Ysgolion i godi cyrhaeddiad, cyflawniad ac ymroddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal/a arferai dderbyn gofal ar draws y rhanbarth, drwy ddarparu rhaglen bartneriaeth a fydd yn:

- Cyrraedd dysgwyr, ac wrth law iddynt
- Ennyn Brwdfrydedd a Chymell
- Canoli ar y plentyn/person ifanc
- Hyblyg ac unigryw o ran cefnogaeth a darpariaeth
- Canolbwyntio ar bontio a dilyniant (Blwyddyn 6/ôl-16)
- Seiliedig ar weithio mewn partneriaeth, fel rhanbarth, ond gan roi sylw i anghenion lleol.

3. **Canllawiau:**

Yn 2019/20, bydd y grant yn parhau i gael ei ddal yn ganolog gan y consortia addysg rhanbarthol gyda chefnogaeth y cydlynydd PMG rhanbarthol. Bydd y rhan fwyaf o’r cyllid yn cael ei weithredu drwy gyfrwng y model clwstwr er mwyn datblygu capasiti a darparu ymyraethau penodol. Mae rhaid i’r rhain fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac effaith. Gellir defnyddio cyfran fechan o’r grant hefyd i ddarparu bwrsari unigol ar gyfer anghenion penodol dysgwyr. Bydd angen cwblhau ffurflen gais y grant ar gyfer dwy elfen y cyllid.

4. **Dysgwyr sy'n gymwys:**

Dysgwyr 3 i 15 oed sydd yn:

1) **Derbyn Gofal ar hyn o bryd**
2) **A arferai dderbyn gofal, ac efo'r gorchmynion llys megis** Mabwysiadu/ Gwarchodaeth Arbennig/ Trefniant Plentyn/ Preswylio

Mae’r grant yn berthnasol i’r dysgwyr hynny sydd â’u hawdurdod cartref cychwynnol o fewn rhanbarth GwE. Fodd bynnag, ar gyfer y dysgwyr hynny a addysgir mewn lleoliadau a gynhelir y tu allan i Gymru, gellid gwneud cais am y bwrsari unigol ar sail tystiolaeth ac asesiad gan gydlynydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yr awdurdod cartref.

5. **Canllawiau Llywodraeth Cymru** – Mae’r canllawiau yn nodi bydd modd i'r consortia ddatblygu a gweithredu ymyriadau sy'n cael effaith llesol **ar bob plentyn**, ond disgwylir iddynt fod yn fwy buddiol i blant sy'n derbyn gofal, neu a arferai dderbyn gofal.


**6. Arfarnu ac Mesur Effaith**

Mae disgwyl i glystyrau ac ysgolion fonitro ac arfarnu effaith y grant ar gyrhaeddiad addysgol/llesiant y disgyblion y mae’n gefnogi. Rhaid i anghenion y clwstwr, yr ysgol neu’r disgybl unigol fod wrth wraidd unrhyw gynnig, ac mae angen ystyried sut y gellir mesur, rhannu a chyflwyno’r effaith.

Am wybodaeth pellach gweler arweiniad ychwanegol ar Arfarnu a Mesur Effaith y grant.

## 7. Model cais am gyllid;

**Grant Guidance Model – LAC**




**If necessary, Regional Quality Assurance group will meet monthly to discuss new cluster applications during the initial implementation year.**



GwE

## 8. **Gofynion & Thelerau**

Bydd y grŵp rhanbarthol gyda'r awdurdod perthnasol yn adolygu ac yn cymeradwyo pob cais. Bydd pob cais clwstwr yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf canlynol:

| | Dim tystiolaeth | Tystiolaeth Foddhaol | Tystiolaeth Dda |
|---|---|---|---|
| Meini Prawf | Coch | Melyngoch | Gwyrdd |
| Rhaid i bob cais ddangos tystiolaeth o weithio fel clwstwr. | | | |
| Rhaid i bob cais ddangos tystiolaeth o ymyriadau ychwanegol nad ydynt ar gael ar hyn o bryd drwy'r ddarpariaeth statudol. | | | |
| Ni ddefnyddir y grant i gynnal na datblygu rolau statudol ac/neu ddarpariaeth megis athro dynodedig/Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal/cyllid ADY. | | | |
| Rhaid i bob ymyrraeth gefnogi deilliannau addysg gwell i'r grŵp hwn o ddysgwyr. | | | |
| Bydd angen i bob cais ddangos cynaliadwyedd tu hwnt i oes y grant. | | | |
| Ni ddyrannir cyllid i ALl/clystyrau oni bai bod systemau a chynlluniau cadarn wedi'u cytuno, a'u bod yn gyson â dull y rhanbarth. | | | |
| Rhaid i geisiadau anelu i roi sylw i o leiaf **dau** o'r amcanion/blaenoriaethau rhanbarthol isod:<br>B1 - Codi Cyrhaeddiad<br>B2 - Lleihau Gwaharddiadau<br>B3 - Targedu dull Ymyrraeth Gynnar gyda ffocws ar y cyfnodau trosglwyddo.<br>B4 – Datblygu ethos ysgol gyfan drwy godi ymwybyddiaeth o effaith ymlyniad ac trawma datblygiadol.<br>B5- Hyrwyddo ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymroi i ragoriaeth, ecwiti a llesiant.<br>B6 - Datblygu systemau diagnostig a thracio priodol<br>B7 – Cefnogi dull canolog i'r plentyn<br>B8 – Hyrwyddo llais y dysgwr yng nghyd destun ymyraethau.<br>B9 - Targedu Gofalwyr Maeth, ymroddiad rhieni o fewn y gymuned i gau'r bwlch cyrhaeddiad. | | | |

**9. <u>Canllawiau ar wneud Cais:</u>**

Bydd angen i ffurflen gais pob clwstwr ddangos y cyswllt gyda'r elfennau cyllido allweddol hyn:

| Elfennau Cyllido | Enghreifftiau |
|---|---|
| cefnogaeth a darpariaeth unigryw i ddysgwyr | Rhaid i unrhyw gefnogaeth/ymyrraeth unigol gael ei monitro a'i gwerthuso gan bob ysgol/clwstwr: Gallai adnoddau ychwanegol gynnwys:<br>• Ymyriadau ar sail unigol neu mewn grŵp bach, nad ydynt ar gael ar hyn o bryd drwy'r ddarpariaeth statudol. Gall gynnwys - addysgu ychwanegol drwy gymorth un i un mewn meysydd penodol o'r cwricwlwm a phrofion cenedlaethol, cymwysterau ychwanegol, cefnogaeth llythrennedd a rhifedd, therapi chwarae, therapi ceffylau, cwnsela ychwanegol, rheoli ymddygiad, ymyriadau dysgu i'r teulu, cyrsiau byr, therapi cerdd, cefnogaeth astudio pellach, rhyngweithio cymdeithasol a chymorth sgiliau bywyd, ymyriadau iaith a lleferydd, cymorth iechyd meddwl a lles. |
| Datblygiad Proffesiynol a Hyfforddiant | Mae'r adran hon yn cyfeirio at yr agweddau Dysgu ac Addysgu all gynnwys hyfforddiant ysgol gyfan, grwpiau o staff ac/neu unigolion targed ac allweddol. Gall yr elfen hon hefyd gynnwys yr agweddau hyfforddi ac ysgolion yn cefnogi'r naill a'r llall. Gall hyfforddiant gynnwys:<br>• ELSA<br>• Ysgolion sy'n Meithrin / Anogaeth<br>• Ymwybyddiaeth ofalgar (Mindfulness)<br>• Dull ysgol gyfan i ymlyniad / trawma datblygiadol<br>• Iechyd Meddwl ac Llesiant<br>• Dulliau anogaeth emosiynol<br>• Therapi Lego<br>• Therapi "Drawing & Talking"<br>• "Unearthing"<br>• SAP<br>• Ymgysylltu â'r rhieni maeth / teulu. |
| Adnoddau | Cyfeiria hyn at ddarnau bach o gyfarpar neu ddarpariaeth sy'n angenrheidiol i gyflawni elfen benodol. Enghreifftiau o opsiynau posibl:<br>• Canllawiau adolygu<br>• Meddalwedd cyfrifiadurol<br>• Trwyddedau i gynlluniau<br>• Pecyn adnoddau i ofalwyr<br>• Gweithgareddau/gemau |

| | |
|---|---|
| | • Deunyddiau hyfforddiant<br>• Cwricwlwm ychwanegol<br>• Lego<br>• Llyfrau |
| Cydnabyddiaeth Ariannol a Rhyddhau Staff | Ni ellir defnyddio hyn i ddisodli rolau a dyletswyddau statudol yr ysgol/ALl Er hynny, gellir ei ddefnyddio ar gyfer:<br>• Penodi staff ychwanegol i adeiladu cynhwysedd a chefnogi ymyriadau allweddol i ddysgwyr sy'n derbyn gofal - Gweithiwr Allweddol/Gweithiwr Ymgysylltu.<br>• Mentoriaid Plant sy'n Derbyn Gofal<br>• Ymyriadau Teulu<br>• Rhannu a datblygu gweithio mewn clwstwr<br>• Rhyddhau o'r dosbarth i gyflawni dyletswyddau sy'n rhan o'r project<br>• Rhyddhau athro dynodedig i gefnogi ysgolion eraill<br>• Hyfforddi aelodau staff eraill ar draws y clwstwr<br>• Ymweld ag ysgolion/clystyrau i rannu arferion da<br>• Cefnogaeth gyda phlant sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol |

## 10. Beth na fydd y grant yn gyllido:

**Cefnogaeth a darpariaeth statudol** - sef gwasanaethau presennol neu hawliau statudol e.e. Rôl Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal/Darpariaeth ADY/AAA/darpariaeth Gwasanaeth Cymdeithasol.

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**27 Tachwedd 2019**

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Pwnc:** Adolygiad o gynnydd GwE – adroddiad Steve Munby

**1.0 Pwrpas yr adroddiad**

1.1 Cyflwyno adroddiad 'Adolygiad o gynnydd GwE' gan Steve Munby 1 i'r Cyd-bwyllgor.

**2.0 Cefndir**

**2.1** Ym mis Medi 2018, adolygodd Steve Munby - ymgynghorydd addysg ar arweinyddiaeth a diwygio - arferion presennol GwE a'r cyfeiriad yr ydym yn mynd iddo. Daeth yr adroddiad i'r casgliad canlynol:

> *Mae cyfeiriad taith GwE yn hollol gywir. Mae llawer mewn lle bellach i symud pethau ymlaen gyda chadernid – arweinyddiaeth, cyfeiriad clir, diwylliant, cenhadaeth a ffocws, perthynas, hygrededd gydag ysgolion ac awdurdodau lleol, systemau, sicrhau ansawdd, data. Yn fwy na dim, rhaid i GwE beidio â cholli ei blwc (GwE should hold its nerve), a dal i wneud yr hyn mae'n wneud.*
>
> *Ar ôl y ddau ddiwrnod gyda GwE rwy'n teimlo'n gadarnhaol am y rhagolygon llwyddiant yng ngogledd Cymru, er gwaethaf yr amrywiol heriau. Mae ansawdd tîm GwE yn uchel, ac mae'r strategaethau yn drawiadol. Mae GwE yn mynd i'r cyfeiriad iawn, ac mae'r tîm yn agored i her allanol tra bo'n benderfynol o wneud y pethau iawn i ysgolion a phlant gogledd Cymru.*

2.2 Bu i Steve Munby ail ymweld â'r rhanbarth yn ddiweddar i'n cynorthwyo i werthuso'r gwasanaeth ymhellach a llunio ein cyfeiriad i'r dyfodol. Mae copi o'r adroddiad ynghlwm.

**3.0 Materion i'w hystyried**

**3.1** Er yr adolygiad diwethaf, noda Steve Munby bod cynnydd wedi'i wneud ar y naw argymhelliad. Ym Medi 2018, roedd GwE eisoes yn gwneud cynnydd cryf yn y cyfeiriad y cytunwyd arno ar gyfer y daith, ond ers hynny, mae'r cynnydd naill ai wedi cyflymu'n sylweddol neu, o leiaf, wedi mynd rhagddo yn gyson.

3.2 Adnabuwyd y meysydd o gryfder fel a ganlyn:

- **Arweinyddiaeth a diwylliant.** Mae datblygu diwylliant o fod yn agored ac yn gwrando yn amlwg iawn yn GwE. Mae Penaethiaid a rhanddeiliaid eraill yn sôn am natur hyblyg, agored ac ymatebol GwE.
- **Ymgysylltu â chymheiriaid, clystyrau ac adolygu gan gymheiriaid** Gwneir cynnydd sylweddol wrth ddatblygu effeithiolrwydd ar y cyd drwy glystyrau ysgolion.
- **Lleihau llwyth gwaith a biwrocratiaeth**. Caiff datblygiad pellach G6 effaith gadarnhaol iawn ar leihau llwyth gwaith ysgolion ac YCG.
- **Craffu** - symud at graffu sy'n fwy ymarferol, sydd a wnelo ag ysgolion unigol, a bod aelodau craffu yn ymweld ag ysgolion ac, yn wir, yn cysgodi YCG.
- Darparu **cymorth gwahaniaethol a dibynadwy** sy'n seiliedig ar angen - dull mwy ymatebol a phenodol byth o fodloni anghenion ysgolion ac awdurdodau lleol.
- Mae GwE yn rhan bwysig o helpu i sicrhau **cydlynedd** o ran amryfal bolisïau cenedlaethol, a helpu ysgolion i wneud synnwyr ohonynt ar lefel leol. Mae hyn yn arbennig o wir am y gwaith o drawsnewid ADY, a hefyd pan ddaw i gefnogi datblygiad y cwricwlwm i Gymru.

3.3 Nid oedd unrhyw agwedd ar y gwaith yr ymchwiliwyd iddo lle nad oedd unrhyw gynnydd, er bod nifer o heriau o hyd. Nodwyd yr heriau/pryderon fel a ganlyn:

- **Gorgyffwrdd a dyblygu rhwng GwE a'r awdurdodau lleol -** Mae'n galonogol bod partneriaeth go iawn yn datblygu rhwng GwE a'r awdurdodau lleol a bod y berthynas ag awdurdodau cystal, o leiaf, â'r llynedd, os nad gwell.
- **Mae materion sy'n ymwneud â chyllid** yn her i'r rhanbarth.
- **Recriwtio a chadw arweinwyr ac athrawon.** Mae hyn yn fater sylweddol o hyd mewn llawer o ysgolion, yn y sector uwchradd, mewn ysgolion llai ac yn arbennig cyfrwng Cymraeg.

3.4 Daw Steve Munby i'r casgliad yn ei adroddiad:

> *Yn wir, fe'm calonogwyd yn fawr am y cynnydd a welwyd flwyddyn yn ddiweddarach. Bodlonwyd fy nisgwyliadau, a rhagorwyd arnynt mewn rhai achosion. Nid rwan yw'r amser i golli'ch plwc (Now is not the time to lose your nerve), ond i ymdrechu o'r newydd a defnyddio'r cyffro a'r brwdfrydedd sy'n amlwg mewn ysgolion. "Rwan yw'r adeg orau yn fy ngyrfa addysgol. Rwyf wir yn teimlo y gallwn symud pethau ymlaen ar hyd a lled Cymru".*

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

4.2 Penderfynu a oes unrhyw agwedd benodol o'r cynllun maent am ei drafod ymhellach mewn cyfarfodydd i'r dyfodol.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o’r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o’r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o’r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori â Wnaed**

8.1 Cynrychiolaeth o: Benaethiaid (cynradd ac uwchradd), Deilyddion Portffolio Addysg, Bwrdd Rheoli GwE a staff GwE.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Adolygiad o gynnydd GwE – adroddiad Steve Munby

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae rhan 3.3 o'r adroddiad blaen ynghylch adolygiad Steve Munby yn nodi: *“*Mae materion sy'n ymwneud â chyllid yn her i'r rhanbarth*”.* Wrth gwrs, bydd aelodau cyd-bwyllgor GwE eisoes yn gwbl ymwybodol, fel mae Steve Munby yn nodi ym mharagraff 2 ar bedwaredd dudalen ei adolygiad: “*mae ysgolion hefyd yn ei chael hi'n anodd....tra bod cyllidebau tynn ar waith*” ac “*mae awdurdodau lleol hefyd dan bwysau i barhau i ddarparu gwasanaethau*”. Er hynny, yn gyffredinol, ymddengys bod adroddiad yr adolygiad yn dod i gasgliad cadarnhaol ynghylch effaith GwE o'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.

**Adolygiad o gynnydd GwE - Hydref 2019**

**Cefndir a sylfaen dystiolaeth**

Cefais gyfarfod ag amrediad o gymheiriaid uwch o GwE, a rhoddwyd brîff i mi ar ddatblygiadau ers fy adolygiad diwethaf yn hydref 2018. Yn ychwanegol, cefais gyfarfod â rhai Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) a swyddogion allweddol o GwE sy'n arwain ar:

- ymgysylltu â chymheiriaid;
- cefnogaeth ar gyfer Cwricwlwm i Gymru;
- prosiect Ymchwil Gweithredol Asesu Ffurfiannol; a
- trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol

Cefais sgwrs hefyd â:

- grŵp o Benaethiaid (cynradd ac uwchradd) o nifer o wahanol awdurdodau lleol yn y rhanbarth;
- deilyddion portffolio addysg dau awdurdod lleol - sydd hefyd yn gadeirydd ac is-gadeirydd Cyd-bwyllgor GwE; a
- cadeirydd Bwrdd Rheoli GwE (un o'r Cyfarwyddwyr Addysg - sgwrs ar y ffôn).

Yn ogystal, dangosodd staff GwE y cynnydd a wnaed gyda G6 ers y llynedd, a hefyd y meddalwedd tracio a ddefnyddir bellach mewn mwy na 40% o ysgolion y rhanbarth.

**Arsylwadau cyffredinol**

Cefais fy nghalonogi'n fawr gan yr ymweliad. Pan wnes i adolygu gwaith GwE y llynedd, roedd y gwasanaeth eisoes yn gwneud cynnydd cryf yn y cyfeiriad y cytunwyd arno ar gyfer y daith, ond ers hynny mae'r cynnydd naill ai wedi cyflymu'n sylweddol neu, o leiaf, wedi mynd rhagddo yn gyson. Mae GwE yn parhau ar ei daith dri cham, o fod â prif ffocws ar herio a monitro, i brif ffocws ar gefnogi gwelliant a thuag at ffocws pennaf ar feithrin capasiti ar gyfer system sy'n hunan wella.

Roedd yn galonogol clywed gan Benaethiaid am y trawsnewid a fu yn null GwE o weithredu yn y blynyddoedd diwethaf, ac am eu cefnogaeth gref o ansawdd y cymorth maent yn dderbyn. Roedd hefyd yn dda clywed yr adborth cadarnhaol gan ddeilyddion portffolio a'r cyfarwyddwr addysg, sydd oll yn gwbl argyhoeddedig bod GwE yn cynnig gwerth da am arian. Siaradodd YCG a chyd-weithwyr eraill o GwE yn gadarnhaol iawn hefyd am y newid mewn diwylliant o fewn GwE, ac am sut y maent yn teimlo wedi'u grymuso, ac yn llai ynysig. Nid oeddwn yn siomedig am gynnydd yr un agwedd ar y gwaith a archwiliais, er bod nifer o heriau o hyd.

**Rhesymau dros fod yn ffyddiog / meysydd o gryfder**

1. **Arweinyddiaeth a diwylliant** Mae datblygu diwylliant o fod yn agored ac yn gwrando yn amlwg iawn yn GwE. Mae Penaethiaid a rhanddeiliaid eraill yn sôn am natur hyblyg, agored ac ymatebol GwE. Mae ffocws ar *"perthynas, perthynas, perthynas". "Ni ellir gwella ysgolion heb gynnwys ysgolion".* Mae tîm arweinyddiaeth GwE yn modelu'r diwylliant a'r ymddygiadau sy'n ofynnol. Mae ffocws ar ddatblygiad a hyfforddiant i staff mewnol, er mwyn helpu i sicrhau bod staff yn rhannu gweledigaeth gyffredin a strategaeth y cytunwyd arni. *"Rydym ar y daith gyda'n gilydd, a chyda ein hysgolion"*. *"Arferai'r diwylliant yn GwE fod yn fwy 'o'r brig i lawr', ond teimlaf yn awr bod pobl yn gwrando arnaf i ac fy mod yn helpu i siapio'r dyfodol".* Mae'r arweinyddiaeth yn strategol, yn ystyriol, yn fyfyriol, yn agored i her ac yn wleidyddol graff. *"Mae Arwyn wedi ymroi i weithio mewn partneriaeth"*. *"Rwyf wedi dysgu cymaint o fod ar y Tîm Arweinyddiaeth - pwysigrwydd bod yn agored, yn dryloyw, yn strategol a dysgu gan y naill a'r llall". "Mae hyn yn gyfnod o newid mawr, ond*

*rwy'n ffyddiog bod strategaeth gydlynol ar waith wrth fynd ymlaen, a'n bod i gyd ar yr un llwybr"*

2. **Ymgysylltu â chymheiriaid, clystyrau ac adolygu gan gymheiriaid** Gwneir cynnydd sylweddol wrth ddatblygu effeithiolrwydd ar y cyd drwy glystyrau ysgolion. Yn sgil cyfarfod pwysig i Benaethiaid y rhanbarth ar 22 Ionawr 2019, rhoddwyd perchenogaeth i Benaethiaid ddatblygu egwyddorion adolygu gan gymheiriaid, ac i gytuno ar y ffordd ymlaen gyda gweithio clwstwr. Mae hyn wedi hwyluso peilot diddorol iawn, ble mae dau ddull gwahanol iawn o adolygu gan gymheiriaid yn cael eu treialu, ac mae'r ddau ddull yn cydymffurfio â'r egwyddorion hyn: a) Y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion (*The Schools Partnership Programme*) dan arweiniad yr *Education Development Trust*, sy'n darparu strwythur cyffredin, yn rhoi gwerth i rôl yr "Hwyluswyr Gwelliant" ac yn rhoi hyblygrwydd i ysgolion benderfynu ar ffocws yr adolygu a b) Dull gweithredu fwy lleol o'r 'gwaelod i fyny', ble cytunir ar ffocws cyffredin ar gyfer adolygu gan gymheiriaid ar draws y clwstwr. Yn hanfodol, gwnaed asesiad gwaelodlin er mwyn gallu ystyried effeithiolrwydd y ddau ddull dros amser.

   Bu newid pwysig hefyd yn natblygiad y clystyrau cwricwlwm, gydag ysgolion yn datblygu eu cynlluniau eu hunain, cyhyd â'u bod yn bodloni meini prawf penodol. Mae'r clystyrau cwricwlwm hefyd wedi cael peth llwyddiant wrth ddatblygu a hyfforddi hwyluswyr clwstwr, sy'n helpu arweinyddiaeth system i fynd y tu hwnt i'r Pennaeth. Yn ogystal, mae'r clystyrau ADY wedi gwneud cynnydd da ers fy ymweliad y llynedd.

   Mae'r symud tuag at fwy o weithio clwstwr, sy'n meithrin her a chefnogaeth gan gymheiriaid a chanolbwyntio ar wella deilliannau disgyblion, yn gam pwysig iawn. Mae ysgolion yn frwdfrydig ynghylch y dull gweithredu hwn. *"Ni sydd biau fo, ond rydym yn cael her a chefnogaeth ddefnyddiol"*. Maent yn deall bod cystadlu rhwng ysgolion am lefydd yn her i gydweithio ysgol-i-ysgol effeithiol, ond maent hefyd yn deall bod y symud cenedlaethol tuag at leihau system o atebolrwydd lle mae llawer iawn yn y fantol yn helpu'r cydweithio i fod yn fwy seiliedig ar ymddiriedaeth a thryloywder. Ystyria Penaethiaid bod y symud hwn at ddull gweithredu sy'n fwy cydweithredol yn arwyddocaol iawn: *"Byddwn yn edrych yn ôl ac yn dweud 'dyma pa bryd y newidiodd pethau'. Mae'n gyfnod allweddol i Gymru* **".**

   Ffordd GwE o fynd ati o hyd yw bod ysgolion yn arwain y gwaith hwn gyda chymorth a chefnogaeth gan GwE, yn hytrach na thrwy orfodi dull 'o'r brig i lawr'. Ond nod GwE yw helpu i ddatblygu'r diwylliant a darparu'r gefnogaeth i wneud hyn yn fwy tebygol o fod yn effeithiol, fel bod y symud at adolygu gan gymheiriaid yn un "o wirfodd, ond yn anorfod". Yn fy marn i, nid ydynt eto wedi cyrraedd system sy'n hunan wella, ond maent ar y ffordd.

3. **Lleihau llwyth gwaith a biwrocratiaeth** Mae'n gyfnod dyrys i addysgwyr yng Nghymru wrth iddynt geisio gweithredu Cenhadaeth ein cenedl a'i siapio i fodloni eu cyd-destun lleol. Mae capasiti a llwyth gwaith, felly, yn bryderon mawr. Caiff datblygiad pellach G6 effaith gadarnhaol iawn ar leihau llwyth gwaith ysgolion ac YCG. Mae gwaith pellach i'w wneud ar hyn, ond gyda 84% o ysgolion bellach yn ei ddefnyddio dengys tystiolaeth anffurfiol ei fod yn lleihau llwyth gwaith Penaethiaid yn sylweddol, ac yn fodd i YCG roi mwy o sylw i drafod y ffordd ymlaen a rhoi cymorth i'r ysgol, yn hytrach na threulio amser yn llunio adroddiadau. *"Rwyf wrth fy modd efo fo. Mae wedi arbed oriau ac oriau o waith" (Pennaeth). "Byddwn yn treulio oriau yn llunio adroddiadau heb wybod yn iawn pam fy mod yn eu hysgrifennu" (YCG).* Mae hefyd yn annog tryloywder, ac yn cefnogi gwasgaru'r arweinyddiaeth mewn ysgolion. Mae pawb yn y system ar ei ennill. Bydd protocol, sut y defnyddir hyn wrth symud ymlaen a phwy sydd gan fynediad i'r data, yn bwysig. Yn ogystal, mae'r meddalwedd tracio newydd yn

helpu ysgolion i ganolbwyntio ar gynnydd grwpiau o ddisgyblion, gan felly gefnogi gwell dialog proffesiynol ar yr hyn ddylai ddigwydd nesaf.

Mae cymorth proffesiynol effeithiol iawn gan reolwyr perfformiad, cyllid a data, a'u staff, yn fodd i staff gwella ysgolion weithio'n fwy effeithiol. Mae'r aelodau staff hyn yn darparu gwybodaeth ac adroddiadau o safon uchel, sy'n hwyluso cyfeiriad y daith ac adrodd i amryfal gynulleidfaoedd.

4. **Craffu** Yn ystod fy ymweliad y llynedd, nodais y gallai'r newidiadau i'r system atebolrwydd arfaethedig, hynny yw canlyniadau profion ddim yn cael eu cyfuno mwyach nac Estyn yn graddio ysgolion (ac eithrio'r rhai hynny mewn mesurau arbennig), arwain at broblem o ran y disgwyliadau o aelodau etholedig yn eu rôl craffu. Mae hyn eisoes yn bryder, a bydd angen ei drin yn ofalus. Fodd bynnag, fe'm calonogir o weld symud at graffu sy'n fwy ymarferol, sydd a wnelo ag ysgolion unigol, a bod aelodau craffu yn ymweld ag ysgolion ac, yn wir, yn cysgodi YCG.

5. Darparu **cymorth gwahaniaethol a dibynadwy** sy'n seiliedig ar angen. Roedd GwE eisoes yn symud yn gadarn i'r cyfeiriad hwn y llynedd. Fe'm calonogir o weld cynnydd da ar hyn, gyda mwy fyth o Benaethiaid uwchradd mewn swydd a Phenaethiaid profiadol yn y rôl YCG (gan felly roi gwell hygrededd i'r rôl yng ngolwg Penaethiaid uwchradd), a dull mwy ymatebol a phenodol byth o fodloni anghenion ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae'r ffocws hwn ar ddefnyddio ymarferwyr yn hytrach na dim ond yr arbenigwr yn y canol yn parhau i ddatblygu, gyda rhagor o ymarferwyr yn arwain DPP ac YCG yn broceru mynediad i arfer dda mewn ysgolion eraill. Dywedodd Penaethiaid wrthyf bod y broceru hwn bellach yn cynnwys gwell ffocws ar ddialog a gwaith dilynol, yn hytrach na dim ond un ymweliad yn unig.

6. Mae GwE yn rhan bwysig o helpu i sicrhau **cydlynedd** o ran amryfal bolisïau cenedlaethol, a helpu ysgolion i wneud synnwyr ohonynt ar lefel leol. Mae hyn yn arbennig o wir am y gwaith o drawsnewid ADY, a hefyd pan ddaw i gefnogi datblygiad y cwricwlwm i Gymru, lle mae peth ansicrwydd o hyd mewn ysgolion o ran faint o waith ddylid wneud yn awr, a faint ddylid ei adael tan eto. Mae rôl GwE fel cyfrwng rhwng y llywodraeth ac ysgolion yn un bwysig - helpu ysgolion i ddeall polisïau'r llywodraeth a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiadau cenedlaethol, a hynny ar yr un pryd â rhoi adborth adeiladol i weision sifil am yr heriau ar lawr gwlad.

**Heriau/pryderon**

1. **Gorgyffwrdd a dyblygu rhwng GwE a'r awdurdodau lleol** Mae'n galonogol bod partneriaeth go iawn yn datblygu rhwng GwE a'r awdurdodau lleol a bod y berthynas ag awdurdodau cystal, o leiaf, â'r llynedd, os nad gwell. Rhoddir gwedd gliriach i rolau, cryfheir y berthynas a datblygir dulliau gweithredu effeithiol. *"Rôl GwE yw cefnogi a herio; rôl yr awdurdod lleol yw atebolrwydd a gwaith statudol".*

   Mae posibilrwydd y bydd gwaith yr awdurdodau lleol ar gynhwysiant, llesiant ac ADY yn gorgyffwrdd â'r gwaith y mae GwE yn wneud eisoes, neu â'i waith yn y dyfodol. Mae angen gweithio ymhellach ar y materion gorgyffwrdd hyn.

2. **Mae materion sy'n ymwneud â chyllid** yn her i'r rhanbarth. Ni phenodwyd staff yn lle ambell aelod staff canolog yn GwE a bu cryn fynd a dod ymhlith YCG, sydd oll wedi gwneud dilyniant a pharhad a meithrin ymddiriedaeth gydag ysgolion yn anoddach (er, ar yr ochr gadarnhaol, bu hyn yn fodd o ddod ag arbenigedd newydd i GwE). Mae ysgolion hefyd yn ei chael hi'n anodd cyflawni'r holl ddisgwyliadau sydd ohonynt tra bod cyllidebau tynn ar waith. Mae awdurdodau lleol hefyd dan bwysau i barhau i ddarparu gwasanaethau. Nid yw'r materion hyn yn rhai aruthrol, ond maent yn heriau ychwanegol i'w goresgyn er mwyn cael llwyddiant ar draws y system.

3. **Recriwtio a chadw arweinwyr ac athrawon** Mae hyn yn fater sylweddol o hyd mewn llawer o ysgolion, yn y sector uwchradd, mewn ysgolion llai ac yn arbennig cyfrwng Cymraeg. Mae mwy o ysgolion bach yng ngogledd Cymru nag mewn rhanbarthau eraill. Efallai na fydd darparu cymorth allanol o safon uchel yn ddigon i sicrhau bod ysgol heriol yn gwneud cynnydd os yw'r ysgol yn ei chael hi'n anodd denu arweinwyr ac athrawon pwnc o safon uchel. Erys perfformiad ysgolion uwchradd yng nghyfnod allweddol 4 yn bryder.

**Argymhellion:**

Mae GwE yn mynd i'r cyfeirid cywir, ac nid rwan yw'r amser i newid ei ddull gweithredu sylfaenol na boddi prif negeseuon ei strategaeth gyda llwyth o fanylion. Mae nifer cynyddol o ysgolion yn gefnogol, datblygir ymddiriedaeth a chapasiti, mae clystyrau yn dod yn fwy effeithiol, mae adolygu gan gymheiriaid ar fin llwyddo ac mae agwedd gadarnhaol a brwdfrydedd yn amlwg. Mae'n glir bod arweinyddiaeth GwE yn effeithiol.

Yn y flwyddyn i ddod, bydd angen ffocws mwy byth ar addysgu a dysgu, ac ar ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm sy'n cymhwyso egwyddorion Cwricwlwm i Gymru at y cyd-destun lleol. GwE sydd yn y sefyllfa orau i arwain y ffordd ar hyn, o gofio ei bwyslais ar weithio clwstwr a hwyluso system hy'n hunan wella mwy a mwy.

Mae'n galonogol iawn y gwnaed cynnydd, yn fy marn i, ar naw argymhelliad fy adroddiad, ac nid oes rheswm dros newid y naw argymhelliad hyn flwyddyn yn ddiweddarach. Ar adegau, y ffordd ymlaen yw parhau gyda'r hyn a ddechreuwyd, ond i wneud hynny mewn mwy o ddyfnder a chyda peth mireinio. Dyma adeg o'r fath. Mae argymhellion y llynedd yn parhau, ond yn awr byddwn yn ychwanegu "parhau" at bob un, a'u haddasu fymryn mewn rhai achosion.

1. Parhau â dull graddol a gwahaniaethol o arwain a chefnogi newid. Bydd hyn dal yn "flêr", a bydd anghenion ysgolion yn wahanol. Beth sydd ei angen yma yw "arweinyddiaeth gynnil". Bydd angen weithiau defnyddio YCG yn ôl eu cryfderau (er enghraifft, neilltuo'r rheini sy'n well o ran ymyrraeth fwy uniongyrchol i'r ysgolion hynny sydd arnynt angen ymyrraeth fwy uniongyrchol).
2. Parhau i fod yn glir ynghylch yr hyn sy'n troi'r fantol o ran ymyrraeth, a pharhau i beidio â chyfaddawdu pan fo plant yn colli'r cyfle i gael addysg dda. Peidio â cholli'r "ymyl caled", a pheidio ag osgoi'r sgwrs heriol. Ond eithriad fydd hyn, yn hytrach na'r arferol.
3. Parhau i ddatblygu llwyddiant a'i rannu a'i ledaenu, a hynny trwy froceru cefnogaeth ysgol-i-ysgol a dulliau eraill o gyflwyno arfer ragorol i athrawon ac arweinwyr. Gall y Prosiect Ymchwil Gweithredol Asesu Ffurfiannol fod yn rhan bwysig o hyn, fel y gwaith clwstwr. Yn benodol, gall adolygu gan gymheiriaid helpu'n sylweddol gyda hyn, a dylai hyn, gobeithio, fod yn ddeilliant yn yr arfarniadau.

4. Parhau i chwilio am athrawon ac arweinwyr tra thalentog, gan ddefnyddio'r gwaith clwstwr a rhaglenni megis y rhaglen i ddarpar arweinwyr i annog unigolion i symud ymlaen. Ystyried efallai defnyddio fframwaith datblygu talent?
5. Parhau i geisio defnyddio staff ysgolion fwy a mwy mewn datblygiad proffesiynol. Dod o hyd i ragor o ffyrdd o annog a hwyluso ymarferwyr rhagorol i arwain datblygiad proffesiynol ar lefel ysgol ac ar lefel clwstwr. Ystyried sut y gellir gwreiddio hyn yn ddyfnach yn niwylliant ysgolion a chlystyrau.
6. Parhau i hoelio sylw clystyrau ar amcanion tryloyw sy'n seiliedig ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion. Bod yn agored ynghylch hyn, ac annog rhannu'r deilliannau arfaethedig ag awdurdodau lleol, Estyn a rhieni. Gwneud eich gorau i gefnogi a datblygu "arweinyddiaeth ochrol", sy'n set o sgiliau gwahanol i sgiliau "arweinyddiaeth sefydliadol".
7. Parhau i ddatblygu strategaeth adolygu gan gymheiriaid a'i harfarnu. Defnyddio dull "profi a dysgu" yn y flwyddyn i ddod.
8. Datblygu gwedd gliriach ar rôl yr "arweinydd system". Mae hyn yn cysylltu â'r sylw ar "arweinyddiaeth ochrol" yn 6. Mae'r amser yn iawn i wneud rhagor ar hyn yn y flwyddyn i ddod wrth i weithio clwstwr symud i'r lefel nesaf.
9. Parhau i edrych tuag allan, a chroesawu her o'r tu allan i ogledd Cymru. Dengys y gwaith gyda Shirley Clarke ar asesu ffurfiannol a'r gwaith gyda'r Education Development Trust ar adolygu gan gymheiriaid, ymhlith pethau eraill, bod gwerth i edrych tuag allan, ond mae'n bwysig gosod pethau mewn cyd-destun er mwyn bodloni anghenion ysgolion yng ngogledd Cymru, fel a wneir yn eich Prosiect Asesu Ffurfiannol a'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion.

**Casgliad**

Yn wir, fe'm calonogwyd yn fawr am y cynnydd a welwyd flwyddyn yn ddiweddarach. Bodlonwyd fy nisgwyliadau, a rhagorwyd arnynt mewn rhai achosion. Nid rwan yw'r amser i golli'ch plwc (*Now is not the time to lose your nerve)*, ond i ymdrechu o'r newydd a defnyddio'r cyffro a'r brwdfrydedd sy'n amlwg mewn ysgolion. *“Rwan yw'r adeg orau yn fy ngyrfa addysgol. Rwyf wir yn teimlo y gallwn symud pethau ymlaen ar hyd a lled Cymru".*

**Steve Munby 2 Hydref 2019**